


Gwerddon



Cyfnodolyn Academaidd Cymraeg


Golygydd: Yr Athro Ioan Williams

Rhif **14** Ebrill 2013 • ISSN 1741-4261 • Golygydd: Yr Athro Ioan Williams

Gwerddon

CYFNODOLYN ACADEMAIDD CYMRAEG

Golygydd Yr Athro Ioan Williams





Bwrdd Golygyddol

Golygydd:	Yr Athro Ioan M. Williams
Is-Olygydd:	Dr Hywel Griffiths, Prifysgol Aberystwyth
Cynorthwydd Golygyddol:	Dr Gwenllian Lansdown Davies
Cadeirydd y Bwrdd Golygyddol:	Dr Hefin Jones, Prifysgol Caerdydd
Aelodau'r Bwrdd Golygyddol:	Dr John S. Davies Dr Noel A. Davies Dr Myfanwy Davies, Prifysgol Bangor Yr Athro Siwan Davies, Prifysgol Abertawe Dr Arwyn Jones, Prifysgol Caerdydd Dr Carwyn Jones, Prifysgol Fetropolitan Caerdydd Yr Athro Rhys Jones, Prifysgol Aberystwyth Dr Gwyn Lewis, Prifysgol Bangor Yr Athro Diarmait Mac Giolla Chríost, Prifysgol Caerdydd Dr Angharad Price, Prifysgol Bangor Dr Eleri Pryse, Prifysgol Aberystwyth Dr Siân Wyn Siencyn, Prifysgol Cymru: Y Drindod Dewi Sant Dr Enlli Thomas, Prifysgol Bangor Mr Wyn Thomas, Prifysgol Bangor Dr Daniel Williams, Prifysgol Abertawe

e-Gynodolyn academiaidd cyfrwng Cymraeg yw *Gwerddon*, sy'n cyhoeddi ymchwil ysgolheigaidd yn y Gwyddorau, y Celfyddydau a'r Dyniaethau. Cyhoeddir *Gwerddon* ar y we o leiaf ddwywaith y flwyddyn. Arferir cyfraniadau gan arbenigwyr yn y meysydd perthnasol yn y modd arferol. Ceir gwybodaeth lawn am amcanion, polisiau golygyddol, canllawiau i awduron a chanllawiau i arfarnwyr ar y wefan: www.gwerddon.org

Cyllidir *Gwerddon* gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

Cysylltwch â *Gwerddon* drwy e-bostio gwybodaeth@gwerddon.org neu drwy'r post: *Gwerddon*, Canolfan Gwasanaethau'r Gymraeg, Prifysgol Aberystwyth, Yr Hen Goleg, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 2AX.

ISSN 1741-4261

Hawlfraint *Gwerddon*

www.gwerddon.org



Cynnwys

Golygyddol	5
Crynodebau	6
Summaries	7
Erthygl 1: Yr Athro Aled Gruffydd Jones, 'Iechyd ac iachawdwriaeth: meddygaeth, y corff a'r drefn foesol ym Mengâl drefedigaethol 1840-1935'	8
Erthygl 2: Dr Craig Owen Jones, "'Ar y brig unwaith eto": siartiau pop iaith Gymraeg cynnar'	29
Erthygl 3: Gareth Watkins, 'Gweithdrefnau cyfieithu'r Ganolfan Gyfieithu ar gyfer cyrff yr UE a'u perthnasedd i Gymru'	46
Cyfranwyr	68

Golygyddol

Gofynnwyd cwestiwn diddorol i dîm golygyddol *Gwerddon* yn ddiweddar gan rywun oedd yn ystyried cyfrannu erthygl.

Roedd y darpar gyfrannwr am wybod pa fath o erthygl y byddem ni yn ei chroesawu. Gan ei fod yn gweithio mewn maes tra arbenigol, na fyddai dim ond ychydig iawn o ymchwilwyr sy'n medru'r Gymraeg yn ymddiddori ynddo, oni fyddai'n well ysgrifennu erthygl fwy cyffredinol i gyflwyno ei faes ymchwil i gynulleidfa academiaidd ehangach, holodd?

Ein hateb ni oedd mai cyfnodolyn academiaidd yw *Gwerddon*, sy'n cyhoeddi ffrwyth ymchwil ym mhob maes, waeth pa mor arbenigol y bo. Mae'n wir, wrth gwrs, mai bychan yw'r gynulleidfa gogyfer â phob ffurf ar ysgrifennu academiaidd yn y Gymraeg, ond mae *Gwerddon* yn bodoli er mwyn sicrhau bod modd cyhoeddi'r gwaith hwnnw a bod modd iddo gael ei ddarllen.

Ein gobaith, wrth gwrs, yw y bydd argaeledd corff sylweddol o ymchwil safonol iawn yn cynorthwyo i godi proffil ymchwil yn y Gymraeg yn gyffredinol ac yn cynyddu nifer y darllenwyr a'r ymchwilwyr maes o law. Ac yn wir, mae tystiolaeth nifer yr ymwelwyr i wefan y cyfnodolyn yn cryfhau'r gobaith hwnnw.

Mae'n dilyn, o ganlyniad i'r amcan hwnnw, ein bod ni'n gorfod gweithio tuag at greu 'arddull tŷ' i'r cyfnodolyn. Wrth olygu deunydd sy'n cynrychioli meysydd mor wahanol i'w gilydd, rydym yn ceisio sicrhau ei fod ar gael i ddarllenwyr ar draws y disgyblaethau academiaidd. Dyna, wrth gwrs, pam ein bod wedi datblygu canllawiau go fanwl y gofynnir i gyfranwyr gydymffurfio â nhw. A dyna, hefyd, pam yr ydym yn gofyn i bawb fod yn amyneddgar gyda phroses olygu fanwl iawn. Gadewch i mi egluro. Ar ôl mynd trwy'r broses arfarnu arferol ac yna ddychwelyd yr erthygl wedi ei chywiro gan yr awdur, bydd pob erthygl yn mynd trwy ddwylo prawfddarllenydd, lle caiff yr erthygl ei chywiro o ran mynegiant. Ac wedyn, yn ystod y broses olygyddol derfynol, mae'n dra phosibl y down ni at yr awdur eto, gydag ymholiadau pellach am gyfeiriadau a chonfensiynau. Wedyn caiff pob awdur gyfle i gadarnhau ffurf derfynol ei g/waith cyn ei gyhoeddi.

Credwn fod manteision sylweddol i'r broses hon.

Yn y lle cyntaf mae'n diogelu safon gwaith yr awduron – tasg go anodd pan fo cymaint o amrywiaeth o ran dull a therminoleg mewn meysydd tra arbenigol. Ac yn ail, mae'n sicrhau bod cynnwys erthyglau gwahanol iawn i'w gilydd ar gael i'r nifer mwyaf posibl o ddarllenwyr. Mae'n broses sy'n profi amynedd pawb sydd ynghlwm wrthi, ond mae'r amcan – ac yn wir ei lwyddiant hyd yn hyn – yn ei chyfiawnhau.



Crynodebau

Yr Athro Aled Gruffydd Jones, 'Iechyd ac iachawdwriaeth: meddygaeth, y corff a'r drefn foesol ym Mengâl drefedigaethol 1840-1935'

Gan elwa ar haen hynod gyfoethog o archifau cenhadol Cymreig yn India'r bedwaredd ganrif ar bymtheg a chychwyn yr ugeinfed ganrif, mae'r erthygl yn tynnu sylw at y modd y daeth gofal am y cleifion yn rhan ganolog, ond problemus, o'r Genhadaeth Gristnogol. Tra rhoddodd eu fferyllfeydd, eu clinigau a'u hysbytai lwyfan ac amlygrwydd i'r broses efengylaidd, ar yr un pryd agorwyd ganddynt dyndra dyfnach mewn cyswllt, er enghraifft, â gwleidyddiaeth rhyw a thrawsblannu arferion meddygol Gorllewinol mewn cymdeithas drefedigaethol.

Dr Craig Owen Jones, "'Ar y brig unwaith eto": siartiau pop iaith Gymraeg cynnar'

Mae'r erthygl hon yn cynnwys dadansoddiad o siartiau tri phapur newydd yn ystod y flwyddyn 1972, yn canolbwyntio ar batrymau rhanbarthol a chenedlaethol, a hefyd ar berfformiad recordiau roc yn y siartiau. Dadlennir bod y siartiau o werth fel dangosydd gwerthiant tebyg, ond hefyd oherwydd eu statws fel cyfrwng i'r cyhoedd gymryd rhan yn y byd pop Cymraeg.

Gareth Watkins, 'Gweithdrefnau cyfieithu'r Ganolfan Gyfieithu ar gyfer cyrff yr UE a'u perthnasedd i Gymru'

Mae'r erthygl hon yn trafod y gweithdrefnau cyfieithu a'r dechnoleg a ddefnyddir yn y Ganolfan Gyfieithu ar gyfer cyrff yr Undeb Ewropeaidd (Centre de Traduction, CDT). Bydd perthnasedd y llif gwaith a'r dechnoleg yn cael ei drafod yn fyr yng nghyd-destun cyfieithu Saesneg-Cymraeg-Saesneg yng Nghymru, gan gyfeirio'n benodol at Wasanaeth Cyfieithu Llywodraeth Cymru.

Summaries

Professor Aled Gruffydd Jones, ‘Health and salvation: medicine, the body and the moral order in colonial Bengal 1840-1935’

Drawing on a rich seam of archival material on Welsh missionary activity in late nineteenth- and early twentieth-century Bengal, the article addresses ways in which care of the sick became a central, if problematic, part of Christian Mission. While the building of dispensaries, clinics and hospitals provided both a platform and a social visibility to the evangelisation process, they also exposed deeper tensions around the politics of gender and the implantation of Western medical practices in a colonised society.

Dr Craig Owen Jones, ‘“At the top once again”: early Welsh language pop charts’

This article contains an analysis of the pop charts of three Welsh newspapers during the year 1972, concentrating on regional and national trends, and also on the performance of rock records in the charts. It is argued that Welsh language pop charts are of use as indicators of likely sales, but also because of their role as a medium for the record-buying public to participate in the Welsh pop world.

Gareth Watkins, ‘The translation procedures of the Translation Centre for the Bodies of the EU and their Relevance to Wales’

This paper discusses translation procedures and technology used in the Translation Centre for the Bodies of the European Union (Centre de Traduction, CDT). The relevance of the workflows and technology will then be briefly discussed in the context of English-Welsh-English translation in Wales, with specific reference to the Welsh Government Translation Service.

Aled Gruffydd Jones

**lechyd ac
iachawdwriaeth:
meddygaeth, y corff a'r
drefn foesol ym Mengâl
drefedigaethol 1840-1935**

Gwerddon

CYFNODOLYN ACADEMAIDD CYMRAEG

Golygydd Yr Athro Ioan Williams

Iechyd ac iachawdwriaeth: meddygaeth, y corff a'r drefn foesol ym Mengâl drefedigaethol 1840-1935

Aled Gruffydd Jones

Iacháu'r corff a'r enaid oedd dau o brif wrthrychau hanesyddol y genhadaeth Gristnogol, yn arbennig felly yn nhrefedigaethau'r Ymerodraeth Brydeinig. Yn aml, ystyrir y diben cyntaf yn ddull i agor y drws i'r ail, yn yr un modd ag y byddai iechyd y corff, yn y feddylfryd imperialaidd ryddfrydol, yn arwydd o ddyfodiad rhyddid a moderniaeth ymysg y brodorion.¹ Serch hynny, gwyddys yn iawn nad oedd yr un yn arwain yn anorffod at y llall. At y tyndra rhyngddynt, fel strategaethau cenhadol mewn cyd-destun ymerodraethol, y bydd yr erthygl hon yn tynnu sylw yn bennaf. Hynny, a'r modd y datblygodd perthynas, dros gyfnod hir o amser, rhwng y tramorion meddygol a'r gymdeithas frodorol o'u hamgylch. Gan mai'r Genhadaeth Gymreig yng ngogledd-ddwyrain India oedd yn cael ei hystyried gan gyfoeswyr fel y fodel amlycaf o'i thebyg, a hynny am gyfnod maith, bydd yr erthygl hon yn dwyn sylw yn arbennig at brofiad ac esiampyl y Methodistiaid Calfinaidd yn y maes penodol hwnnw.² Wrth fwrw golwg hanesyddol dros y berthynas a esblygodd rhwng y gymdeithas honno a'r bobl a fu mewn cysylltiad â hi, gobeithir y bydd yr erthygl yn dadlennu rhywfaint am gymhellion a strwythurau cenhadol yn gyffredinol yn y ganrif a ddilynodd 1840. Ar yr un pryd, efallai y byddai darparu persbectif hanesyddol o'r math hwn hefyd yn taflu golau gwahanol dros ddadleuon cyfoes ar swyddogaethau amlochrog y cyrff anllwyodraethol hynny, boed nhw yn grefyddol neu'n seciwlar, sy'n parhau i weithredu heddiw yn yr un ardaloedd o'r byd.³

Wrth ystyried datblygiad yr hanes hwn, dylid nodi yn syth nad peth amhroblematig yw dehongli natur gwybodaeth feddygol, nac yn wir y dulliau a ddefnyddiwyd yn y gorffennol

¹ Pande, Ishita (2010), *Medicine, Race and Liberalism in British Bengal. Symptoms of Empire* (Routledge). 'Medicine became a fundamental expression of the ideology of imperial liberalism: "curing their ills" to "set them free"', t. 1. Gweler hefyd Ramasubban, Radhika (1988), 'Imperial health in British India, 1857-1900' yn MacLeod, Roy a Lewis, Milton (goln.), *Disease, Medicine and Empire. Perspectives on Western medicine and the Experience of European Expansion* (Routledge), tt. 38-60.

² Yn hynny o beth, bu cyfoeth casgliad Cenhadaeth Dramor y Methodistiaid Calfinaidd (neu 'Archif y Methodistiaid Calfinaidd', a nodir o hyn allan yn y troednodiadau fel 'AMC') sydd eisoes dan ofal Llyfrgell Genedlaethol Cymru, yn sail hollbwysig i'r astudiaeth hon. Carwn dalu teyrnged arbennig i Gymdeithas Hanes, Eglwys Bresbyteriaid Cymru, am y gofal a gymerwyd ganddynt dros sawl cenhedlaeth i sicrhau ei ddiogelwch a'i hygyrdded, ynghyd â diolch iddynt am eu caniatâd i bori cyhyd yn ei gynnwys. Diolch hefyd am y cymorth ariannol a dderbynais gan yr AHRC a'm caniatodd i ymlwybro trwyddi gyda chymaint o fanylder.

³ Ceir mewn damcaniaeth 'ôl-ddatblygiadol' sawl trafodaeth feirniadol ar ddylanwad cyrff o'r fath ar gymdeithasau trefedigaethol, megis, er enghraifft, Brigg, M. (2002), 'Post-Development, Foucault and the colonisation metaphor', *Third World Quarterly* 23 (3), tt. 421-36; Escobar, Arturo (1995), *Encountering Development: the making and unmaking of the Third World* (New Jersey: Princeton University Press).

i'w darparu.⁴ Amwys hefyd yw ystyr geiriau, gan fod amryw ffyrdd i'w dehongli oherwydd treiglaid amser a safbwyntiau eu defnyddwyr. Cymerwn er enghraifft air cyffredin, ond tra allweddol o safbwyntiau iechyd a meddygaeth, megis 'glendid' yng nghyd-destun crefyddol a diwylliannol y genhadaeth benodol hon. Fel y nododd B. C. Allen, ym 1906, bu cysylltiad cryf, hyd yn oed yn weledol, rhwng Cristnogaeth a 'tai da, dillad da, glanweithdra a llewyrch' ymhlith brodorion Bryniau Casia.⁵ Ond bu Emma Williams yn fwy parod i weld nad oedd pawb yn deall y term yn yr un ffordd. Fel gwraig y meddyg Dr Oswald Williams, a fu'n llafurio yng Ngharimganj am wyth mlynedd ar hugain, yr oedd hi wedi hen arfer gyda chymhlethdodau o'r math hwn. 'Mae gan bob carfan o bobl yma eu syniadau eu hunain am lendid', meddai, 'ond maent oll yn cytuno nad yw pobl o dras Ewropeaidd yn lân.' Hon oedd barn y Mwslemiaid oherwydd bod yr Ewropeaid yn bwyta porc, a'r Hindŵaid hefyd gan eu bod yn defnyddio eu dwy law 'i bob pwrpas', glân neu fudr, ac am na fyddent yn ymolchi cyn ac ar ôl bwyta.⁶

Ni ddylid cymryd yn ganiataol chwaith fod diwinyddiaeth anghydfurfiol yn gyffredinol, a'r elfen Galfinaidd efallai ohoni yn arbennig, yn wrthun i wybodaeth wyddonol. Yn hytrach, cyd-fyw wnaeth y gredo ragarfaethol, a'r gredo filflwyddol, gyda diddordeb deallus mewn datblygiadau technolegol a meddygol yr oes. Nid oedd y Bedyddiwr J. R. Jones, Ramoth, er enghraifft, yn anghyffredin o'i debyg pan ysgrifennodd o'r Garreg Fawr at y Dr James Watt, athro meddygaeth ym Mhrifysgol Glasgow, ar 17 Awst 1804:

I have a strong inclination to the business (of physic), and particularly to attain a copious knowledge of the British herbs, and the manner how to make distillations, syrups, conserves, oils, ointments &c., of herbs, roots, and flowers.⁷

Hanner canrif yn ddiweddarach, ym 1857, ysgrifennodd William Pryse, y cenhadwr Cymreig ac *alumnus* Coleg Trefeca, o'i gartref yn Sylhet yn nwyrain Bengâl, gan nodi ei fod yn dosbarthu moddion meddygol homeopathig i'w gymdogion. Er nad oedd, meddai, yn gulfarn o'i blaid, serch hynny ei gred oedd bod y 'drefn homeopathig' yn rhagori dros ddulliau meddygol eraill.⁸ Erbyn 1922, yr oedd y Gymdeithas yn eiddo ar un o brif ysbytai modern a blaengar gogledd-ddwyrain yr India. Cynhaliwyd y seremoni agoriadol yn Shillong ar 24 Mawrth 1922, ar ôl pedair blynedd o waith rhagbaratoawl gan

⁴ Gweler, yn y trafodaethau dilynol, driniaeth ehangach ar y cwestiwn hwn, Marks, Shula (1997), 'What is Colonial about Colonial Medicine? And what has happened to imperialism and health?', *Social History of Medicine*, 10 (2), tt. 205-19; Anderson, Warwick (1997), 'Where is the Postcolonial History of Medicine?', *Bulletin of the History of Medicine*, 72, (3), tt. 522-30. Parthed natur gwybodaeth ac arbenigedd mewn amgylchedd trefedigaethol, gweler Cohn, Bernard S. (1996), *Colonialism and its forms of knowledge: the British in India* (Princeton: Princeton University Press).

⁵ Allen, B.C. (1906), *Assam District Gazetteers*, vol. x, *The Khasi and Jaintia Hills, the Garo Hills and the Lushai Hills* (Allahabad), Part I, *Khasi and Jaintia Hills District*, t. 67.

⁶ Gaster, Emma 'The Palmy Plains of Sylhet and Silchar', llawysgrif, 16, AMC 27153. Gweler hefyd Morris, John Hughes (1939), *In the Steps of the Good Physician. The Story of Medical Missions* (Caernarfon), t. 46.

⁷ Williams, David (1913), *Cofiant J. R. Jones, Ramoth* (Caerfyrddin), tt. 61-2.

⁸ Morris, John Hughes, 'A Short account of the Mission Work in Sylhet from its commencement in 1849', cyf. 1, 38, AMC; Smith, R. J. (1857), *Lecture on the history of medicine, and the science of homeopathy*; Jutte, Robert, Risse, Guenter B. a Woodward, John (goln.), *Culture, knowledge and healing: Historical perspectives of homeopathic medicine in Europe and North America*. Gweler Phatak, hefyd S. R. (1988), *Phatak's Materia Medica of Homeopathic Medicines* (London); Langford, Jean (2002), *Fluent Bodies: Ayurvedic Remedies for Postcolonial Imbalance* (Durham: Duke University Press).

ei brif sylfaenydd, y Dr Gordon Roberts, a fu gynt, adeg y Rhyfel Byd Cyntaf, yn llawfeddyg yng ngwasanaeth y Llywodraeth yn yr un ddinas. Yn y seremoni honno, gyda phedwar cenhadwr y Gyfundeb yn bresennol, cymerwyd yr awenau yn bennaf gan ddau ffigwr hynod nodweddiadol, ill dau yn cynrychioli agweddau tra gwahanol ar fywyd yr India yn y cyfnod. Un ohonynt oedd y Prydeinwr Syr William Marris, llywodraethwr talaith Assam. Y llall oedd *maharajah* talaith Manipur. Yn ôl un sylwebydd ar y pryd:

gŵr tra rhagfarnlyd ydyw'r Brenin, gwrthwynebwr cryf i bob gwaith Cristnogol. Ni chaniateir i'r un cenhadwr ymsefydlu yn ei diriogaeth. Dyma wlad sy'n gauedig i'r Efengyl.⁹

Er gwaethaf hynny, mae'n amlwg nad oedd drws ei deyrnas ar gau i amrywiol fanteision ysbyty modern o'r fath. Tra y gwelodd Syr William yr adeilad newydd fel mynegiant diamheuol o genhadaeth wareiddiol a ffydd grefyddol ei sefydlwyr, ystyriodd y *maharajah* yr achlysur fel dathliad dyfodiad gwasanaeth cyhoeddus a ddaeth i Shillong o ganlyniad uniongyrchol i drafodaeth telerau rhwng ei ddosbarth brodorol ef a chynrychiolwyr yr Ymerodraeth. Ond yr hyn a unodd y ddau oedd yr un pwyslais a roesant ar bwysigrwydd ansawdd ac arwyddocâd yr adnodd newydd a oedd wedi ymddangos yn eu plith. Gyda deg a phedwar ugain o welyau, llwyddodd ysbyty newydd Shillong i broffesiynoli darpariaeth feddygol yr ardal fel y cyfryw.

Dylanwadodd hyn ar fwy na lles corfforol y trigolion, boed nhw yn dramorwyr neu yn frodorion. Wedi'r cyfan, gellir dehongli unrhyw ddarpariaeth les fel arian parod mewn cyfnewidfa foesegol a diwylliannol.¹⁰ Yn y gyfnewidfa gymdeithasol hon, mae datblygiadau sydd ynghlwm â chysyniadau o foderniaeth yn herio, ac yn aml yn trechu, yr arferion hynny sy'n cael eu canfod fel rhai sydd ynghlwm â thywyllfrydedd. Gweler, er enghraifft, naratif B.C. Allen yn ei gyfrol ar Sylhet yn ei gyfres ddylanwadol, *Assam District Gazetteers*, a gyhoeddwyd ym 1905. Ynddi taerodd fod y drefn Ayurfedig draddodiadol wedi ei thanseilio'n llethol trwy ddirywiad difrifol y *Kabi*, sef y dosbarth a fu'n bennaf gyfrifol am drosglwyddo a hyrwyddo'r corff dirgel hwn o wybodaeth ar hyd y canrifoedd.¹¹ Paratoesant eu meddygaethau gyda haearn, arian, copr, arsenig, swlffwr ac arian byw, ynghyd â phlanhigion a choed 'ac, ambell waith, wenwyn cobra'.¹² Ar yr un pryd, meddai, bu'r dosbarth brahminig o sêr-ddiwinyddion, y *Ganak*, yn gofalu am gleifion yn dioddef y frech wen, brech yr ieir a'r frech goch, ond gwrthodent ddatgelu eu dulliau. Nodwyd ganddo hefyd fod arferion iacháu eraill yn deillio o fynegiant ffydd trwy leisio geiriau a sain. Ceisiodd dosbarth brahminig yr *Ojha* drin eu cleifion trwy swyn-ganeuon, tra bu'r mylahod Islamig yn llafarganu'r Cwrân i'r un perwyl. Ofer fuont oll, meddai Allen, ond er nad oedd unrhyw amheuaeth bod llawer wedi marw yn ddianghenraid fel canlyniad i'r fath driniaethau, pobl a fyddai'n dal ar dir y byw os byddent wedi derbyn 'triniaeth go iawn', croesawodd y gwellhad a fu yn y gwasanaethau meddygol yn yr ardal hon o'r India yn y blynyddoedd diweddar.

⁹ *Y Cenhadwr*, rhif 1, Ionawr 1922, tt.153-154.

¹⁰ Yn arbennig mewn cyd-destunau ymerodraethol, gweler Arnold, David (1993), *Colonizing the Body: State Medicine and Epidemic Disease in Nineteenth-Century India* (Berkeley: University of California Press); Bala, Poonam (1991), *Imperialism and Medicine in Bengal: A Socio-Historical Perspective* (New Delhi: Sage Publications).

¹¹ Allen, B. C. (1906), *Assam District Gazetteers*, t. 271. Adnabyddent fel *Vaidhya* yng ngweddill yr India.

¹² Allen, *loc. cit.*, t. 272.

Agorwyd y fferyllfa gyntaf yn Sylhet ym 1863, a hynny gan y cenhadwr Cymreig, William Pryse. Erbyn 1881, toc ar ôl i'r genhadaeth ailgydio ei phresenoldeb yn y ddinas, cynyddodd y nifer i bedwar. Neidiodd y nifer hwnnw i 34 ym 1892 wrth i'r genhadaeth ymestyn ei hystod gwasanaethol yno, ac yna i 43 ym 1901.



Ffigwr 1: Fferyllfa Jowai c. 1905. Tryloywlun hudlusern AMC 20612, blwch 13/18, 28 (-)

Am bob un claf a dderbyniodd driniaeth trwy un o fferyllfeydd Sylhet ym 1881, casglodd Allen fod 17 yn elwa ar y gwasanaeth ugain mlynedd yn ddiweddarach. Yn yr un cyfnod, cynyddodd nifer y llawdriniaethau yn y dref o 390 i 8068. Sylwodd hefyd fod oddeutu 40 o bobl, ar gyfartaledd, yn mynychu fferyllfeydd talaith Sylhet yn ddyddiol ym 1903, gyda dros 80 yn dod iddynt bob dydd yn y ddinas ei hun.¹³ Y prif glefydau a'u poenodd yno oedd y llyngyr, anhwylderau'r croen a'r llygaid, dysenteri a'r clefyd rhydd, a heintiau crydcymalog. Yng Ngharimganj, 60 cilomedr o dref Sylhet, y prif glefydau oedd twymyn a'r darwden (*ringworm*).¹⁴ Rhwng 1899 a 1904, tyfodd cyfradd genedigaethau Sylhet oddeutu wyth i bob mil yn gyflymach na'r gyfradd marwolaethau. Gwelodd Allen hyn fel tystiolaeth amlwg bod y broses o foderneiddio'r gwasanaeth meddygol ar linellau Prydeinig, yn wir yn arloesi ar y safonau hynny, yn cael dylanwad pendant ar gyflwr corfforol y bobl, ac yn arbennig felly ar iechyd mamau a'u plant.¹⁵

Ymledodd y drafodaeth ar foderneiddio i feysydd cyfagos yn ogystal, lle cawsant ddylanwad amlycach nag yn y fferyllfeydd hyd yn oed. Un enghraifft, eto o ddinas Sylhet, oedd agoriad gwladfa gwahangleifion ar gyrion gogleddol y dref ym mis Hydref 1898

¹³ Ceir cipolwg ar gynnwys fferyllfaoedd cenhadol cyfredol yn Affrica yn Chesterman, Clement C. (1929), *African Dispensary Handbook, an aid to the training and practice of African Medical Assistants and for the guidance of all engaged in medical practice in the dispensaries of Africa* (London).

¹⁴ Williams, O. O., at Thomas, O., 2 Awst 1895, AMC 27287.

¹⁵ Allen, *loc. cit.* t. 271.

fel noddfa ar gyfer deunaw o wahangleifion unigol a phedwar ar ddeg o deuluoedd, a hynny mewn ugain o dai newydd a godwyd yn benodol i'r pwrpas.¹⁶ Ond yr un oedd y bwriad, sef glanhau'r ddinas a'i thrigolion a thrwy hynny dod â threfn fwy cynaliadwy i'r gymdeithas yn gyffredinol. Ac os y bu un amcan goruchafol gan Lywodraeth yr Ymerodraeth tuag at Assam a Dwyrain Bengâl y dyddiau hynny, dod â threfn i'r cyrion pell hyn oedd hwnnw. A hynny am reswm da. Oddi ar gychwyn y 1860au, fel y nodwyd gan *The Times* ym mis Mehefin 1863, bu'r ardal hon yn gyrchfan byddin fechan ond dylanwadol o blannwyr te, planhigyn oedd hyd at hynny wedi cael ei ystyried yn bennaf, yn Asia o leiaf, fel ffurf ar feddygaeth. Trwy droi y 'gwastraffleoedd' mynyddig yn ystadau diwydiannol a fyddai'n cynhyrchu moddion ar gyfer marchnadoedd anferth gartref ac yng Ngogledd America, trawsfurfiwyd economi'r ardal i raddau helaeth iawn. A swyddogaeth y genhadaeth Gymreig yno, o safbwynt Llywodraeth Llundain o leiaf, oedd sefydlogi'r gymdeithas drawsnewidiol honno trwy ystod o weithgareddau, a noddwyd yn rhannol gan y Llywodraeth, a fyddai'n cynnwys cymryd cyfrifoldeb dros ysgolion, amddifatai, clinigau ac ysbytai.¹⁷

Priodolodd T. W. Reese, a gyrhaeddodd India o Gymru ym 1898, y twf amlwg ymhlith yr Hindŵaid lleol a fynychodd ei fferyllfa genhadol yn Maulvi Bazaar, nid nepell o dref Sylhet, dros y flwyddyn flaenorol i ddau beth yn bennaf. Yn gyntaf, ei bregethau cyhoeddus dyddiol ar ddysgeidiaeth 'wâg a diwerth' Hindŵaeth, ac yn ail i gynnydd dylanwad Hindŵaeth ddiwygiedig a oedd yn brys atgyfodi'r syniad o fonotheistiaeth, yn arbennig ymhlith dosbarth deallusol a gweinyddol y *babu*. Yn sgil y datblygiadau hyn, meddai, 'mae'r niferoedd sydd yn dod (ataf) am feddygaeth yn wastad gynyddu, sydd ynddo'i hun yn argoeli'n dda ar gyfer dyfodol y genhadaeth hon.'¹⁸

Anhawster pennaf y strategaeth hon oedd canfod sut i ymdopi ag unrhyw dwf aruthrol ond annisgwyl yn y galw cyhoeddus am eu gwasanaeth, fel y digwyddodd ym mis Gorffennaf 1908 pan gwympodd oddeutu tri chwarter holl drigolion Sylhet i dwymyn. Llenwodd ystafell feddygol y genhadaeth yng nghanol y dref gyda'r cleifion, 'ond' meddai J. W. Roberts, 'nis gallwn eu troi ymaith'.¹⁹ Bu rhaid iddo brynu rhestr faith o foddion meddygol newydd, a hynny o Calcutta, i allu ymateb i'r gofynion newydd.²⁰ Gwelir yn yr archif y rhestrau moddion meddygol y bu ef, a'i gymydog y Dr Oswald Williams, cenhadwr meddygol y Gyfundeb yng Ngharimganj gyfagos, yn eu prynu rhwng 1908 a 1912. Rhestrau ydynt o ddeunyddiau crai ar gyfer ystod o wahanol ddefnyddiau.

Heblaw am y nwyddau cymysgu, megis potasiwm nitrad neu asid tartarig, neu asid nitrig ar gyfer y clefyd poeth (sifilis)²¹, planhigion oedd y rhelyw. Yn eu plith gwelid codwarth ar gyfer anhwylderau gastro-enterig; aconit (llysiau'r blaidd), poenladdwr hynod wenwynllyd; rhisgl cascara sagrada, rhisgl coeden ar gyfer y stumog; a bysedd

¹⁶ Allen, B. C. (1905), *Assam District Gazetteers*, cyf. II, *Sylhet* (Calcutta), tt. 265-72.

¹⁷ *The Times*, 29 Mehefin 1863.

¹⁸ Reese, T. W., at Thomas, O., 26 Mehefin 1899, AMC 27293.

¹⁹ Roberts, J. W., at Williams, R. J., 12 Gorffennaf 1908, AMC 27305.

²⁰ Roberts, J. W., at Williams, R. J., 13 Ionawr 1908, AMC 27305.

²¹ Ar ddefnydd asid nitrig, gweler Harrison, Mark (2009), 'Medical experimentation in British India: the case of Dr Helenus Scott', yn Ebrahimnejad, Hormoz (gol.), *The Development of Modern Medicine in Non-Western Countries. Historical perspectives*, Routledge, tt. 23-41; Crawford, D.G. (1907), *The Indian Medical Service* (Llundain).

CALCUTTA MUSEUM
FURNISHING MEDICALS

Medicines for Sylhet 1912.
(Res. W. Holmstedt, M.C.)

2 quarts	15	Spice	Cardi. oil	5 lbs	Lyg. Anonitidis
	10	Teat	Antonie's Co.	5 lbs	Antonie's (1 lb bottle)
10	10	Sp	Anon. Anonitidis	10 lbs	Antonie's
	10	Teat	Sample Co.	10 lbs	Glycerine
	10	-	Triglycerides	10 lbs	Oil of Sassafras
	5	-	Card. Co.	1 lb	Lyg. Anonitidis
10	10	Spice	Vin. Teat	20 lbs	Oil of Sassafras
	15	Teat	Antonie's Co.	5 lbs	Antonie's (1 lb bottle)
	4	-	Card. Co.	2 lbs	Vin. & Anon. Anonitidis
	1 lb	-	Antonie's Co.	1 lb	Antonie's (1 lb bottle)
	1	-	Anonitidis	2 lbs	Antonie's Anonitidis
	1	-	Triglycerides	1 lb	Antonie's
	1	-	Diglycerides	1 lb	Antonie's (1 lb bottle)
	1	-	Vin. Anonitidis	1 lb	Anonitidis
	5 lbs	Teat	Antonie's Co.	1 lb	Antonie's (1 lb bottle)
	2	-	Anonitidis	1 lb	Antonie's Anonitidis
	10	Lyg.	Teat Teat	10 lbs	Lyg. Anonitidis
10	10	Spice	Antonie's Co.	20 lbs	Antonie's (1 lb bottle)
	1	-	Sample Co.	40	Antonie's (1 lb bottle)
	1 lb	Teat	Lyg. Lyg.	10 lbs	Antonie's (1 lb bottle)
	1 lb	-	Lyg. Lyg. Lyg.	2 lbs	Antonie's (1 lb bottle)
	10	Lyg.	Antonie's Co.	1 lb	Anonitidis
	5 lbs	Antonie's Co.	Antonie's Co.	7 lbs	Antonie's (1 lb bottle)
	2 lbs	Antonie's Co.	Antonie's Co.	5 lbs	Antonie's (1 lb bottle)
24	24	Vin. Anonitidis	Vin. Anonitidis	7 lbs	Antonie's (1 lb bottle)
24	24	Antonie's Co.	Antonie's Co.	7 lbs	Antonie's (1 lb bottle)

Figwr 2: Rhestr moddion meddygol, Sylhet, 1912.
Ffynhonnell: AMC 27305, Llyfrgell Genedlaethol Cymru

y cŵn at y galon. Cysylltir nifer o gynhwysion eraill gyda meddygaeth homeopathig, megis gwaiacol, antiseptig a phoenladdwr lleol a ddefnyddiwyd hefyd mewn achosion o'r ddarfodedigaeth, creosotwm, bismwth a santonin (at y llygaid). Prynwyd yn ogystal strychnin fel cyfnerthydd, yn arbennig i'r galon, er iddo gael defnydd arall fel gwenwyn i ladd llygod; podoffylin, cyffur sytostatig a ddefnyddid ar gyfer canser, anawsterau'r croen ac amrywiol heintiau; a cwinin i ymladd malaria.²² Yr oedd cwinin, chwedl y cenhadwr meddygol, y Dr Oswald Williams, 'yn werth cymaint a phob meddyginiaeth arall gyda'u gilydd.'²³ O'i glinig yng Ngharimganj, adroddodd fod hanner y deugain claf a ddaeth ato yn ddyddiol yn dioddef o dwymyn o ryw fath, a bod yr aflwyddion hynny yn lladd oddeutu 70 o'r trigolion yn wythnosol. 'The vast majority' meddai 'are perfectly cured with Quinine', ond yr unig ffordd bosibl i frodorion tlawd yr ardal gael gafael ar gwinin, meddai, oedd trwy ddwylo'r cenhadon.²⁴ Sylwodd hefyd fod y cyffur hwn yn effeithiol mewn amryw o achosion o falaria yn ogystal, er nad oedd yn cael unrhyw effaith ar ddysenteri. Dibynna enw da'r cenhadon, o'r herwydd, meddai, yn bennaf ar eu gallu i ddarparu cwinin, a hynny yn rheolaidd ac yn ddi-baid.²⁵ Ddwy flynedd yn ddiweddarach, yr oedd Dr Williams yn gwerthu, am ffarddin yr un, mil o dabledi cwinin y dydd, a hynny i dri chant o gleifion a fyddai'n dod ato yng nghanol yr epidemig o falaria a fu'n blino'r dref am gyfnod o dri mis 'gyda dylanwad andwyol.'²⁶ Eithr fel y cytunwyd gan y Pwyllgor Rhanbarthol yn Cherrapunji, ar Fryniau Casia, ym 1895, £10 y flwyddyn yn unig oedd y cyllid a ganiateir i bob cenhadwr ar gyfer prynu meddyginiaeth i'w dosbarthu yn Sylhet.²⁷ Yr oedd y galw bron bob amser yn fwy o lawer na'r cyflenwad.

Dylid cadw mewn cof mai moddion ar gyfer y cenhadon eu hunain oedd y rhain yn ogystal, ac nid yn unig ar gyfer y brodorion o'u hamgylch. Bu gwaeledd yn eu plith hwythau yn loes calon i arweinyddiaeth y Genhadaeth yn Lerpwl ar hyd y cyfnod, yn arbennig peryglon teiffoid, malaria ac effaith ddidostur y gwres a'r glaw ar wastadedd Sylhet. Yn achos syrthni gwres ar y cenhadon, yr ateb yn aml oedd gwyliau gyda'u cymdogion Cymreig ar Fryniau Casia dros y ffin yn nhalaith Assam. Ond pan fethodd popeth, yr oedd ganddynt un ymateb arall, sef ffyrlo gartref yn hinsawdd iachus yr henwlad. Arweiniodd hyn at ddadl oddi mewn y genhadaeth a ddadorchuddiodd gwestiwn anghyffyrddus ynglŷn ag iechyd, meddygaeth a hil. Mater syml ddigon oedd anfon cenhades a ddeilliodd o Sir Feirionnydd, megis Elizabeth Williams, gartref i dderbyn sylw meddygol yn ôl yr angen, er i hynny hefyd fod yn ddigon heriol oherwydd y pellter.²⁸ Mater tra gwahanol oedd cytuno i anfon, ar draul y Genhadaeth, un o'r troedigion brodorol ar yr un daith ac am yr un rheswm. Amlygir hyn yn achos Shoshir Mukhi Das, merch un o droedigion cyntaf y genhadaeth yn Sylhet a hoelen wyth yr eglwys Gymreig

²² AMC 27305. Gweler yn ogystal Dunglison, Robley (1839), *Medical Lexicon, a new dictionary of Medical Science* (Philadelphia); Beasley, Henry (1855), *The Book of Prescriptions* (Philadelphia); *Chemist and Druggist: the newsweekly for pharmacy*, cyf. 122; Braithwaite, J. O. (1900), *Year-book of pharmacy* (Llundain).

²³ Williams, O. O., at Thomas, O., 1 Ebrill 1896, AMC 27287.

²⁴ Williams, O. O., at Thomas, O., 1 Ebrill 1896, AMC 27287.

²⁵ Williams, O. O., at Thomas, O., 1 Ebrill 1896, AMC 27287.

²⁶ Williams, O. O., at Thomas, O., 18 Mehefin 1897, AMC 27287.

²⁷ 'Minutes of Indian District Committees 1884-1900, District Committee, Cherra, Oct 18-23, 1895', AMC 5/27162.

²⁸ Er enghraifft, ei chyfnodau ffyrlo yng Nghymru ym 1898, 1907 a 1913, AMC HZ1/2/136.

yno, Gour Churn Das. Derbyniwyd hi yn genhades lawn gan y Gymanfa Gyffredinol yn Lerpwl ym 1893.

Yn ystod 1911, gofynnodd am gyfnod o ffyrlo yn y Deyrnas Unedig, yn unol â'r hyn a ganiateid i'r cenhadon llawn eraill.²⁹ Ddechrau Ebrill 1912, cadarnhawyd gan feddyg Prydeinig yn mhentref Habiganj ei bod yn dioddef o ddysentri cronig, ac ofnodd y byddai ei hiechyd yn dirywio'n gyflym oni bai y byddai modd iddi gymryd taith hir ar long i Ewrop.³⁰ Pan ofynnwyd am ail farn feddygol, cafwyd un gan y Dr Charles Clyne yn Luskerpore ddechrau Gorffennaf, yn llawn ategu'r farn gyntaf. Credodd hefyd fod ganddi wendid ar ei chalon. Gorffwys llwyr am ddeunaw mis fyddai'r unig obaith i'w gwella. 'Medicine is of little use', meddai 'and her chances of getting better in this country are remote'.³¹ Wythnos yn ddiweddarach ysgrifennodd y Dr Harriet Davies o Habiganj at y Cyfarwyddwyr yn Lerpwl i ddatgan ei chefnogaeth hithau. Pwysleisiodd os byddai Shoshir Das yn aros ym Mengâl, byddai yn gwbl fethedig a hynny am oes, ond gyda thaith i Gymru a blwyddyn o ffyrlo yna, byddai'n debyg iawn o ddychwelyd i'w llawn iechyd.³²

Yn rhannol oherwydd gwrthwynebiad cryf o blith rhai o'r cenhadon eraill, oeddod y Pwyllgor Rhanbarthol yn Shillong rhag dod i benderfyniad ar ei chais. Ar ôl peth ymaros, a chan fod yr achos yn codi cwestiynau hynod losg i weinyddiaeth y genhadaeth yn ei maes llafur, trosglwyddwyd y mater i ystyriaeth y Cyfarwyddwyr yn Lerpwl.³³ Un llais cryf yn erbyn anfon Shoshir Das i Gymru oedd y Dr Oswald Williams, a fu'n gyfrifol amdani fel cenhades yng Ngharimganj. Ei farn gychwynnol ef parthed ei chais am ffyrlo oedd ei fod yn afresymol disgwyl i gymdeithas Ewropeaidd dalu am ei thaith o'r India i Brydain ac yn ôl. 'Os wnawn i hyn i un merch Indiaidd, pam nad i eraill?' gofynnodd.³⁴ Yn rhannol, o leiaf, gellir priodoli ymateb Dr Williams i dyndra personol rhyngddynt. Mae'n amlwg nad oedd ganddi lawer o gyfeillion ymhlith y cenhadon eraill ar wastadedd Sylhet. Ond trwy geisio esbonio hyn i'r Cyfarwyddwyr yn Lerpwl, cynhyrfodd Dr Williams is-lifoedd dyfnion parthed y greddo Gristnogol, diwylliant, rhyw a hil. Er iddo ddangos cryn gydymdeimlad, meddai, gyda'r 'arbrofiant diddorol ac yn wir cysegredig' hwnnw a dderbyniodd Shoshir Das, 'fel Cristion Indiaidd, ar yr un safon parthed ei statws a'i chyflog â'r cenadesau Ewropeaidd', eto ofnodd fod ei 'pharodrwydd i farnu gwaith y cenhadon eraill, y Cyfarwyddwyr, yr Ewropeaidd yn gyffredinol a swyddogion y Llywodraeth yn arbennig', a hynny yn aml, yn gyhoeddus ac yn hallt, yn deillio o'r 'ysbryd amhosibl, yn wir milain, o "annibynniaeth" sydd yn cynhyrfu'r feddylfryd Indiaidd.'³⁵

Dangosodd cais Shoshir Das am ffyrlo ar sail ei hiechyd fod gwahaniaeth barn tra sylweddol, os nad hollt pendant, yn bodoli oddi mewn y genhadaeth ar y maes ynghylch y

²⁹ Das, S. M., at Williams, R. J., 13 Chwefror 1912, AMC 27286.

³⁰ Frazer, P., M.D., at Williams, R. J., 1 Ebrill 1912, AMC 27286. Yn ei adroddiad feddygol, nododd Dr Frazer fod Miss Das yn dioddef o 'chronic dysentery and debility', a bod perygl i'w hiechyd ddiodef o'r herwydd, 'her health may break down seriously before long. A voyage to Europe with some months rest from strain and excitement would be well worth trying in the hope of restoring her to a fair measure of health and strength'.

³¹ Clyne, Charles at (?)T.E. ('Chandopore Bagan, South Sylhet'), 1 Gorffennaf, 1912, AMC 27286.

³² Davies, Harriet, M.D., at Williams, R.J., 7 Gorffennaf 1912, AMC 27286.

³³ Das, S. M., at Williams, R. J., 16 Medi 1912, AMC 27286.

³⁴ Williams, O. O., at Williams, R. J., 16 Hydref 1911, AMC 27288.

³⁵ Williams, O. O., nodiadau llawysgrif, dim dyddiad (?1912), AMC 27288.

gwahaniaethau diwylliannol ac ethnig rhwng Cristnogion yn yr India. Os oedd ymddygiad Shoshir Das yn arwydd o dyndra dyfnach ynglŷn â hunaniaeth oddi mewn yr un gymuned ysbrydol, penderfynodd y Cyfarwyddwyr mai'r unig ffordd i osgoi unrhyw waethygiad, ac efallai colli cefnogaeth rhai Cristnogion brodorol ar yr un pryd, oedd derbyn ei chais.³⁶ Ym mis Chwefror 1913 archebodd Shoshir Das gaban ar y *City of Paris* o Galcutta i Lundain,³⁷ ac unwaith yno ym mis Mai, teithiodd trwy Abergele i'w chartref newydd yn y tŷ capel, Stryd Powell yn Aberystwyth.³⁸ Bu yno nes iddi ddychwelyd i Sylhet ym mis Chwefror 1915, rai misoedd ar ôl cychwyn y Rhyfel Byd Cyntaf yn Ewrop.³⁹ Yn y cyfamser, yn ogystal â cherdded i'w hymgryfhau hyd lwybrau glan y môr Aberystwyth, teithiodd a phregethodd ledled Cymru, o gymoedd y de hyd at bentrefi Eryri.⁴⁰ Yn wir, mor llwyddiannus fu ei chyfnod yng Nghymru, cytunodd y Cyfarwyddwyr ymestyn ei ffyrlo am chwe mis ychwanegol.⁴¹

Pwysig yw nodi yn hyn o beth hefyd fod y fordaith ei hun, o leiaf ar ôl agor camlas Suez ym 1867, yn aml yn cael ei hystyried yn rhan o'r driniaeth feddygol. Teimlent fod awelon glan y môr yn iachus i'r corff ac yn falm i'r enaid. Droeon, sylwodd y teithwyr fod eu hiechyd 'gymaint gwell ar ôl y daith' gartref.⁴² Ambell waith, yn arbennig pan oedd y siwrne yn un faith a stormus, ystyrid mordaith o'r fath yn berygl i iechyd gwan.⁴³ Ond fel y cyfryw, yn arbennig gyda gwelliannau yn y dechnoleg ager a thoriant hyd y daith, erbyn 1914, i ryw dair wythnos,⁴⁴ daeth y fordaith i'w gweld fel cyfle amheuthun i ddadflino ac i baratoi ar gyfer y galwadau lu a fyddai'n eu disgwyl pan fyddent ar ffyrlo gartref.

Ymddengys, felly, fod iechyd yn gyffredinol, a meddygaeth yn benodol, yn feysydd a esgorodd ar drafodaethau brwd oddi mewn y genhadaeth ynglŷn â'i gwaith yn yr India. Codent hefyd amryw o gwestiynau am natur diwylliant cenhadol mewn cyd-destun trefedigaethol lle'r oedd dosbarthiad grym yn rhedeg ar hyd llinellau hil a chrefydd yn ogystal â rhai gwleidyddol a chymdeithasol, a hynny mewn ffyrdd cymhleth, amodol a chyfnewidiol. Pa swyddogaeth, felly, a chwaraeodd yr elfen feddygol yng ngwaith y genhadaeth, ac yn arbennig yn ei gallu i efengylu, ac i ddylanwadu mewn amryw ffyrdd eraill ar strwythur cymdeithas a theithi meddwl y brodorion? Mewn hinsawdd wahanol iawn i'r un a luniodd hanes y genhadaeth Gymreig ar Fryniau Casia, dibynnai llwyddiant cenhadaeth Gristnogol ym Mengâl, neu yn wir unrhyw symudiad arall o'i thebyg yno, ar ei gallu i gydymdreiddio gyda thir cymdeithasol hynod benodol. Trwy'r gymdeithas hynafol honno, rhedodd un ffawtlin cwbl amlwg. Mwslemiaid oedd un hanner y boblogaeth, a Hindŵaeth a ddominyddodd yr hanner arall.⁴⁵ Tasg y genhadaeth oedd darganfod

³⁶ Das, S. M., at Williams, R. J., 30 Rhagfyr 1912, AMC 27286.

³⁷ Das, S. M., at Williams, R. J., 9 Chwefror 1913, AMC 27286.

³⁸ Das, S. M., at Williams, R. J., 18 Mai 1913, AMC 27286.

³⁹ Das, S. M., at Williams, R. J., 23 Chwefror 1914 (*sic* 1915, derbyniwyd 23 Mawrth 1915), AMC 27286.

⁴⁰ Das, S. M., at Williams, R. J., 19 Awst 1913, AMC 27286. Gweler hefyd Das, S.M. at Williams, R.J., 26 Medi 1913, Das, S.M., 29 Tachwedd 1913, AMC 27286.

⁴¹ Das, S. M., at Williams, R. J., 19 Rhagfyr 1913, AMC 27286.

⁴² Williams, R. J., at Roberts, Miss E. A. (Sylhet), 19 Mai 1906, llyfr llythyrau, AMC 27118, rhif 127.

⁴³ Thomas, Josiah, at Roberts, Miss E. A., 21 Medi 1886, llyfr llythyrau, AMC 5/27117, rhif 463.

⁴⁴ Laxon, W. a Perry, F. W. (1994), *BI – The British India Steam Navigation Company Limited* (Kendal: World Ship Society), *passim*.

⁴⁵ 'Nearly all the Muhammedans of Sylhet are Sunnis, but there is one important family, that of Moulavi Ali Amjad Khan, which professes the Shiah creed'. Ar yr un pryd, yr oedd gan y gredo Islamig Sufi wreiddiau cryf yn Sylhet, ynghyd â'i seintiau a'i thraddodiadau barddonol a cherddorol. Allen, B. C. (1905), *Assam District Gazetteers*, vol. II, *Sylhet* (Calcutta), t. 83.

gofod rhyngddynt, a thyfu eglwys frodorol o gwrtaith y tir oddi tano a fyddai, maes o law, yn ymledu i'r naill gyfeiriad a'r llall. Y gamp, yn y lle cyntaf, oedd dod o hyd i'r gofod hwnnw, ac yna i wreiddio eu hunain ynddo. Y perygl ar wastadedd Sylhet oedd y byddai unrhyw weithgareddau elusennol cyhoeddus, megis addysgu plant neu gadw amddifatai, ar eu pennau eu hunain, yn cael eu hystyried gan relyw'r gymdeithas yno yn bennaf fel ychwanegiadau at bresenoldeb sifil y llywodraeth drefedigaethol, os nad, yn wir, fel asiantaethau uniongyrchol yr Ymerodres Frenhinol ei hun.⁴⁶

Toc ar ôl iddo gyrraedd Karimganj yng ngwanwyn 1895, taerodd y Dr Oswald Williams, yn ei adroddiadau lluosog at ei Gyfarwyddwyr yn Lerpwl, ei fod wedi darganfod y gofod hwnnw. Hyd at hynny, at y *zenana* a'i chymdeithas fenywaidd fywiog troesai holl genhadon Gorllewinol yn yr India.⁴⁷ Y *zenana* oedd ei fan cychwynnol yntau hefyd, ond gyda gwedd newydd arni. Trwy ymweld â niferoedd helaeth o deuluoedd, mil mewn un mis yn ystod ei flwyddyn gyntaf yno, daeth i gysylltiad â menywod yn ogystal â'r gwŷr. Yn gyntaf trwy lenni gyda thyllau ynddynt, ond yna, yn arbennig ar ôl agor fferyllfa yno ym 1909, wyneb i wyneb. Erbyn y 1920au (bu farw ar 17 Mai 1926) amcangyfrifodd mai menywod oedd un o bob pump o'r cleifion a ddaeth ato am gymorth.⁴⁸

Fel yr adroddodd yn ei lythyr cyntaf gartref at yr Ysgrifennydd, Oliver Thomas, ym 1895, 'cefais ganiatâd i weld y merched yn ogystal â'r dynion, ac yr wyf wedi ennill mynediad i sawl *zenana* mewn cartrefi Hindŵaidd a Mwslemaidd!'⁴⁹ Yr oedd hyn, wrth gwrs, yn ddatblygiad cwbl newydd yn yr ardal hon, ymhle, hyd at hynny, y cenadesau yn unig a fu'n mynychu'r cadarnleoedd cyfrin hyn. Sylweddolodd Oswald Williams yn gynnar mai trwy 'wybodaeth feddygol yn unig y cawsom ddod i gysylltiad mor glôs ac mor gyfeillgar gyda'r bobl'.⁵⁰ Cafodd ei syfrdanu hefyd gan y nifer o fenywod Mwslemaidd a ddaeth yn rheolaidd i'w glinig i dderbyn triniaeth yn uniongyrchol ganddo ef,⁵¹ datblygiad hynod anghyffredin mewn unrhyw ran o unrhyw faes cenhadol yn yr India ar y pryd.⁵²

Teimlodd Oswald Williams ei fod yn cenhadu efengyl Crist yn bennaf 'trwy esiampl' yn hytrach na thrwy bregethu i'r cleifion. Iddynt hwy, meddai, meddyg ydoedd, nid offeiriad.⁵³ Felly hefyd y bu yn Sylhet, ble dosbarthodd John Pengwern Jones feddyginiaeth i unrhyw un oedd ei angen bob bore, ond fe wnaeth hynny, meddai, yn fwriadol heb dynnu sylw'r cleifion at unrhyw gysylltiad efengylaidd. Y rheswm am hynny oedd ei ddarganfyddiad, tra phoenus, y gall cysylltiad o'r fath arwain at gamddealltwriaeth ddofn, ac yn wir at yr hyn a elwid ganddo yn '*arrant hypocrisy*'.⁵⁴

⁴⁶ Reese, T. W., at Thomas, O., 26 Mehefin 1899, AMC 27293.

⁴⁷ Borthwick, Meredith (1984), *The Changing Role of Women in Bengal, 1849-1905* (Princeton: Princeton University Press); Burton, Antoinette (1996), 'Contesting the Zenana: the mission of making "Lady Doctors for India", 1874-1885', *Journal of British Studies*, 35, tt. 368-97. Am gyfeiriadau at fydwreigiaeth yn benodol, gweler yn ogystal Forbes, Geraldine (1996), *Women in Modern India* (Cambridge: Cambridge University Press).

⁴⁸ Morris, John Hughes (1939), *In the Steps of the Good Physician. The Story of Medical Missions* (Caernarfon), tt. 48-9.

⁴⁹ Williams, O. O., 'First letter from Karimganj' (dim dyddiad, ?1895), AMC 27287.

⁵⁰ Williams, O. O., 'First letter from Karimganj', AMC 27287.

⁵¹ Williams, O. O., 'First letter from Karimganj', AMC 27287.

⁵² Burton, 'Contesting the Zenana', tt. 368-97.

⁵³ Williams, O. O., 'First letter from Karimganj', AMC 27287.

⁵⁴ Williams, O. O., at Thomas, O., 4 Mehefin 1895, AMC 27287.

Cydsyniodd y Dr Williams â'i farn. Y prif reswm dros hyn, esboniodd, oedd y cysylltiad agos a fodolai yn arferion y ddwy garfan grefyddol fawr yn yr India, y Mwslemiaid a'r Hindŵaid fel ei gilydd, rhwng iacháu'r corff ac ynganu geiriau cysegredig. Meddai'r Dr Williams ym mis Mehefin 1895:

Yr wyf wedi sylwi fod Mwslemiaid pan fyddent yn wael yn anfon am eu *moulvi* sef eu offeiriaid, a fyddent yn darllen rhyw destun cysegredig o'r Cwrân iddynt: Ar ôl hynny, bydd y cleifion yn yfed dŵr er mwyn iddynt gymryd meddiant o rinweddau'r testun. Ceir arferion tebyg ymhlith yr Hindŵaid.⁵⁵

Yn Sylhet, yr oedd John Pengwern Jones wedi adrodd iddo fod peryglon yn dilyn o hyn. Pan yr oedd yn y gorffennol wedi rhoi meddyginiaeth i gleifion, ac yna wedi darllen iddynt o'r Beibl, sylwodd y byddent yn priodoli eu gwellhad nid i'r cyffur ond i rinweddau hudol darllen y Beibl.⁵⁶ Yng Ngharimganj yn ogystal sylwodd Oswald Williams ar anhawster arall a ddeilliodd o or-gysylltu meddygaeth a chrefydd. Pan roddodd bamffled Cristnogol ar ddifffygion moesol Hindŵaeth i un o'i gleifion, gofynnodd hwnnw iddo os oedd angen iddo yfed dŵr ar ôl iddo ei dderbyn. Yn waeth na hynny, gan ei fod yn anlythrennog, aeth â'r pamffled at un o wŷr sanctaidd y dref, a'i darllenodd iddo, gan hepgor pob un o'r sylwadau negatif. Adroddodd y claf yn ôl i'r Dr Williams pa mor falch ydoedd fod Cristnogion mor frwd yn eu cymeradwyaeth o bererindodau i ddyfroedd y Ganges ac addoliant y duwiau Hindŵaidd.⁵⁷

Strategaethau bwriadol, yn ddi-os, oedd amryw o'r rhain a fyddai'n galluogi brodorion i gyd-fyw gydag urddas â thramorwyr, a hynny mewn cymdeithas anghyfartal a threfedigaethol. Synhwyrdd elfen chwareus, bron, yn y modd y cyfathrebodd y brodorion Bengali gyda'r cenhadon a swyddogion y Llywodraeth, yn arbennig ymhlith y *babu* dysgedig ac amlieithog, cyfathrebiad sydd â'i ddull yn frith yn y llenyddiaeth ôl-drefedigaethol ar ymddygiadau perfformiadol yr 'isradd'.⁵⁸ Ond yr oedd yna ar yr un pryd ddealltwriaeth yn gwawrio ar ran y cenhadon hefyd fod angen iddynt rywsut weld eu ffordd yn glir trwy brysgwydd trwchus o arferion a chredoau lleol, ac o dueddiadau a symudiadau cenedlaethol a oeddynt eu hunain yn benodol iawn i'r India.

Fel y casglodd Oswald Williams mewn adroddiad gartref ym 1899:

nid yw'r Bengaliaid yn ymateb yn dda i'n gwaith yma, ac o'r herwydd y mae'n ofynnol arnom geisio gwneud argraff dda ar y gymuned gyfan yn hytrach nac ar yr aelodau unigol. Hyd yn oed pan y byddent yn dod i'r dosbarth Beibl neu'r fferyllfa ni allent anghofio eu bod yn aelodau o organedd enfawr, ac mae'r ofn sydd ganddynt tuag at yr organedd hwnnw yn effro yn eu meddwl trwy'r adeg.⁵⁹

Yn amlwg, nid oedd dysgu'r ieithoedd lleol a dosbarthu meddyginiaeth eu hunain yn ddigon. Yr oedd angen dod i ddeall y diwylliant yn ogystal. Ond yr un oedd y bwriad, sef gwreiddio traddodiad a chredo gwahanol yn nhir cymhleth ac anodd yr India. Un modd

⁵⁵ Williams, O. O., at Thomas, O., 4 Mehefin 1895, AMC 27287.

⁵⁶ Williams, O. O., at Thomas, O., 4 Mehefin 1895, AMC 27287.

⁵⁷ Williams, O. O., at Thomas, O., 4 Mehefin 1895, AMC 27287.

⁵⁸ Am driniaeth benodol ar yr India, gweler Spivak, Gayatri Chakravorty, 'Can the Subaltern Speak?', yn Nelson, C. a Grossberg, L. (goln.) (1988), *Marxism and the Interpretation of Culture* (Macmillan Education: Basingstoke, Kent), tt. 271-313.

⁵⁹ Williams, O. O., at Thomas, O., 7 Awst 1899, AMC 27287.

o wneud hynny oedd cyd-fynd â rhai teithi meddwl cynhenid, yn arbennig yn sgil y twf sylweddol a fu yn y symudiadau diwygiedig a fu'n ceisio moderneiddio India y tu mewn i'r prif ddiwylliannau brodorol, a hynny o ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg yn arbennig. Ymgyrch a gyffyrddodd mewn modd uniongyrchol iawn â dyheadau meddygol y genhadaeth oedd yr ymgais i leihau dibyniaeth yn y gymdeithas ar gyffuriau caethiwus megis opiwm a hashish.⁶⁰ Rhai dyddiau cyn y Nadolig ym 1896, llawenhaodd Oswald Williams yn ei lwyddiant, trwy 'weddi taer ac ychydig o feddyginiaeth', i ddarbwyllio dau dirfeddiannwr Mwslemaidd lleol i roi'r gorau i ysmygu opiwm, arfer a oedd 'yn gyffredin iawn yn y parthau hyn'. Yr oedd un ohonynt, meddai, wedi 'ysmygu opiwm am saith mlynedd, a'r llall am bum mlynedd ar hugain.'⁶¹ Chwe mis yn ddiweddarach, anfonodd neges llai addawol, yn dilyn methiant un Brahmin, yr hwn yr oedd wedi ei fedyddio'n Gristion rhai misoedd cyn hynny, i ymwrthod â'i 'hên arferion'. Bu rhaid iddo 'ei anfon ymaith'. Serch hynny, cafodd ymateb ffafriol gan y gymuned yn gyffredinol i'w ymdrechion drosto:

mae'r bobl yma wedi priodoli safon foesol i'w ymddygiad. Golygir hyn, hyd yn oed yma yn Karimganj, fod Cristnogaeth yn cael ei chydabod am ei safon moesol uchel: ni ymfalchiodd unrhyw Hindŵ na Mwslim yn ei gwmp, mae hyn hefyd yn syndod o beth.⁶²

Ond mater cymharol fychan oedd hyn o'i gymharu â'r galw enfawr a fu am gymorth meddygol mewn ardal lle gwelwyd cynnydd yn y boblogaeth i fwy na dwy filiwn a hanner erbyn 1921.⁶³ O gychwyn y genhadaeth fenywaidd, rhoddwyd pwyslais trwm ar bwysigrwydd bydwreigiaeth yn yr hyfforddiant angenrheidiol a dderbyniwyd gan genadesau cyn teithio i'r maes. Y sgiliau hyn, yn bennaf, agorodd ddrysau'r *zenana* iddynt. Yn wir, anfonwyd Shoshir Das yr holl ffordd o Sylhet i Glasgow i dderbyn ei hyfforddiant yn hyn o beth cyn y cafodd ei chais i ymuno â'r genhadaeth ei ystyried gan yr Eglwys.⁶⁴ Serch hynny, erbyn 1919, gydag ymlediad gwasanaeth bydwreigiaeth dan adain ysbytai'r Llywodraeth, megis yn Sylhet,⁶⁵ bu newid yng nghyfeiriad strategaethau'r genhadaeth parthed gwaith yn y *zenana*. Y cyngor a gafodd y Cyfarwyddwyr gan Elizabeth Lloyd a Hetty Evans o'r maes y flwyddyn honno oedd na ddylid mynnu bod cenadesau newydd yn derbyn hyfforddiant bydwreigiaeth mwyach, ond dylent ganolbwyntio llawer mwy ar yr afiechydon oedd yn gyffredin yn yr India, a pha feddyginiaethau y dylid eu defnyddio i'w iacháu. Yn y pentrefi, meddent, nid oedd angen sgiliau bydwreigiaeth ar y menywod yno gan fod ganddynt eu dulliau eu hunain.⁶⁶

⁶⁰ Cymharol brin oedd yr arfer o ysmygu opiwm yn ardal Sylhet, chwedl Allen '(it) has always been rather a ganja-smoking district, and in 1884 the revenue raised from this drug in Sylhet amounted to more than half the total receipts from ganja in the Province,' Allen, B. C. (1905) *Assam District Gazetteers*, vol. 1, Cachar (Calcutta), t. 244.

⁶¹ Williams, O. O., at Thomas, O., 22 Rhagfyr 1896, AMC 27287.

⁶² Williams, O. O., at Thomas, O., 24 Mehefin 1897, AMC 27287.

⁶³ Rahman, Md. Mahbub, 'Population of Sylhet District During British Period', yn Ahmed, Sharif uddin (gol.) (1999), *Sylhet: History and Heritage* (Bangladesh: Itihas Samiti), tt. 105-17.

⁶⁴ Morris, John Hughes (1939), *In the Steps of the Good Physician*, t. 48.

⁶⁵ Williams, Emma, at Williams, R. J., 27 Mai 1915, AMC 27288.

⁶⁶ Lloyd, E. M., at Williams, R. J., 9 Mehefin 1919, AMC 27303. Gweler hefyd Allen, B. C. (1905), *Assam District Gazetteers*, vol. 2, Sylhet (Calcutta), t. 269.

Gan mai'r afiechydon heintus oedd y mwyaf cyffredin, ac yn amlaf y mwyaf dinistriol, atynt hwy y trodd meddygon a nyrsys y genhadaeth eu sylw fwyfwy. Er i Oswald Williams anfon ym 1900 am ficrosgop, amryw offeryn llawfeddygol a sterilydd cludadwy i'w alluogi i gynnig ystod ehangach o wasanaethau meddygol yng Ngharimganj, daeth yn gynyddol amlwg iddo ef ac i eraill gyda thoriad yr ugeinfed ganrif mai yr hyn oedd ei wir angen arnynt oedd nid rhagor o fferyllfeydd a chlinigau bychain, ond ysbytai.⁶⁷ Bu agoriad ysbyty Shillong ym 1922 yn arwydd o dwf a phwysigrwydd y genhadaeth Gymreig ar Fryniau Casia oddi ar gychwyn swyddogol y genhadaeth feddygol yno ym 1878. Ac yn bendant, bu'n ddatblygiad a bwysleisiodd moderniaeth y gwasanaeth a'r newid a fu ynddi ers arbrofion homeopathig William Pryce yn Sylhet yn yr 1850au. Yn y blynyddoedd a ddilynodd ddiwedd y Rhyfel Mawr, agorodd y cenhadon ysbytai eraill hefyd yn y maes, llai eu maint, yn Jowai, Durtland ar fryniau Lushai, ac yn Habiganj, rhyw gan cilomedr i'r de o ddinas Sylhet. Ynddynt, yn ôl ystadegau a ddyfynnwyd gan hanesydd y genhadaeth, John Hughes Morris, gofaliwyd ar gyfartaledd am drigain mil o gleifion pob blwyddyn.⁶⁸ I raddau helaeth, bu lleoliad yr ysbytai hyn yn ddibynnol ar niferoedd y cenhadon mewn unrhyw fan, ond hefyd ar ddosbarthiad y ddarpariaeth yn gyffredinol. Er enghraifft, er bod apêl wedi ei lansio yng Nghymru toc cyn cychwyn y Rhyfel Byd Cyntaf i godi £2000 ar gyfer ysbyty ugain gwely a fferyllfa newydd yn Sylhet,⁶⁹ ni chychwynnodd y genhadaeth ar y gwaith oherwydd bod cynlluniau ar y gweill erbyn 1919 i godi ysbyty yn perthyn i'r Llywodraeth yno, dros y ffordd i gompownd cyntaf y genhadaeth yn Sheikhat.⁷⁰ Ar y llaw arall, y prif gymhelliad dros geisio agor ysbyty yn Cherrapunji ym 1890 oedd y ffaith bod Cymdeithas yr Iesu yn brysuro cychwyn eu cenhadaeth feddygol eu hunain yno, gyda chefnogaeth llywodraeth Casia.⁷¹ Yn yr achos hwn, yn unol ag amryw o rai eraill, cystadleuaeth gydag enwadau efengylaidd ymosodol ac uchelgeisiol eraill oedd yn sbarduno datblygiadau o'r fath ochr yn ochr ag asesiad o anghenion y trigolion.

Hanes tra gwahanol oedd yn eiddo i'r ysbyty i fenywod yn Habiganj. Mabwysiadwyd ardal De Sylhet, gyda Habiganj yn dref amlwg ynddo, gan chwaer eglwys y Genhadaeth Dramor, sef y Methodistiaid Calfinaidd yng Ngogledd America, ym 1905. Ar y pryd, safai poblogaeth Habiganj oddeutu 555,000, gyda 370,000 yn ardal Maulvi Bazaar.⁷² Ymdrech oedd hon ar yr un llaw i ganiatáu man lle y gall y genhadaeth Americanaidd gychwyn ei gwaith yn India ymhlith cymuned a fyddai'n gyfarwydd iddi a'i gweithwyr yn ddiwylliannol, yn ieithyddol ac yn ddiwinyddol, ac ar y llaw arall i weu bratwaith o feysydd cenhadol gyda'i gilydd a fyddai'n cynorthwyo ei gilydd heb danseilio eu nodweddion penodol.⁷³ Er gwaethaf amheuo dwfn T.W. Reese, ynghyd â rhai tebyg ymhlith amryw o genhadon Cymreig eraill y gwastadedd, ynglŷn ag ymarferoldeb y lluosogi hwn yn nifer y gwahanol feysydd cenhadol yn yr un ardal,⁷⁴ penderfynwyd ar ddiwedd Gorffennaf 1905

⁶⁷ Williams, P. O., at Thomas, O., 10 Chwefror 1900, AMC 27287.

⁶⁸ Morris, John Hughes, (1940), 'Foreign Mission Centenary (1840-1940)', *Cylchgrawn Cymdeithas Hanes Eglwys Methodistiaid Calfinaidd Cymru*, cyf XXV, rhif 3, t. 45.

⁶⁹ Williams, Elizabeth, nodiadau llythyr, AMC 27265.

⁷⁰ Roberts, J. W., at Williams, R. J., 8 Gorffennaf 1919, AMC 27305.

⁷¹ 'Minutes of the District Meeting held at Mawphlang, August 6 1890', *Minutes of Indian District Committees 1884-1900*, AMC 5/27162.

⁷² *Llyfr Cofnodion Bwrdd y Genhadaeth Dramor*, cyf. 8, 4 Hydref 1905, AMC 27072, 351-4.

⁷³ White, W. E., at 'Gadeirydd y Pwyllgor Rhanbarthol y Genhadaeth Gymreig, Assam' 27 Mehefin 1905, AMC 27196.

⁷⁴ Reese, T. W., at Williams, R. J., 28 August 1905, AMC 27196.

i drosglwyddo un rhan o Dde Sylhet i ofal y Bwrdd Americanaidd, sef ardaloedd Habiganj a Maulvi Bazaar.⁷⁵ Yn ystod y cyfnod y bu dan reolaeth Americanaidd, adeiladwyd ysbyty ganddynt yn Habiganj a fu dan ofal 'un cenhadwr a'i briod, Mr a Mrs Lewis Evans, a dwy genhades, Miss Harriet Davies MD, a Miss Jones', a'u cynorthwywyr Indiaidd. O fewn pymtheg mlynedd, serch hynny, unwyd yr eglwys yn America gydag Eglwys Bresbyteraidd yr U.D.A., a gofynnwyd os y byddai'r Genhadaeth Gymreig yn cymryd y maes yn ôl i'w gofal hwy ac:

i wahodd Mr a Mrs Lewis Evans, a Dr Harriet Davies, i ymuno a'n Cenhadaeth ni ac i barhau i weithio yno. Gwneid hynny ar y dybiaeth y deuid i gytundeb boddhaol gyda golwg ar yr adeiladau sydd yn y ddwy orsaf, Habiganj a Shaistaganj. Cymeradwywyd hyn yn unfrydol gan y Cyfarwyddwyr.⁷⁶

Ddiwedd Mawrth, 1920, trosglwyddwyd holl eiddo ac asedau'r Americanwyr, a oedd werth meddent \$17,350,000, i'r Genhadaeth Gymreig, a hynny 'heb fynnu iawndal ariannol' amdano. Cytunwyd y byddai'r cenhadon yn aros am ddwy flynedd ar yr un telerau, ac ar ôl hynny rhoi dewis iddynt naill ai i aros neu fynd i faes arall yn eiddo'r Presbyteriaid Americanaidd.⁷⁷ Ar ddiwedd y ddwy flynedd, trosglwyddwyd Laura Evans ac Elsie Andrews o Sylhet i ofalu am faes Habiganj, ymhlith

tipyn o anesmwythdod ... , y gweithwyr o dan yr argraff nad yw y Welsh Mission mor gyfoethog a'r American Mission ac yn ofni na byddwn yn eu cadw neu ynte y bydd eu cyflogau yn cael eu torri i lawr ... (ond) y peth mwyaf dyrus ydyw yr Hospital am ein bod heb yr un meddyg yma.⁷⁸

O fewn blwyddyn, adroddodd Laura Evans fod yr ysbyty yn llawn, ond yr unig feddyg yna oedd y Dr Greenwood, Catholig Indiaidd o Fadras, heb yr un gair ganddi, yn ôl Laura Evans, o'r ieithoedd Bengaeleg na'r Hindi.⁷⁹

Yn y darlun isod o Ysbyty'r Menywod yn Habiganj, a gymerwyd ar Ddydd Calan 1920, gwelir ymgynulliad prin iawn o genadesau mwyaf blaenllaw gwastadedd Sylhet, gan gynnwys y meddyg Americanaidd, Dr Harriet Davies, a barhaodd yn y maes am gyfnod byr ar ôl y trosglwyddiad chwe mis ynghynt.⁸⁰ Yn fuan ar ôl tynnu'r llun hwn, gadawodd i gymryd gofal am ysbyty arall ym maes y Presbyteriaid Americanaidd yn Kasganj, nawr yn Uttar Pradesh, yng nghanolbarth gogleddol yr India.⁸¹ Yr anhawster a ddilynodd oedd denu olynydd iddi a fyddai'n gymwys i'r dasg, nid yn unig fel meddyg ond fel menyw o'r buchedd moesol mwyaf priodol. Ym 1924, derbyniwyd y Dr Beryl Palmer Jones yn genhades gan y Cyfarwyddwyr, yn fuan ar ôl iddi raddio fel M.D. yng Ngholeg y Brenin,

⁷⁵ 'Resolution passed at Shillong by the Hill Missionaries, July 31st 1905', AMC 27196.

⁷⁶ 'Y Genhadaeth yn Habiganj', *Cofnodau o Gyfarfodydd Cyfarwyddwyr Cyffredinol Cenhadaeth Dramor y Methodistiaid Cymreig*, cyf. 1, 16 Ebrill 1902 – 12 Mai 1922, 212, AMC 27088.

⁷⁷ 'Y Maes yn Habiganj', *Cofnodau o Gyfarfodydd Cyfarwyddwyr Cyffredinol Cenhadaeth Dramor y Methodistiaid Cymreig*, cyf. 1, 16 Ebrill 1902 – 12 Mai 1922, 232, AMC 27088.

⁷⁸ Evans, Laura, at Williams, R. J., 11 Mai 1922, AMC 27275.

⁷⁹ Evans, Laura, at Williams, R. J., 31 Gorffennaf 1923, AMC 27275.

⁸⁰ Am ragor o wybodaeth amdanynt, gweler Schiavone, Gwennan Mair Gruffydd (2008), 'Y Genhades Dramor a'r Diwylliant Cenhadol yng Nghymru 1887-1930', Traethawd Ph.D., Prifysgol Aberystwyth, *passim.*, yn arbennig Atodiad 2, 'Cofrestr y Cenadesau', tt. 312-18.

⁸¹ Williams, Daniel Jenkins (1937), *One hundred years of Welsh Calvinistic Methodism in America* (Westminster Press), t. 337.



Ffigwr 3: Ysbyty'r Menywod, Habiganj, 31 Rhagfyr 1920
Ffynhonnell: AMC HZ1/9/32, Llyfrgell Genedlaethol Cymru

Y cenadesau, o'r chwith i'r dde:

Yn sefyll: Elizabeth (Bessie) Jane Jones, Jane Helen Rowlands (Helen o Fôn), K.D. Ramsay, Sushila Das, Dr Greenwood, Miss Rice, Hannah Maud Jones, Esther (Hetty) Evans.

Yn eistedd: Olwen Rees, Elsie Andrews, Dr Harriet Davies, Ellen Jane Evans, Elizabeth Mary Lloyd.

Prifysgol Llundain. Gadawodd am y maes yn brydlon wedi hynny. Fel cyn-ddisgybl i Jane Helen Rowlands (Helen o Fôn) yn y Drenewydd, roedd gobeithion uchel am ei hygyrdd yn ogystal fel efengyllydd.⁸² Serch hynny, o fewn y flwyddyn, yr oedd wedi ymadael â Habiganj, a hynny dan beth gwmwl. Ysgrifennodd Laura Evans yn llawn angerdd at Ysgrifennydd y Cyfarwyddwyr ym mis Medi 1925 i ddatgan ei barn nodweddiadol glir a di-flewyn ar dafod:

It was a great pity that Doctor Jones came out, putting everything together I cannot think that she was really interested in Mission work. The Doctor from Uganda to whom she got engaged just before coming out was an atheist and a great Anti missionary.⁸³

Ar ben hynny, yr oedd Dr Davies nawr wedi priodi â phlannwr te yn Colombo, Ceylon (Sri Lanka).⁸⁴ Ni ddychwelodd i'r maes. Nid oedd diffyg meddygon o safon yn broblem newydd. Ddeng mlynedd yn gynharach, rhybuddiodd Emma Williams yn erbyn codi ysbyty cenhadol newydd yn Sylhet yn rhannol oherwydd yr anhawster o ddod o hyd i 'fenyw Gristnogol' i'w redeg, heblaw fod honno yn 'dod o Gymru.'⁸⁵ Hyd yn oed ym 1927, yr oedd y Cyfarwyddwyr yn parhau, yn aflwyddiannus, i geisio denu y Dr Harriett Davies yn ôl i Habiganj.⁸⁶

⁸² Williams, R. J., at Evans, Laura, 23 Gorffennaf 1924, AMC 27275.

⁸³ Evans, Laura, at Williams, R. J., 14 Medi 1925, AMC 27275.

⁸⁴ Evans, Laura, at Williams, R. J., 14 Medi 1925, AMC 27275.

⁸⁵ Williams, Emma, at Williams, R. J., 27 Mai 1915, AMC 27288.

⁸⁶ Williams, R. J., at y Parch. Edward Roberts, Madison, Wisconsin, 22 Mehefin 1927, AMC 27196.

Er gwaethaf y diffygion hyn, cafwyd cryn lwyddiant yn yr ysbyty bychan hwn. Yn ei adroddiad swyddogol ym mis Rhagfyr 1925, canmolodd J.W.McCoy, Llawfeddyg Sifil Bengal, y sefydliad gan ei ddisgrifio fel 'a nice compact little hospital, well equipped and scrupulously clean', cyn argymhell agor dwy ward newydd, un ar gyfer mamolaeth, y llall ar gyfer afiechydon heintus. Nododd hefyd fod y Capten Guha, llawfeddyg cynorthwyol y dalaith, hefyd wedi gwasanaethu yno am gyfnod o amser.⁸⁷ Flwyddyn yn ddiweddarach, cytunodd y Cynol Innes, o Wasanaeth Meddygol yr India, fod hwn yn wir yn ysbyty 'run on modern up-to-date lines', ac edmygodd yn fawr yr olwg llawen a ffresh oedd ar y ward:

In spite of drawbacks the work done is splendid, and this is a most deserving charity as the work lies mainly amongst poor women who come from all parts, and who otherwise would have to do without treatment. The operating theatre is an extremely nice apartment.⁸⁸



Ffigwr 4: Ysbyty'r Menywod, Habiganj, c. 1925
Ffynhonnell: tryloywlun hudlusern, blwch 16/18, rhif 1 (52), AMC 20612
Llyfrgell Genedlaethol Cymru

Cytunodd y Barnwr Edgeley ym mis Mai 1928, gan nodi mai hwn oedd yr ysbyty glanaf a'r mwyaf heulog yr oedd wedi ei weld y tu allan i Galcutta, a chafodd ei synnu nad oedd ei waith yn derbyn yr un rupee o gymorth ariannol gan y Llywodraeth.⁸⁹ Erbyn haf 1929,

⁸⁷ Adroddiad gan 'J. W. McCoy, Civil Surgeon', 11 Rhagfyr 1925, *Extracts from the Visitors' Book of the Mission Hospital for Women, Habiganj, Sylhet*, AMC 27196.

⁸⁸ Adroddiad gan 'Innes, Col. I.M.S., of I.G.C.H.', 21 Rhagfyr 1926, *Extracts from the Visitor's Book of the Mission Hospital for Women, Habiganj, Sylhet*, AMC 27196.

⁸⁹ Adroddiad gan 'N. Edgeley, Dist. Judge', 31 Mai 1928, *Extracts from the Visitor's Book of the Mission Hospital for Women, Habiganj, Sylhet*, AMC 27196.

sylwodd C. M. Allen, llawfeddyg Sifil newydd Gwasanaeth Meddygol yr India, fod yr ysbyty hwn yn darparu hyfforddiant i nyrsys brodorol, y sawl fyddent, meddai, mewn galw mawr maes o law. Cymeradwyodd yn gryf hefyd y ffaith fod yr ysbyty dan reolaeth feddygol meddyges Indiaidd, ac mai brodor arall, y Dr R.I. Sen, oedd y prif llawfeddyg yno.⁹⁰ Ym mis Tachwedd, enillodd grant ac arian o Gronfa Ysbytai'r Zenana i agor ward newydd, yr hon a elwid yn 'Ward Elizabeth Williams' er cof am y genhades Gymraeg ddibriad gyntaf a ddaeth i'r maes ym 1889.⁹¹

Er gwaethaf y cymeradwyaethau hyn, a chychwyn llif o gymorth ariannol cyhoeddus, argyfyngus fu ffawd yr ysbyty ym mlynnyddoedd olaf y 1930au. Ym 1937, llwyddodd i ddelio gyda 140 o gleifion gwely, 32 llawdriniaeth, 70 achos gynecolegol, 12 achos mamolaeth, a 26 o achosion meddygol eraill.⁹² Ysbyty cwbl agored i bawb oedd hwn, ac ym 1938 gwelwn ei fod wedi ymdrin â 17 o Gristnogion, 74 o Hindŵaid a 29 o Fwslemiaid, gyda 750 o rai eraill wedi derbyn triniaeth fel cleifion allanol.⁹³ Er gwaethaf hynny, penderfynodd y Cyfarwyddwyr gau'r ysbyty. Creodd hyn dyndra pellach oddi mewn y genhadaeth ar y gwastadedd. Nodwyd ym mis Hydref 1938 gan un garfan nad oedd y galw mor drwm ag y bu, a thynnwyd sylw unwaith yn rhagor at ba mor anodd yr oedd i ddenu cenhadon o safon i'w arwain. Ar y llaw arall, gwnaeth eraill apêl gref i gadw'r ysbyty ar agor, yn bennaf oherwydd pwysigrwydd datblygiadau newydd yn y gwaith ymhlith menywod, a'r 'deffroad menywaidd' yn yr India.⁹⁴ Trosglwyddwyd yr ysbyty ym mis Mai 1939 i ofal y llywodraeth leol yn Ne Sylhet, a hynny oherwydd yr hinsawdd wleidyddol yn Ewrop ac anhawster cael 'nyrs Ewropeaidd' i'w weinyddu tra byddai Winifred Thomas ar ffyrlo gartref.⁹⁵

Gyda marwolaeth y Dr Oswald Williams ym 1926, a rhoi'r gorau i'r ysbyty yn Habiganj ym 1939, rhoddodd y cenhadon fwy o bwyslais ar iechyd yn ei ystyr ehangach. Yn gynyddol, yn y blynyddoedd rhwng y rhyfeloedd, trodd eu sylw tuag at gynaliadwyedd y gymuned Gristnogol ar wastadedd Sylhet trwy ddatblygu sgiliau a 'glanweithdra' corfforol a meddyliol yr unigolion oedd dan eu gofal neu oedd wedi ymuno â'r Eglwys. Coledwyd y syniad hwn o iechyd cymdeithasol yn arbennig gan genhadon Sylhet a Karmiganj, lle bu cryn arloesi mewn ysgolion crefft neu 'ddiwydiannol', a fu'n paratoi yr ifanc ar gyfer gyrfaeod lle gallent fod yn hunangynhaliol a thu hwnt i gyfyngiadau galwedigaethol cast. Sylwodd J. W. Roberts am Sylhet ym mis Ebrill 1921, 'Ni welais erioed ysgol gyffredin yn yr India nad oedd yn fudr, yn llymrig ac yn aneffeithiol.'⁹⁶ Yn yr ysgolion crefft hyn, rhoddwyd cymaint o bwyslais ar iechyd corfforol, a disgyblaeth gynhyrchiol, ag ar y sgiliau eu hunain. Gweu a glanhau fyddai swmp y ddarpariaeth ar gyfer y menywod, fel y dangosir yn Ffigwr 5 isod.

⁹⁰ Adroddiad gan 'C. M. Allen, Major I.M.S., Civil Surgeon', 26 Awst 1929, *Extracts from the Visitor's Book of the Mission Hospital for Women, Habiganj, Sylhet*, AMC 27196.

⁹¹ Roberts, J. W., at Williams, R. J., 26 Tachwedd 1929, AMC 27196.

⁹² Morris, John Hughes (1939), *In the Steps of the Good Physician*, t. 43.

⁹³ 'Notes re. the Habiganj Hospital', 5 Mai 1938, *Minutes of the Plains District Committee*, AMC 27196.

⁹⁴ 'Directors' notes', *Minutes of the Plains District Committee*, 7 Hydref 1938, AMC 27196.

⁹⁵ Thomas, Oliver, at Mr Morgan, 24 Mai 1939, AMC 27196.

⁹⁶ Roberts, J. W., at Williams, R. J., 12 Ebrill 1921, AMC 27305.

Ffigwr 5: E.A. Roberts,
Sylhet, Y Dosbarth
Gweu, c. 1925
Tryloywlun hudlusern,
AMC 20612, blwch
13/18, 7 (12)



Ffigwr 6: Ysgol
Daiwydiannol Sylhet –
y saeri coed, c. 1930
Tryloywlun hudlusern,
AMC 20612, blwch
11/18, 27 (25)

Ymhlith y bechgyn, sgiliau megis saernïaeth fyddai'n dominyddu. Erbyn 1933, gwaith hyfforddi yn yr ysgolion 'diwydiannol' hyn oedd yn meddiannu 'llawer iawn' o amser cenhadon megis Hetty Evans yn Sylhet.⁹⁷

Mewn cymdeithas lle yr oedd yr Hindŵaid o leiaf yn ystyried tröedigaeth Gristnogol yn fath ar farwolaeth, ac yn aml iawn yn achos galar personol a theuluol dwfn i'r sawl nad oedd am gymryd y cam, a lle yr oedd y pwysau cymdeithasol i droi yn ôl at eu hen arferion a chredoau yn hynod gryf, bu gwerthoedd megis brawdgarwch ac undod oddi mewn i'r gymdeithas Gristnogol frodorol yn allweddol bwysig. Gyda'u capel eu hunain yn Sheikghat, compownd cyntaf y genhadaeth Gymreig yn ninas Sylhet, a llwybrau iddynt ddilyn i fyd gwaith, a mesur, o leiaf, ganddynt o annibyniaeth ariannol, bu cydymddibyniad rhyngddynt, ac awtomiaeth fel cymuned o Gristnogion, yn elfennau creiddiol yn eu goresgyniad fel eglwys. Sylwodd Eryn White y bu hyn hefyd yn nodwedd bwysig ym mhrofiad y Methodistiaid cynnar yng Nghymru'r ddeunawfed ganrif, sef yr agosatrwydd a'r cyfeillgarwch a deimlodd y 'brodyr a'r chwiorydd' yn y seiat tuag at ei gilydd. Y cylch clôs hwn, yng ngeiriau nodweddiadol dreiddgar Saunders Lewis, oedd 'clinig yr ysbryd'.⁹⁸

Yn yr ystyr ehangach hwn, math ar glinig oedd y genhadaeth yn ei chyfanrwydd, ymdrech i 'iacháu' enaid a chorff un garfan o bobl gan un arall o dras a buchedd tra gwahanol iddynt.⁹⁹ Os mai Crist oedd y 'Meddyg Mawr', a'r cenhadon oedd ei wasanaethwyr a'i arbenigwyr, cam bychan oedd creu'r canfyddiad ym meddylfryd y gymdeithas drefedigaethol, a gynhwysai frodorion a thramorwyr, fod cenhadon yn iachawyr y corff yn ogystal ac achubwyr yr enaid.¹⁰⁰ Yn hynny o beth, daethant i'w gweld fel darparwyr gwasanaethau cymdeithasol yn ogystal ag efengylwyr. Bu hyn yn achos peth drafodaeth ymhlith y cenhadon eu hunain am rai degawdau, yn arbennig wrth i'r gost gynyddu ar draul eu caredigion gartref, a'u methiant, ar wastadoedd Sylhet o leiaf, i ddangos cynnydd cymesur yn y niferoedd o droedigion at y ffydd.

Mor gynnar â mis Tachwedd 1893, cydnabyddodd Pwyllgor y Genhadaeth Dramor yn Lerpwl fod gwir angen herio'r canfyddiad hwn. Er gwaetha'r ffaith bod meddygaeth, o'r cychwyn cyntaf yn y 1840au, wedi chwarae rhan allweddol a chreiddiol yn y broses genhadol, anfonwyd neges ddiamwys i'r gweithwyr yn y Maes bod angen gwahaniaethu'n glir rhwng y ddwy elfen o'u gwaith.

Our attention has been often called to the importance of not leading the natives to be dependent on the mission or to expect support, and now that the advantages of medicine are so generally acknowledged, we request the missionaries to keep in mind the importance of not giving away medicine indiscriminately, but whenever the

⁹⁷ Evans, Hetty, at Thomas, O., 25 Ebrill 1933, 'A good deal of my time is taken up with the Industrial Work these days', AMC 27339.

⁹⁸ 'Y modd i wneud Methodist', *Cylchgrawn Hanes Cymdeithas Hanes y Methodistiaid Calfinaidd*, rhif 18, 1994, tt. 8-9.

⁹⁹ Am drafodaeth ar gysyniad y clinig yn yr ystyr ehangach hwn, megis dull i drawsnewid trefn foisol cymdeithas, gweler Foucault, Michel (1989), *The Birth of the Clinic: an archaeology of medical perception* (Routledge: Llundain ac Efrog Newydd, tt. 200-1).

¹⁰⁰ Hardiman, David (2008), *Missionaries and their medicine. A Christian modernity for tribal India* (Manchester University Press: Manceinion ac Efrog Newydd), xi.

natives are able to pay for it, that they should be required to do so, and likewise for accommodation in the Hospital and Lodging House.¹⁰¹

Er y gadawyd elfen o ddewis yn nwylo'r cenhadon eu hunain, dylent weithredu bob amser ar yr egwyddor y byddai'r brodorion yn 'gwerthfawrogi gwasanaethau'r cenhadwr yn well pe na byddent yn eu derbyn yn rhad ac am ddim'.¹⁰²

Yn amlwg, ni ddiflannodd y tyndra hwn yn y degawdau dilynol, ac ym 1953 bu angen pwysleisio'r polisi unwaith yn rhagor:

As misapprehensions as to the aim of the Medical Missions are prevalent, it is right to emphasize that the Mission is not merely a philanthropic agency or a provision for extending the benefits of European medicine and surgery to the inhabitants of the Mission Field, but a systematic combination of the healing art, with the preaching of the Gospel, and this in such a way as to make the Ministry of Healing subservient to the winning of souls for Christ. The Medical Missionary should, therefore, never forget that he is first of all a Missionary, and that any medical skill he may possess is to enable him more efficiently to perform his work as a Missionary.¹⁰³

Er gwaethaf y ffaith y gwaherddid unrhyw genhadwr meddygol rhag darparu gwasanaeth meddygol preifat ar y Maes, naill ai ymhlith 'yr Ewropeaid neu'r Indiaid', heb ganiatâd y Pwyllgor Cenhadol yn Lerpwl, serch hynny tanlinellwyd eto bwysigrwydd yr egwyddor 'o annog yr Indiaid i dalu yn ôl eu gallu' am wasanaeth meddygol. Y prif reswm am hynny, yn ôl cyfarwyddyd y pwyllgor arweiniol, oedd sicrhau na fyddai'r Indiaid yn 'ddibynol ar y genhadaeth am eu anghenion corfforol'.¹⁰⁴

Awgryma hyn, yn dilyn profiad canrif yn y maes cenhadol yn Nwyrain Bengâl, fod y Genhadaeth Gymreig yn ymwybodol o'r tyndra hwnnw sydd ymhlyg mewn unrhyw waith o'r fath, sef bod canfyddiad y sawl a dderbyniodd y 'gwasanaeth' yn aml yn gallu bod yn wahanol iawn i'r un a oedd wedi ysbrydoli y sawl a'i ddarparodd. Neges dyfarniadau 1893 a 1953 oedd bod angen croywi'r canfyddiadau hyn, a thrwy wneud hynny, sicrhau yn well bod pawb, boed nhw'n genhadon neu'n aelodau o'r gymdeithas frodorol, yn gwbl glir ynglŷn â beth oedd natur a swyddogaeth y Genhadaeth. Ymddengys felly, o leiaf yng nghyswllt y genhadaeth Gymreig ym Mengâl drefedigaethol yn y cyfnod hwn, fod un economi foesol wedi ei phriodoli i iechyd y corff, ac un arall, tra gwahanol, i iachawdwriaeth yr enaid. Ac eto, yng nghymhlethdodau personol, diwylliannol a chorfforol y gymdeithas drefedigaethol fyrlymus a llawn hynodrwydd honno, yr hyn mae'r dystiolaeth hanesyddol yn ei awgrymu yw pa mor anodd, ac yn wir pa mor annoeth, yr oedd hi, mewn gwirionedd, i wahaniaethu rhyngddynt.

¹⁰¹ *Foreign Mission Committee* cyf. 6, 1887-1895, tt. 482-3, 22 Tachwedd, 1893, AMC 27071.

¹⁰² *Foreign Mission Committee* cyf. 6, 1887-1895, tt. 482-3, 22 Tachwedd, 1893, AMC 27071.

¹⁰³ 'Presbyterian Church of Wales or Calvinistic Methodist Church of Wales', *Foreign Mission Regulations*, Liverpool, 1953, t. 30.

¹⁰⁴ 'Presbyterian Church of Wales or Calvinistic Methodist Church of Wales', *Foreign Mission Regulations*, Liverpool, 1953, t. 30.

Craig Owen Jones

**‘Ar y brig unwaith eto’:
siartiau pop iaith Gymraeg
cynnar**

Gwerddon

CYFNODOLYN ACADEMAIDD CYMRAEG

Golygydd Yr Athro Ioan Williams

‘Ar y brig unwaith eto’: siartiau pop iaith Gymraeg cynnar.

Craig Owen Jones

Yn ystod Haf 1973, anfonodd aelod o Urdd Gobaith Cymru lythyr at gylchgrawn newydd y sefydliad, *I’r Dim*, yn ymosod ar labeli record Cymraeg am nad oeddent yn rhyddhau digon o recordiau:

Pam nad ydyn nhw’n dod â mwy o recordiau allan? Mae ‘na dipyn yn dod allan amser Steddfod a’r Dolig ond rhwng y rheina bron ddim; oddi ar y Dolig dim ond un record a welwyd, (gan) Hergest.

Mae digon o grwpiau newydd da o gwmpas, megis Ac Eraill a Cos Glec ond dydy (sic) rhain ddim yn cael cyfle. Beth hefyd am grwpiau sydd wedi hen sefydlu, megis Y Dilliau, Yr Hennessys, a’r Dyniadon Ynfyd ac unigolion megis Heather Jones, Dewi Pws ac Eirlys Parry? Mae’r cyhoedd yn aros ers oesoedd am record newydd ganddyn nhw...

Dydy dadl y cwmnïau recordio nad oes digon o werthiant ar y recordiau i wneud iddyn nhw dalu, ddim yn dal dŵr. Faint o ymdrech maen nhw’n wneud (sic) i hysbysebu eu recordiau ac i drio ehangu eu gwerthiant?

...

Rydyn ni isio mwy o recordiau Cymraeg – drwy’r flwyddyn. Rydw i a’ m ffrindiau wedi syrffedu ar wrando ar yr un hen ganeuon ar raglan Hywel Gwynfryn bob bore Sadwrn. Da chi deffwrch a gwneud rhywbeth, Sain, Dryw a Cambrian!¹

I ba raddau y gall rhywun ddibynnu ar y datganiadau uchod? Yn sicr, mae yna dystiolaeth helaeth i ategu’r honiad uchod bod recordiau newydd yn gymharol brin yn y 1970au cynnar. Er i gynnyrch recordiau newydd yn y diwydiant byd pop Cymraeg gynyddu ychydig ym 1971, erbyn diwedd 1972, fan bellaf, roedd y sefyllfa wedi gwaethygu unwaith eto. Ymhlith y rheiny a oedd yn gobeithio am adfywiad yn ystod y cyfnod hwn oedd troellwyr neu *DJs*, megis Mici Plwm; wedi’r cwbl, roedd eu disgos yn dibynnu ar gyflenwad cyson o recordiau dawns iaith Gymraeg.² Fodd bynnag, mae llawer o’r dystiolaeth hon yn goroesi ar ffurf adroddiadau llafar a barnau personol. A yw’n bosibl darparu rhyw fath o ddata empeiraidd i gadarnhau’r syniad bod cwmnïau record yn methu ‘ehangu eu gwerthiant...’?

¹ *I’r Dim*, 1 (Mehafin-Gorffennaf 1973), tt. 15-16.

² Roedd Plwm wedi mynegi’r dymuniad i chwarae set disgo heb unrhyw recordiau iaith Saesneg ynddo o gwbl mor gynnar â 1971; *Y Cymro*, 18 Awst 1971, t. 6. Mynegodd Dei Tomos ei rwystredigaethau dros yr un penbleth (*Y Cymro*, 15 Medi 1971, t. 6). Yn ôl un adroddiad, erbyn diwedd y flwyddyn honno roedd yna ddigon o recordiau iaith Gymraeg i alluogi hyn (*Y Cymro*, 15 Rhagfyr 1971, t. 7). Fodd bynnag, ni wnaeth cyflenwad y cynnyrch newydd gyflawni’r angen; yn ôl Huw Evans, dim ond dau artist iaith Gymraeg ‘dawnsiadwy’ oedd erbyn 1972 cynnar, sef Meic Stevens a’r Tebot Piws (*Carmarthen Times*, 7 Ionawr 1972, t. 7).

Un ffynhonnell sydd wedi cael ei hanwybyddu yw siartiau pop y papurau newydd. Erbyn troad y 1970au, roedd sawl papur Cymraeg, gan gynnwys *Y Cymro*, yr *Herald Cymraeg* a'r *Genedl*, a'r *Carmarthen Times* wedi dechrau cyhoeddi siartiau 'Deg Uchaf' neu 'Ugain Uchaf'. Er bod y siartiau hyn yn seiliedig ar ddata o siopau recordiau Cymraeg yn unig, serch hynny, maent yn rhoi dealltwriaeth newydd o arferion prynu cefnogwyr cerddoriaeth bop iaith Gymraeg. Bydd yr erthygl hon, felly, yn cynnwys dadansoddiad o siartiau tri phapur newydd yn ystod y flwyddyn 1972, gan ganolbwyntio ar batrymau rhanbarthol a chenedlaethol, a hefyd ar berfformiad recordiau roc yn y siartiau. Dadlennir bod y siartiau o werth fel dangosydd gwerthiant tebyg, ac hefyd oherwydd eu statws fel cyfrwng i'r cyhoedd gymryd rhan yn y byd pop Cymraeg.

Rhagolwg

Mae pwysigrwydd siartiau pop fel ffordd o ddadansoddi strwythur a natur y diwydiant cerddoriaeth boblogaidd wedi cael ei gydnabod ers blyneddau maith. Cyhoeddwyd y siart cerddorol Prydeinig cyntaf – o'r enw 'The Honours List' – mor bell yn ôl â 1928 yn y *Melody Maker*, a gwelwyd cynnydd cyffredinol yn nifer y siartiau hyn yn y 1950au; erbyn hynny, roedd *The Gramophone*, y cylchgrawn Americanaidd *Billboard*, y *New Musical Express*, a'r *Melody Maker* i gyd wedi dechrau cyhoeddi siartiau o ryw fath yn gyson. Dilynodd sylw ysgolheigaidd ar ei ôl.³ Ym 1978, pwysleisiodd Simon Frith bwysigrwydd siartiau pop fel dangosydd cyson patrymau prynu sydd, yn groes i ddulliau tebyg o ddadansoddi'r tueddiadau hyn mewn diwydiannau eraill, yn agored i'r cyhoedd. Fodd bynnag, awgrymodd hefyd y gallai defnydd siartiau gael ei danseilio o achos posibilrwydd "fixing" the returns – there are various ways of planting false sales on ... sample (record) shops'.⁴ Yn fwy diweddar, mae Gary Burns wedi ysgrifennu yn nhermau 'record-chart fetish' i ddisgrifio'r berthynas rhwng y siartiau a cherddoriaeth boblogaidd.⁵ Mae Martin Parker wedi mabwysiadu methodoleg fwy mentrus, yn darllen y siartiau pop fel testun, ac yn tanlinellu eu rôl o ran dylanwadu ar y farn gyhoeddus. Mae'n awgrymu:

Consumers of other commodities do not usually consult a specialist book or magazine in order to discover the past sales history of their favourite brand, nor do they listen to particular radio stations in order to ascertain the best selling product of the week. ... popular literature ..., video and films have all begun to use this format but in none of these cases is the chart as central as it is with pop music.⁶

Yn wir, fel mae Parker yn nodi, yn y cyswllt hwn, mae'r siartiau yn rhoi argraff wael ynglŷn â thueddiadau cyffredinol yn y diwydiant pop: ym 1988, er enghraifft, roedd gwerthiant senglau yn cyfrif am ddim ond 11 y cant o'r farchnad recordiau Prydeinig.⁷ Mae'n eironig, felly, fod y siartiau Cymraeg yn hollol wahanol i'w modelau Eingl-Americanaidd yn y cyd-destun hwn – tan y 1970au diweddar, senglau ac EPau oedd yn cyfrif am y rhan fwyaf o werthiant o fewn y byd pop Cymraeg.

³ Martin Parker (1991), 'Reading the charts – making sense with the hit parade', *Popular Music*, 10, 2, t. 206.

⁴ Simon Frith (1978), *The Sociology of Rock* (Llundain), t. 13.

⁵ Gary Burns (1998), 'Visualising 1950s hits on *Your Hit Parade*', *Popular Music*, 17, 2, t. 139.

⁶ Parker, 'Reading the charts', t. 205.

⁷ Ibid.

Erbyn y 1970au cynnar, nid oedd y diwydiant recordiau Cymraeg yn cynnwys dim mwy na phum label ar unrhyw adeg, a Cambrian, Dryw a Sain oedd yn arwain y maes. Roeddent yn gyfrifol am y rhan fwyaf o lawer o'r recordiau iaith Gymraeg llwyddiannus tan y 1970au diweddar, pan sefydlwyd nifer o labeli annibynnol bychain megis Recordiau Sgwâr a Recordiau Coch. Roedd Cambrian wedi bodoli ers tua diwedd 1967, pan adawodd Josiah Jones ei swydd gyda'r label Welsh Teldisc er mwyn sefydlu label newydd.⁸ Roedd Jones wedi treulio mwy na phymtheg mlynedd yn y diwydiant record, yn gyntaf gyda'r label Qualiton (a oedd yn gyfrifol am ryddhau'r sengl 'Maes B' gan Y Blew; prynwyd y label gan Decca ym 1969)⁹ ac wedyn gyda Welsh Teldisc. O fewn misoedd, yr oedd wedi sefydlu Cambrian fel label gynhyrchol ac uchel ei pharch.¹⁰ Aeth llinach Recordiau Dryw yn ôl ychydig ymhellach; roedd y label wedi rhyddhau senglau gan artistiaid megis Bois Y Blacbord ers y 1960au cynnar.

Erbyn 1972, sef y cyfnod dan sylw, roedd gweithgaredd yn y farchnad wedi teneuo rhywfaint. Roedd label arall wedi ymddangos yn y cyfamser, sef Sain, ac yn wir, roedd ei dylanwad yn tyfu (gweler isod). Serch hynny, ac er i'r label Eingl-Americanaidd Decca benderfynu ailryddhau eitemau o ôl-gatalog Qualiton yn rheolaidd, roedd y label i bob pwrpas wedi peidio â rhyddhau gwaith gan artistiaid newydd erbyn y 1970au cynnar; a daeth Welsh Teldisc i ben tua diwedd y flwyddyn.¹¹ Nid yw'n syndod, felly, i rywun weld naws o rwystredigaeth am gyflwr y diwydiant recordiau mewn sylwadau a brintwyd yn y wasg gerddorol tua'r cyfnod hwn. Yn ogystal â'r sylw ar ddechrau'r erthygl hon, teimlodd rhai fod y byd pop Cymraeg yn llusgo ei draed wrth ymaddasu i ddyfodiad diwyg newydd, sef y record hirfaint neu'r 'LP',¹² ac yn wir, un yn unig a ymddangosodd yn y siartiau a ystyrir isod; yn yr un modd, ym 1972 ysgrifennodd Dyfrig Thomas am y 'gofyn ... am recordiau mewn Sterio (sic)'. Ar y pryd, dim ond un record yn Gymraeg oedd ar gael mewn stereo, sef record hir Tony ac Aloma.¹³

Mae hefyd elfen o ddrwgdybiaeth yn amlwg mewn rhai datganiadau o'r cyfnod oddi wrth rai elfennau o fewn y wasg. Er enghraifft, yn sgil penderfyniad Sain i brynu'r is-label Tŷ Ar Y Graig er mwyn rhyddhau recordiau gan y math o grwpiau lleisiol a fu mor llwyddiannus yn y 1960au diweddar a'r 1970au cynnar, ymosododd golygyddion y cylchgrawn *Sŵn* ar Sain am 'werthu sbwriel ar y slei i gael arian' trwy'r label newydd, a rhoi'r gorau (fel yr oedden nhw'n ei weld) i'w 'delwedd 'avant-garde'' a gynrychiolwyd gan y genhedlaeth newydd o artistiaid ar Sain megis Y Tebot Piws.¹⁴ Wrth ysgrifennu ym 1975, roedd Eurig Wyn yn fwy maddeuol, ond serch hynny, sylweddolodd sut yr oedd Sain wedi cyflawni monopoli yn y farchnad wrth arwyddo pob artist o fri. Yn fwy cyffredinol, cyhuddodd Wyn labeli eraill o fod yn fodlon ynglŷn â gwerthoedd cynhyrchu isel: 'Nid

⁸ *Asbri*, 16 (Gwanwyn 1972), t. 4.

⁹ *Carmarthen Times*, 14 Tachwedd 1969, t. 7.

¹⁰ *Gweler Y Cymro*, 26 Hydref 1967, t. 9.

¹¹ *Asbri*, 20 (Gwanwyn 1973), t. 13. Roedd label byrhoedlog arall, Recordiau'r Ddraig, yn weithredol tua'r un cyfnod; roedd yn seiliedig yn Lerpwl, a rhyddhawyd sengl gan Treflyn arno, ond cyfyngedig iawn oedd ei ddylanwad. *Carmarthen Times*, 3 Hydref 1969, t. 7.

¹² *Asbri*, 22 (Hydref 1973), t. 12.

¹³ *Asbri*, 16 (Gwanwyn 1972), t. 13.

¹⁴ *Sŵn*, 3 (Awst/Medi 1972), t. 16.

yn unig ansawdd aneglur lleisiau, ond mae lluniau ffwrdd-â-hi ar rai cloriau (record), a Chymraeg gwarthus o wallus ar y cefn.’¹⁵

Gwerthodd y cwmnïau amrywiol hyn eu cynnyrch i gynulleidfa a oedd, yn nhermau oedran, yn llawer ehangach nag yn y byd pop Eingl-Americanaidd. Mewn colofn o 1970 yn egluro ei resymau dros sefydlu Recordiau Sain gyda Dafydd Iwan, awgrymodd Huw Jones fod ‘cyfartaledd y prynwyr recordiau ymhlith y bobl mewn oed yng Nghymru yn uwch o dipyn nag yn Lloegr’; yn ôl Jones, amcan Sain oedd ceisio ‘ail-ennyn diddordeb (pobl ifanc) mewn recordiau Cymraeg’ trwy ryddhau recordiau mewn arddulliau cyfoes.¹⁶ Ym 1972, honnodd Dyfrig Thomas fod pobl ganol oed yn gyfrifol am y rhan fwyaf o werthiant recordiau iaith Gymraeg: ‘Efallai, pe bai’r ifainc yn prynu mwy o recordiau, y byddai mwy o siawns i gael recordiau pop go iawn yn Gymraeg.’¹⁷

Rhaid i rywun ystyried y data sydd ar gael yn y siartiau amrywiol o’r cyfnod hwn yng nghyd-destun yr uchod. Yn groes i syniadau cyffredin am siartiau pop, nid yw Deg Uchaf Y Cymro, Deg Uchaf y *Carmarthen Times*, neu Deg Ucha’ Yn Y Dre’r *Herald Cymraeg a’r Genedl* yn cynnig arolwg dibynadwy ar ymddygiad y gynulleidfa a oedd yn gyfrifol am werthiant recordiau iaith Gymraeg. Yn hytrach, maent yn ein helpu i ddod o hyd i ateb i’r cwestiwn o sut y bu’r gynulleidfa honno’n cyfryngu rhwng yr amgylchedd cymdeithasol o’i chwmpas. Yn wir, mae syniad Parker o ‘siart pop fel testun’ yn berthnasol yma. Wrth ochr y diwylliant ieuenctid Eingl-Americanaidd a ddefnyddiwyd fel model yng nghyswllt y siart pop, roedd y byd pop Cymraeg yn un bach iawn; ond serch hynny, roedd y siart pop yn gyfle i’r gynulleidfa effeithio arno mewn modd penodol iawn. Daeth y Deg Uchaf a’r siartiau pop eraill i gynrychioli canlyniad yr effaith honno.

Deg Uchaf Y Cymro

Yn ddi-os, y siart Cymraeg mwyaf dylanwadol i ymddangos oedd Deg Uchaf Y Cymro. Roedd yna gynsail i’w ymddangosiad yn y papur. Cyhoeddwyd siart o recordiau Eingl-Americanaidd mor gynnar ag Ebrill 1963, ond o ffynonellau Saesneg, fel arfer y *Melody Maker*. Ni chafodd siart iaith Gymraeg rheolaidd ei sefydlu tan Dachwedd 1967, gan y gohebydd Gwyn Griffith.¹⁸ Parhaodd y siart am gyfnod hir iawn, ond nid Deg Uchaf Y Cymro oedd y siart cyntaf a fwiadwyd i adlewyrchu gwerthiant recordiau yng Nghymru. Roedd papur wythnosol *Yr Herald Cymraeg a’r Genedl* wedi lansio ei ‘Deg Ucha’ Yn Y Dre’ yn gynharach ym 1967, sef arolwg ar werthiant recordiau yng Nghaernarfon. Fodd bynnag, roedd y siart hwnnw yn cynnwys gwerthiant recordiau iaith Saesneg yn ogystal â recordiau iaith Gymraeg.¹⁹

¹⁵ *Asbri* 26 (Hydref 1974), t. 3. Yn y cyd-destun hwn, mae’n ddiddorol nodi bod Cyngor y Celfyddydau wedi rhoi cymhorthdal i gwmnïau record er mwyn cefnogi cloriau recordiau – ond dim byd i wella’r recordiadau eu hunain. *Asbri* 22 (Hydref 1973), t. 12.

¹⁶ *Y Dyfodol*, Rhagfyr 1970, t. 3.

¹⁷ *Asbri* 16 (Gwanwyn 1972), t. 13.

¹⁸ *Y Cymro*, 23 Tachwedd 1967, t. 24. Erbyn y drydedd wythnos, roedd perchenogion siopau record yn adrodd newidiadau ym mhatrymau gwerthu eu cwsmeriaid. Gweler *Y Cymro*, 7 Rhagfyr 1967, t. 28.

¹⁹ Ar y cyfan, yn ystod y 1960au hwyr, mae’n gymharol glir bod gan *Yr Herald Cymraeg a’r Genedl* bolisi o roi mwy o gyhoeddusrwydd i recordiau a digwyddiadau cerddorol Eingl-Americanaidd na phapurau iaith Gymraeg eraill. Ym 1968, er enghraifft, cyhoeddwyd erthyglau am y band iaith

Roedd y dull a ddefnyddiwyd i greu Deg Uchaf Y Cymro yn un syml. Bob wythnos, byddai'r papur yn cysylltu â nifer o siopau recordiau ledled Cymru er mwyn casglu data ar werthiant yr wythnos honno. Ar y cychwyn, dim ond pedair siop a gyfrannodd at y siart, ond dros y ddwy flynedd nesaf, ehangodd y rhestr i gynnwys siopau ym Mhwlheli, Crymmych, Aberystwyth, Bangor, Aberaeron, Dolgellau, Aberteifi, Caernarfon, Llanbedr Pont Steffan, Llanrwst, Castellnewydd Emlyn, Y Bala, Abertawe, Caerfyrddin, Caerdydd, Wrecsam, a Chroesoswallt – rhestr sy'n rhoi amrywiaeth ddiddorol o leoliadau cynulleidfaoedd iaith Gymraeg (gweler Ffigwr 1).²⁰

O ran egwyddor, crëwyd y siart hwn yn ôl yr un dull â'r siart a gyhoeddwyd yn rheolaidd yn y cylchgrawn Saesneg *Record Retailer* o 1963 ymlaen, ac a ddefnyddiodd ffigurau gwerthiant o 250 o siopau ledled Prydain.²¹ Yn achos Y Cymro, fodd bynnag, nid ffigurau gwerthiant a gafwyd o'r siopau recordiau ond, yn hytrach, graddau i bob record yn seiliedig ar boblogrwydd cymharol. Byddai artistiaid â gwerthiant uwch yn derbyn gradd uwch nag artistiaid â gwerthiant cymharol isel. Cyfrifwyd Deg Uchaf Y Cymro yn seiliedig ar y graddau hyn. Mewn gwirionedd, nid oedd ffordd arall o greu siart o'r math hwnnw – roedd nifer y busnesau a oedd yn gwerthu recordiau Cymraeg yn isel ac, yn wir, mae Sarah Hill yn nodi nad oedd yn anghyffredin i'r record ar y brig werthu 40 o gopiâu neu lai mewn wythnos.²² Pan fo rhywun yn cymharu'r ffigwr hwn gyda'r gwerthiant arferol i record Rhif Un ym Mhrydain yn y 1970au – tua 200,000 yn ôl Frith²³ – mae'r gwahaniaethau enfawr rhwng yr achos Prydeinig a'r achos Cymraeg yn dod yn amlwg.

O ganlyniad, nid oedd y Deg Uchaf o reidrwydd yn adlewyrchu poblogrwydd recordiau yn ffyddlon; ac mae'r nifer cymharol isel o siopau recordiau'n cyfrannu at y siart, yn ei fisoedd cynnar o leiaf, yn rhwystro'r Deg Uchaf rhag bod yn adlewyrchiad cwbl ddibynadwy ar flas cerddorol y cyhoedd. Yn wir, oherwydd y ffaith bod y papur yn cyhoeddi rhestr o'r siopau a gyfrannodd at y siart, roedd yn eithriadol o hawdd i berchenogion labeli recordiau (ac artistiaid) gamddefnyddio'r system wrth fynd i'r siopau record perthnasol a phrynu nifer mawr o'u recordiau; digwyddodd hyn ar fwy nag un achlysur.²⁴

Roedd penderfynu ar ba recordiau i'w cynnwys yn y siart yn syml. Yr unig amod oedd iaith – roedd yn rhaid i'r record fod yn Gymraeg, er bod rhai recordiau dwyieithog yn ymddangos yn achlysurol yn ystod blynyddoedd cyntaf y siart. Yn nhermau arddulliadol, nid oedd unrhyw gyfyngiadau – yn wir, ymddangosodd recordiau hir gan gorau meibion a recordiadau cymanfaoedd canu ochr yn ochr ag EPau a senglau gan artistiaid megis Y Tebot Piws ac Edward H. Dafis trwy'r 1970au.

Saesneg o Gaernarfon, *The Facts of Life*, yn ogystal ag ymweliad y Beatles â Bangor y flwyddyn gynt, ac ymweliad y cyflwynydd a'r DJ enwog Jimmy Savile i Fiwmares i agor maes carafanau. 26 Chwefror 1968, t. 6; 8 Ionawr 1968, t. 6; 22 Ebrill 1968, t. 6.

²⁰ Nid yw'r rhestr yn Y Cymro, 2 Ebrill 1969, t. 7 yn cynnwys y siopau record yng Nghastellnewydd Emlyn, Wrecsam, na Chroesoswallt. Roedd y rhain wedi ymuno â'r cynllun, fodd bynnag, erbyn yr hydref (17 Medi 1969, t. 17). Gall ymddangosiad hwyr siopau recordiau y gogledd-ddwyrain yn y Deg Uchaf awgrymu datblygiad cymharol hwyr cynulleidfa i recordiau iaith Gymraeg yn yr ardaloedd hynny.

²¹ Parker, 'Reading the charts', t. 206.

²² Sarah Hill (2007), *'Blerwytirhwng?': The Place of Welsh Pop Music* (Aldershot), t. 74.

²³ Frith, *The Sociology of Rock*, t. 118.

²⁴ Gwyn Griffiths, sgwrs ffôn gyda'r awdur, 27 Chwefror 2012.

Gwelwyd y Deg Uchaf nid fel ffon fesur poblogrwydd yn unig, ond hefyd fel amcan i gerddorion uchelgeisiol. Daeth ymddangosiad yn y siart yn symbol statws pwysig, fel y mae sylwadau brwdfrydig Dafydd Evans am lwyddiant siart ei fand Y Blew ym 1967 yn ei ddangos.²⁵ Gwnaethpwyd cais pellach i danlinellu'r rôl hon i'r siart tua dechrau 1968, pryd y dechreuodd y colofnydd Huw Evans lunio tablau pob tri mis o'r caneuon a'r artistiaid mwyaf poblogaidd yn ystod y cyfnod hwnnw, ar sail data'r Deg Uchaf.²⁶ Cynhaliwyd cystadleuaeth i ddarganfod artist a chân y flwyddyn ym 1969 hefyd, a pharhaodd y fenter yn y 1970au cynnar.

Fodd bynnag, mae'r astudiaeth achos gyntaf hon yn canolbwyntio ar gyfnod o chwe mis, o Ionawr tan Fehefin 1972. Yn ystod y cyfnod hwn, cyhoeddwyd 25 o siartiau gan Y Cymro, yn rhoi sampl o ryw 250 o ganeuon gan artistiaid megis Tony ac Aloma, Y Dyniadon Ynfyd Hirfelyn Tesog, Y Diliau, Y Tebot Piws, Emyr ac Elwyn, a Max Boyce. Beth mae'r rhain, felly, yn ei ddweud wrthym ni am gyfrannau marchnad yn y diwydiant record iaith Gymraeg? Erbyn 1972, yn sicr, rheolwyd y farchnad yng Nghymru, fel yn Lloegr, gan nifer fach iawn o labeli. Yn wir, pedair label yn unig, sef Cambrian, Sain, Dryw, ac is-label Sain, Tŷ Ar Y Graig, a ddarparodd yr holl recordiau a ymddangosodd yn y Deg Uchaf yn ystod y cyfnod dan sylw. Mae Ffigwr 2 yn dangos nifer y recordiau yn Nheg Uchaf Y Cymro o Ionawr i Fehefin yn ôl label record. Fel y gwelir, o'r 26 record a ymddangosodd yn y siart yn ystod y cyfnod hwnnw, cafodd 11 (42 y cant) eu rhyddhau gan Cambrian, gyda recordiau gan Dryw yn ail. Yn yr un modd, mewn dadansoddiad o'r recordiau yn ôl yr amser y buont yn y siart (Ffigwr 3), roedd recordiau gan Cambrian yn cyfrif am 41 y cant o'r cyfanswm amser dros hanner cyntaf y flwyddyn; dilynwyd Cambrian gan Sain, ac wedyn Dryw.

Wrth edrych ar y ffigurau hyn, mae rhywun yn cael yr argraff mai Cambrian yw'r label bwysicaf yn ystod y cyfnod hwn, ond dylem ni ofalu i beidio â chamddehongli presenoldeb yn y siart fel poblogrwydd syml. Os yr ydym ni'n archwilio'r recordiau a gyrrhaeddodd frig y siart yn ystod yr un cyfnod (Ffigwr 4), mae darlun gwahanol yn ymddangos: fel y gwelir, treuliodd senglau a ryddhawyd gan Sain 11 wythnos ar frig y siart, yn wahanol i wyth wythnos i recordiau gan Cambrian, a chwe wythnos i recordiau gan Dryw. Mae hynny'n awgrymu bod recordiau gan Sain yn debycach i fod yn llwyddiannau masnachol, a hynny er bod cynnyrch Cambrian yn uwch. Mae'r canlyniadau yn sefyll hyd yn oed os bydd rhywun yn ehangu'r set ddata i gynnwys tri uchaf y siart (Ffigwr 5).

Mae un ateb posibl i'r pos hwn yn cyflwyno ei hunan. Er bod Cambrian yn rhyddhau recordiau'n gyflymach na'r labeli eraill, gellir dadlau bod Sain yn fwy llwyddiannus o ran ennill a chadw cynulleidfa ffyddlon. Mae arolwg ar gynnyrch Sain yn y 1970au cynnar yn datgelu ystod eang o recordiau, o ran artistiaid a hefyd o ran gwaith celf – pwynt gwerthu sylweddol ar adeg pan oedd artistiaid iaith Gymraeg yn ceisio datblygu mwy o gysylltiadau â'r tueddiadau cerddorol blaenorol yn y byd pop Eingl-Americanaidd. Heb os, yn y cyswllt hwn, roedd Sain ymhell ar flaen eu cystadleuwyr. Tra oedd Dafydd Iwan a Huw Jones yn rhyddhau recordiau roc rheolaidd erbyn 1975, dyma a ragwelai perchennog Cambrian, Josiah Jones, ym 1972:

²⁵ Dafydd Evans (2003), *Y Blew a Buddugoliaeth Gwynfor: Dyddiadur 60au* (Talybont), t. 202-3.

²⁶ Er enghraifft, gweler Y Cymro, 9 Ebrill 1969, t. 7.

bydd na fwy o alw am recordiau o ganu poblogaidd ysgafn, swynol fel Tony ac Aloma yn y dyfodol, nag a fydd o'r grwpiau swnllyd 'pop' sydd i'w weld yn Lloegr a gwledydd eraill.²⁷

Ar ben hynny, ac er nad yw'n bosibl cael hyd i ateb pendant ar y pwynt hwn, dichon mai'r rheiny a oedd yn chwarae mewn arddulliau blaengar, fel y tueddai artistiaid Sain, gan helpu i ddenu cynulleidfau iau – un a oedd yn debycach o brynu recordiau o ran arferiad, yn hytrach nag ar sail ffactorau cerddorol yn unig. Bu hyn, siŵr o fod, yn gymorth i wneud senglau ac EPau Sain yn gasgladwy; ac roedd Iwan a Jones yn prysur fanteisio ar y nodwedd hon, fel y mae'r hysbyseb a argraffwyd yn nhudalennau *Asbri* tua'r cyfnod hwn yn dangos.²⁸ Nid yw'n angenrheidiol nodi bod prif slogan yr hysbysebion hyn – 'Ydy'r rhain ar eich silff?' – yn gwestiwn rhethregol.

Deg Uchaf y *Carmarthen Times*

Yr ail astudiaeth achos yw Deg Uchaf y *Carmarthen Times*. Roedd y *Carmarthen Times* ymhlith y papurau newydd cyntaf i gomisiynu colofn reolaidd am gerddoriaeth bop iaith Gymraeg. Yn Ionawr 1969, dechreuodd y papur gyhoeddi Deg Uchaf recordiau iaith Gymraeg, mewn ymateb i alwadau am siart o'r fath oddi wrth ddarllenwyr, i ategu siart iaith Saesneg y papur.²⁹ Yn Awst 1969, cafodd y 'Golofn Bop Gymraeg' gyntaf ei chyhoeddi. Awdur y golofn newydd oedd Huw Evans,³⁰ a oedd wedi dechrau ysgrifennu erthyglau i'r cylchgrawn pop *Asbri* yn gynharach y flwyddyn honno, ac a oedd hefyd yn gyfrifol am grynhoi'r siartiau tri mis i'r *Cymro*. Dros y blynyddoedd nesaf, defnyddiodd Evans ei golofn yn gyfrwng i alw am fwy o ddarpariaethau ar gerddoriaeth bop iaith Gymraeg yn y cyfryngau, yn ogystal â darparu beirniadaeth o'r wasg gerddorol iaith Gymraeg newydd. Erbyn 1972, roedd y Deg Uchaf wedi cyfuno â cholofn Evans.

Cyhoeddwyd Deg Uchaf cyntaf 1972 yn y *Carmarthen Times* ar 7 Ionawr:

1. Tony ac Aloma, *Tony ac Aloma* (record hir)
2. Huw Jones, 'Daw Dydd'
3. Y Tebot Piws, 'Mae Rhywun Wedi Dwyn Fy Nhrwyn'
4. Dafydd Iwan, 'Pam Fod Eira Yn Wyn'
5. Tony ac Aloma, 'Ble Mae F' Anwylyd'
6. Tony ac Aloma, 'Diolch I Ti'
7. Hogia'r Wyddfa, 'Y Ferch Ar Y Cei Yn Rio'
8. Meic Stevens, 'Diolch Yn Fawr'
9. Hogia Llandegai, 'Bangor '71'
10. Alan a Brian, 'Ti Yw Fy Mreuddwyd'

²⁷ Eilir Davies, 'Rhaid Darparu Ar Gyfer Y Galw', *Asbri*, 16 (Gwanwyn 1972), t. 4.

²⁸ *Asbri*, 11 (Ionawr-Chwefror 1971), t. 7.

²⁹ *Carmarthen Times*, 24 Ionawr 1969, t. 7.

³⁰ *Carmarthen Times*, 22 Awst 1969, t. 7.

Wrth edrych ar ddadansoddiad o symudiadau'r recordiau hyn dros yr wythnosau nesaf, ymddengys fod y siart yn ategu'r syniad bod recordiau newydd yn ymddangos yn gymharol afreolaidd (Ffigwr 6). O'r deg record a restrir uchod, roedd chwech i'w gweld yn y siart o hyd ym Mehefin; ac o'r chwe record hynny, roedd dwy – record hir Tony ac Aloma a 'Pam Fod Eira Yn Wyn' gan Dafydd Iwan – wedi bod yn y Deg Uchaf yn barhaol yn ystod chwe mis cyntaf y flwyddyn (Ffigwr 7). Ar ben hynny, am 23 o'r 26 wythnos gyntaf o'r flwyddyn, roedd un o ddwy record yn unig ar frig y siart: record hir Tony ac Aloma, neu 'Pererin Wyf' gan Iris Williams, a oedd wedi ymddangos yn y siart am y tro cyntaf ar 14 Ionawr.

Mae nodweddion eraill yn tanlinellu'r diffyg newid yn siart y *Carmarthen Times*. Yn ystod deufis cyntaf 1972, er enghraifft, cyhoeddwyd y Deg Uchaf ar wyth achlysur, ac yn ystod y cyfnod hwnnw, dim ond 16 o artistiaid oedd yn cyfrif am bob record ynddo. Ar y brig, unwaith eto, oedd y deuawd acwstig Tony ac Aloma, oedd â thair record yn y Deg Uchaf ar yr un pryd – 'Ble Mae F'Anwlyd', 'Diolch I Ti', a'u record hir – am bump o'r wyth wythnos. Roedd Dafydd Iwan hefyd yn flaenllaw, gyda dwy sengl yn y siart ar yr un pryd am dair wythnos ym mis Chwefror – 'Pam Fod Eira Yn Wyn' a 'Paentio'r Byd Yn Wyrdd'. Ymddangosodd dwy sengl gan Huw Jones hefyd yn wythnos olaf y mis. Yn ystod yr un cyfnod, ac yn groes i'r duedd hon, roedd *Top Ten* iaith Saesneg y papur yn cynnwys ugain artist, a dim ond un ohonynt, Al Green, a lwyddodd i gael mwy nag un record yn y siart yn yr un wythnos.

Mae sawl pwynt ychwanegol yn dod i'r amlwg. Fel y gwelir yn y Ffigwr blaenorol, nid oes llawer o symud, yn enwedig yn Ionawr a Chwefror, pan oedd y chwe record hyn yn cyfrif am bob safle ond tri o'r pum safle uchaf rhyngddynt. Hefyd, o'r recordiau uchod, y perfformiwr gwaethaf o bell ffordd oedd un o ddim ond dau record roc a gyrhaeddodd y Deg Uchaf ym mis Ionawr, 'Mae Rhywun Wedi Dwyn Fy Nhrwyn' gan Y Tebot Piws, sy'n diflannu o'r siart yn y Gwanwyn.

Mae'r anghysondeb hwn rhwng poblogrwydd bandiau roc ac artistiaid pop yn mynd yn fwy amlwg pan fo rhywun yn ystyried perfformiad recordiau gan y bandiau roc Galwad Y Mynydd, Y Mellt, a'r Tebot Piws yn Neg Uchaf y *Carmarthen Times* yn ystod 1972 (Ffigwr 8). Fel y gwelir, gwerthodd y recordiau yn gymharol wael; ni lwyddodd ymddangosiad Galwad Y Mynydd ar y sioe deledu *Disc a Dawn* yng nghanol Tachwedd, hyd yn oed, i anfon eu record yn ôl i mewn i'r pump uchaf, lle yr oedd wedi treulio tair wythnos yn gynharach yn y flwyddyn.

Mae deall pam y perfformiodd y recordiau hyn mor wael yn anodd. Mewn erthygl yn *Sŵn* tua diwedd 1972, mynegwyd y farn ei bod yn syndod gweld record Galwad Y Mynydd yn y siartiau pop o gwbl yn gynharach yn y flwyddyn, oherwydd diffyg ymgyrch gyhoeddusrwydd gan Recordiau Dryw, diffyg ymddangosiadau teledu, a methiant y gorsafoedd radio i chwarae'r record.³¹ Yn fwy cyffredinol, fodd bynnag, dichon fod gan arddull mwy rocaidd y bandiau rywbeth yn ymwneud â hynny. Mae'n wir bod cerddorion roc iaith Gymraeg ym 1972 yn parhau i wynebu rhwystrau sylweddol mewn byd pop Cymraeg a oedd yn cynnwys, yn bennaf, grwpiau harmoni clòs ac artistiaid acwstig.

³¹ *Sŵn* 4 (Hydref-Tachwedd 1972), t. 11. Gwnaethpwyd y sylw, fodd bynnag, mewn cysylltiad â siart *Y Cymro*.

Roedd yn rhaid iddynt hefyd wynebu honiadau cyson fod eu cerddoriaeth naill ai'n 'Anghymreig', yn swnllyd, o safon isel, neu fod yr artistiaid eu hunain yn amhroffesiynol. Ym 1971, er enghraifft, disgrifiodd Tudur Aled Davies ymddangosiad byw gan y Tebot Piws yn y termau canlynol:

... gallaf eich sicrhau imi glywed un o'r perfformiadau mwyaf gwael a di-ymdrech gan unrhyw grŵp pop Cymraeg erioed. Ni chredaf eu bod wedi cyrraedd diwedd unrhyw un o'r caneuon oherwydd y gwamalu a'r lol. Roeddwn yn teimlo dros y rhai a weithiodd yn galed i geisio gwneud noson lwyddiannus, a'r gynulleidfa yn gorfod dioddef y fath sothach.³²

Nid oedd y math hwn o sylw yn anarferol mewn rhai cylchoedd o fewn y gymdeithas Gymraeg; ac i bob Huw Evans, na cholodd ddim amser i ganmol bandiau roc megis Y Blew a'r Datguddiad mewn print, roedd yna lawer o sylwedyddion eraill a oedd yn fodlon ymosod ar yr arddull roc. Mae'n bosibl, felly, mai diffyg croeso i gerddoriaeth roc iaith Gymraeg ymhlith cefnogwyr cerddoriaeth Caerfyrddin a oedd yn cyfrif am berfformiad siart siomedig Y Tebot Piws a'u cyfoedion. Fodd bynnag, mae'n wir hefyd i 'Mae Rhywun Wedi Dwyn Fy Nhrwyn' dreulio wyth wythnos ar frig Deg Uchaf Y Cymro, gan gynnwys saith wythnos yn olynol ar rif un yn lonawr a Chwefror. Tasai'r cyhoedd Cymraeg yn gefnogol i'r record yn gyffredinol, mae'n annhebyg y byddai'r gynulleidfa cerddoriaeth boblogaidd yn ardal Caerfyrddin mor geidwadol â hynny, nac ar ôl ei hamser, o ran chwaeth cerddorol.

Yn hytrach, dichon fod modd egluro'r anghyfartaledd wrth nodi rhesymau daearyddol. O'r tair act a grybwyllwyd eisoes, yr un fwyaf llwyddiannus yn y siart o bell ffordd oedd Galwad Y Mynydd, a dreuliodd ryw 14 wythnos yn y Deg Uchaf. Roedd Galwad Y Mynydd yn bedwarawd o Gaerfyrddin, tra'r oedd tri aelod Y Tebot Piws yn hanu o'r gogledd, a'r llall o'r de, ac roedden nhw wedi'u lleoli nid yn Sir Gaerfyrddin, ond yng Nghaerdydd. Gall diffyg diddordeb mewn bandiau nad oeddent yn lleol hefyd egluro gwerthiant cymharol wael EP gyntaf y band Llanrwst Y Mellt, *Rhaid I Gymru Ddeffro*, yng Nghaerfyrddin.³³ Ar ôl ymddangos yn wythnos gyntaf Mehefin ar ôl ei rhyddhau y mis cynt, ni threuliodd y record ond chwe wythnos yn y siart, heb ddringo'n uwch na'r pumed safle; daeth ei hymddangosiad olaf tua diwedd mis Gorffennaf. Yn siart Y Cymro, ar y llaw arall, cyrhaeddodd yr EP y trydydd safle, ac roedd yn bresennol yn y Deg Uchaf yn barhaol tan wythnos Eisteddfod Genedlaethol Hwlfordd.

Deg Ucha' Yn Y Dre Yr Herald Cymraeg a'r Genedl

Astudiaeth achos olaf yr erthygl hon yw Deg Ucha' Yn Y Dre papur Yr Herald Cymraeg A'r Genedl o Gaernarfon. Yn hŷn na Deg Uchaf Y Cymro o ychydig fisoedd, mae'r siart hwn o ddiddordeb oherwydd ei fod yn dangos yr anghyfartaledd enfawr rhwng maint marchnadoedd recordiau iaith Saesneg ac iaith Gymraeg yng Nghymru, hyd yn oed

³² Y Cymro, 22 Rhagfyr 1971, t. 6.

³³ Roedd yna gynseilliau hanesyddol, hefyd, i syniad cysylltiedig – sef bod ymddangosiadau llwyfan lleol yn chwarae rôl bwysig yn y cyd-destun hwn. Mor bell yn ôl â 1967, sylweddolwyd bod gwerthiant sengl y Blew, 'Maes B', yn waeth yn y gogledd; priodolwyd hyn i'r ffaith nad oedd y band wedi chwarae cyngherddau yn y gogledd erioed. Y Cymro, 7 Rhagfyr 1967, t. 28.

mewn tref megis Caernarfon, a oedd wedi cofnodi canran uwch na 90 y cant o siaradwyr Cymraeg yng Nghyfrifiad 1971. Deilliodd y data a ddefnyddiwyd i greu'r siart o werthiant tair siop yn y dref, ac er na chyhoeddwyd y siart mor reolaidd â'r papurau eraill, ceir un siart ar hugain yn y cyfnod rhwng Ionawr a Mehefin 1972. I'r rheiny oedd yn gobeithio am niferoedd mawr o recordiau Cymraeg, byddai cynnwys y siart wedi bod yn siomedig dros ben (Ffigyrau 9 a 10): dim ond saith record iaith Gymraeg a ymddangosodd yn y siart, ac fel y gwelir, dim ond un – 'Mae Rhywun Wedi Dwyn Fy Nhrwyn' gan Y Tebot Piws – a gyrrhaeddodd y tri uchaf. Yn ogystal, o'r saith record, roedd pump yn y siart am bythefnos neu lai. Mae symudiadau'r ddwy arall, gan Y Tebot Piws a Hogia'r Wyddfa, i'w gweld yn Ffigwr 11; mae nodweddion amrywiol eu perfformiad yn dyst i wendid gwerthiant recordiau iaith Gymraeg yn y cyd-destun ehangach.

Diwedd glo

Yn yr un modd â chymaint o elfennau o'r byd pop Cymraeg, ymddangosodd siartiau pop ar gyfer cynulleidfaoedd iaith Gymraeg am eu bod yn gymorth i gyfiawnhau'r broses o greu eu cerddoriaeth. I ddyfynnu Parker, 'Ideology is as manifest in the pop charts as it is in more obviously political discourses; the power of signs is not only their ubiquity but also their resulting invisibility'. Yn wir, unwaith y sefydlwyd y Deg Uchaf, daeth y syniad, hefyd, yn rhan o gefndir pop iaith Gymraeg, fel petai; byddai gwrandawyr yn cyfeirio ato yn aml, ond ni fyddai ef yn tynnu sylw ond ar achlysuron prin. Adlewyrchodd gryfderau a gwendidau y byd pop Cymraeg yn gyffredinol. Pan ddechreuodd y sîn gerddorol ddirywio, fel y gwnaeth yn hwyr ym 1972, dioddefodd y siartiau gan ddifffyg symudiad, fel yr oedd William H. Owen yn gyflym i nodi:

Y drwg mwyaf erbyn hyn yw nad yw'r recordiau mor niferus ag yr oeddynt, ac nad oes gyflenwad (*sic*) misol o recordiau yn cyrraedd y siopau. Dair gwaith y flwyddyn y ceir cyflenwad, a hynny adeg yr Eisteddfod Genedlaethol, Gŵyl Dewi a'r Nadolig ac ambell un tua chyfnod Eisteddfod yr Urdd. Mae hyn yn cyfyngu gwaith y Deg Uchaf ac oherwydd nad yw nifer y recordiau a gyhoeddir yn ddigon helaeth, ceir undonedd yn y siart, â'r un recordiau i'w gweld ynddi heb lawer o amrywiaeth am gyfnodau maith.³⁴


Aeth y problem yn waeth cyn iddi ddod yn well; mor hwyr â diwedd 1973, roedd ysgrifenydd yn y cylchgrawn *Asbri* yn honni bod y Deg Uchaf yn ddi-werth ar ei ffurf bresennol.³⁵ Yn y diwedd, fodd bynnag, byddai'r Deg Uchaf yn goroesi hyd yn oed gyfnodau o ddirywiad fel yr un uchod, a hynny am reswm syml: rhoddodd hygyrdd i gerddoriaeth bop iaith Gymraeg mewn oes pan oedd dilyn y siartiau pop, o safbwynt cefnogwyr cerddoriaeth ifainc, nid yn unig yn ffasiynol – ond yn ffordd o fyw.

Diolchiadau


Hoffai'r awdur ddiolch i Mr Gwyn Griffiths a Mr William H. Owen, ac hefyd Mr Stephen Rees am ei sylwadau defnyddiol ar ddrafft cynharach o'r erthygl hon, yn ogystal â'r darllenwyr.

³⁴ William H. Owen, 'Deg Uchaf Y Cymro', *Asbri*, 19 (Gaeaf 1972), t. 6.


³⁵ *Asbri*, 22 (Hydref 1973), t. 14.



Ffigwr 1: Lleoliadau siopau a oedd yn cyfrannu at Ddeg Uchaf Y Cymro, 1969




Ffigwr 2




Ffigwr 3

Nifer yr wythnosau gyda record ar frig y siart




Ffigwr 4


Nifer yr wythnosau gyda record yn y 3 uchaf




Ffigwr 5




Ffigur 6: Symudiadau recordiau yn Neg Uchaf Y Cymro, Chwefror 1972




Ffigur 7: Symudiadau recordiau amrywiol yn Neg Uchaf Y Cymro, Ionawr-Mehefin 1972




Ffigwr 8: Symudiadau recordiau gan fandiau roc yn Neg Uchaf y Carmarthen Times, 1972



Ffigwr 9: Recordiau Cymraeg yn ôl safle siart yn Neg Uchaf Yr Herald Cymraeg a'r Genedl, Ionawr-Mehefin 1972



Ffigwr 10: Recordiau Cymraeg yn ôl amser a dreuliwyd yn y siart yn Neg Ucha' Y Dre', Yr Herald Cymraeg a'r Genedl, Ionawr-Mehefin 1972



Ffigwr 11: Symudiadau dwy gân yn Neg Ucha' Y Dre', Yr Herald Cymraeg a'r Genedl, Ionawr-Mehefin 1972

Gareth Watkins

**Gweithdrefnau cyfieithu'r
Ganolfan Gyfieithu
ar gyfer cyrff yr UE
a'u perthnasedd i Gymru**

Gwerddon

CYFNODOLYN ACADEMAIDD CYMRAEG

Golygydd Yr Athro Ioan Williams

Gweithdrefnau cyfieithu'r Ganolfan Gyfieithu ar gyfer cyrff yr UE a'u perthnasedd i Gymru.

Gareth Watkins

Wedi magu dealltwriaeth o theori maes technoleg cyfieithu trwy ennill MA mewn Cyfieithu a Thechnoleg Iaith ym Mhrifysgol Abertawe, a thrwy gynnal arolwg trylwyr o lenyddiaeth y maes, penderfynwyd mai ymchwilio'r ochr ymarferol fyddai'r cam nesaf wrth gynnal ymchwil ym Mhrifysgol Abertawe ar gyfer doethuriaeth ar dechnoleg cyfieithu yng nghydestun y Gymraeg. Er mwyn cynnal ymchwil ar yr ochr ymarferol, ac er mwyn llunio astudiaethau achos ar gyfer traethawd doethuriaeth, ymwelwyd â nifer o sefydliadau cyfieithu mawrion, yng Nghymru ac ar y cyfandir.

Ym mis Ebrill 2011, ymwelwyd â Gwasanaeth Cyfieithu Llywodraeth Cymru (GCLIC) yng Nghaerdydd ac yng Nghaerfyrddin. Yna, hefyd ym mis Ebrill 2011 ymwelwyd â gwasanaeth cyfieithu mewnol y Comisiwn Ewropeaidd, y Direction Générale de la Traduction (DGT), yn Lwcsembwrg. Ar ôl dychwelyd i Gymru, ymwelwyd â Gwasanaeth Cyfieithu Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym mis Mehefin 2011 ac Adran Gyfieithu Cyngor Gwynedd ym mis Hydref 2011. Teithiwyd yn ôl i Lwcsembwrg ym mis Chwefror 2012, y tro hwn er mwyn cwrdd â chyfieithwyr a rheolwyr o Adran Gyfieithu Senedd Ewrop a'r Centre de Traduction (CDT) - y Ganolfan Gyfieithu ar gyfer Cyrff yr UE.

Lluniwyd yr erthygl hon yn sgil y wybodaeth a gasglwyd wrth ymweld â'r sefydliadau hyn ac fel rhagarweiniad i'r astudiaethau achos yn y traethawd terfynol. Yn bennaf, dyma erthygl ddisgrifiadol. Diben yr erthygl, felly, yw darparu crynodeb neu hysbysu'r darllenwyr o'r dulliau a ddefnyddir yn y cyd-destun Ewropeaidd. Wrth drafod dulliau gweithredu'r CDT, fodd bynnag, sylwn ar elfennau y mae'n bosibl y gallent fod o gymorth i'n sefydliadau cyfieithu ni yng Nghymru. Trafodir perthnasedd y dulliau estron hyn i Gymru yn fyr ar ddiwedd yr erthygl.

Cyflwyniad i'r Undeb Ewropeaidd (UE)

Mae llawer o gyrff (megis yr Awdurdod Bancio Ewropeaidd neu Asiantaeth yr Amgylchedd Ewropeaidd) a sefydliadau (megis Senedd Ewrop a Banc Canolog Ewrop) yn perthyn i'r UE. Mae gan bob sefydliad ei wasanaethau cyfieithu ei hun, tra bod gwasanaethau cyfieithu yn cael eu darparu i'r cyrff gan y CDT.


Mae'r UE yn gweithredu'n amlieithog. Pennwyd pa ieithoedd a ddefnyddid yn y Gymuned Economaidd Ewropeaidd (EEC) gan Reoliad cyntaf y Cyngor ym 1958. Nododd y Rheoliad hwn y byddai rheoliadau a dogfennau eraill yn cael eu drafftio yn ieithoedd swyddogol yr Aelod-wladwriaethau. Ar yr adeg honno, roedd yr EEC yn cynnwys chwe Aelod-wladwriaeth Gwlad Belg, Ffrainc, yr Almaen, yr Eidal, Lwcsembwrg a'r Iseldiroedd. Almaeneg, Ffrangeg, Eidaleg ac Iseldireg oedd yr ieithoedd swyddogol, felly (Undeb Ewropeaidd, 2012). Bob tro y daeth gwlad newydd yn Aelod-wladwriaeth, diwygiwyd y Rheoliad er mwyn cynnwys iaith swyddogol y wlad newydd. Ar hyn o bryd mae gan y Comisiwn 23 o ieithoedd swyddogol (Y Comisiwn Ewropeaidd, 2012).

Yn ogystal, mae Erthygl 21 o'r Cytuniad (sef Treaty yn Saesneg) sy'n sefydlu'r Gymuned Ewropeaidd yn datgan bod gan bob un o ddinasyddion yr Aelod-wladwriaethau'r hawl i gysylltu â'r UE trwy gyfrwng unrhyw un o ieithoedd swyddogol yr UE, ac mae ganddynt hawl i gael ateb yn yr iaith honno (Y Comisiwn Ewropeaidd, 2002).

Mae cyfieithu, felly, yn hynod o bwysig i'r UE. Hebdo, ni fyddai modd i'r UE weithredu mewn ffordd amlieithog. Mewn gwirionedd, 'translation is at the core of the European project: it is a way to address EU citizens in their language and therefore to get the action taken for them closer and known to them all, wherever they live.' (Y Comisiwn Ewropeaidd, 2006).

Yn ogystal, darperir gwasanaeth cyfieithu er mwyn sicrhau bod dinasyddion yr UE yn gallu deall y deddfau y mae'n rhaid iddynt gydymffurfio â hwy. Gan fod deddfwriaeth yr UE yn effeithio ar bob dinesydd ac yn orfodol, nid yw ond yn naturiol i'r ddeddfwriaeth gael ei chyfieithu i'r holl ieithoedd swyddogol. Mae hefyd yn bwysig fod yr Aelod-wladwriaethau yn chwarae rhan lawn yng ngweithgareddau'r UE. Er enghraifft, cyn bod cyfraith newydd yn cael ei derbyn, creir papur gwyrdd a cheir ymgynghoriad cyhoeddus. Diben y papur gwyrdd yw nodi syniadau a chynigion y gyfraith newydd. Gall rhanddeiliaid (megis dinasyddion, undebau llafur neu gymdeithasau defnyddwyr) ysgrifennu at yr UE er mwyn cael dweud eu dweud ynghylch y cynigion yn eu hiaith swyddogol eu hunain. Bydd unrhyw lythyrau o'r fath yn cael eu cyfieithu fel y gall y rhai sy'n delio â'r cynnig ddeall y pwyntiau a gyflwynwyd gan y rhanddeiliaid.

Mewn gwirionedd, ar y cyfan, mae'r holl ddeddfwriaeth sy'n cael ei chynhyrchu gan yr UE yn tueddu i gael ei drafftio yn yr iaith Saesneg. Mae Ffig. 1 yn dangos mai Saesneg yw'r iaith a ddefnyddir fwyaf wrth i bobl ddrafftio deunyddiau sy'n cael eu cyfieithu gan y DGT, boed yn ddeunydd deddfwriaethol neu'n ddeunydd arall.



Ffigwr 1 – Tueddiadau iaith ddrafftio (cyfieithiad o ddarlun sydd ar gael yn y llyfryn 'Translating for a Multilingual Community' (DGT, 2009a))

Yn y gorffennol, Ffrangeg oedd yr iaith a ddefnyddid fwyaf wrth ddrafftio dogfennau. Fodd bynnag, yn dilyn cyfnod ehangu ym 1995, pan ddaeth y Ffindir, Sweden ac Awstria yn Aelod-wladwriaethau, defnyddiwyd mwy o Saesneg. Yn dilyn cyfnod ehangu yn 2004, ymunodd hyd yn oed fwy o wledydd â'r UE - gwledydd a oedd, yn draddodiadol, yn dysgu mwy o Saesneg na Ffrangeg yn eu hysgolion.

Erbyn 2010, roedd tua 75 y cant o'r deunyddiau a gyfieithid yn cael eu cyfieithu o'r Saesneg, tua 10 y cant o'r Ffrangeg, a'r 15 y cant a oedd yn weddill o'r ieithoedd swyddogol eraill (Verleysen, 2010).

Mae cyfieithu'r holl ddeddfwriaeth i'r holl ieithoedd swyddogol eraill yn angenrheidiol ac yn orfodol. Fel arfer, dim ond y ddeddfwriaeth a'r dogfennau polisi pwysig sy'n cael eu cyfieithu i bob un o ieithoedd swyddogol yr UE.

Mae gan bob un o sefydliadau'r UE ei adran gyfieithu unigol ei hun. Fodd bynnag, mae llawer o'r offer technolegol, ynghyd a'r adnoddau megis termiaduron, a ddefnyddir yn rhyng-sefydliadol. Mae pob sefydliad yn defnyddio offer 'Cyfieithu A Thechnoleg' (Computer Aided Translation yn Saesneg, neu offer CAT fel y'u gelwir o hyn ymlaen).

Yn ôl Bwrdd yr Iaith Gymraeg (2009), CAT yw'r 'term ehangaf a ddefnyddir i ddisgrifio rhaglenni technoleg gyfrifiadurol sy'n awtomeiddio neu'n cynorthwyo'r dasg o gyfieithu o un iaith i'r llall'.

Mynnai Pym (2011) na ddylid defnyddio'r term CAT bellach, gan ddadlau 'since computers are involved in almost all translation jobs ... (t)he term should be replaced by clear reference to the technologies actually involved'. Efallai bod Pym yn llygaid ei le, ond go brin y daw defnydd y term i'w derbyn, gan fod ganddo'r fath fomentwm ledled y byd. CAT, felly, yw'r term y glynir ato yn yr erthygl hon.

Rhestra Prys et al. (2009) nifer o wahanol fathau o CAT, gan gynnwys, ond nid yn gyfyngedig i, wirwyr sillafu a gramadeg, offer terminoleg a chofion cyfieithu. Yn ôl Jones et al. (2008), 'Such tools are seen as essential aids in the international translation industry, aiding productivity, quality control and management of documents and projects.'

Wrth gwrs mae rhai o'r adnoddau hyn (gwirwyr sillafu, er enghraifft) yn ddefnyddiol i bobl nad ydynt yn gyfieithwyr, tra bod eraill (cof cyfieithu, er enghraifft) wedi eu creu yn uniongyrchol at ddefnydd cyfieithwyr.

O ran yr ymchwil PhD y mae'r astudiaeth achos hon yn rhan ohono mae cofion cyfieithu yn allweddol. Yn wir, un o brif amcanion yr ymchwil yw creu metrig sy'n galluogi cyfieithwyr i werthuso neu gloriannu'r feddalwedd drostyn nhw eu hunain. Rhaglen sy'n cynorthwyo cyfieithwyr dynol drwy, ymysg pethau eraill, gadw brawddegau'r testun gwreiddiol ynghyd â brawddegau'r testun targed ar ffurf 'uned gyfieithu' mewn cronfa ddigidol ydyw cof cyfieithu. Trwy wneud hyn, gall yr uned gyfieithu gael ei hailddefnyddio wrth gyfieithu dogfennau tebyg, neu wrth ddiweddarau dogfen, neu pan ailadroddir brawddegau o fewn yr un ddogfen.

Pan fydd cyfieithydd yn mynd ati i gyfieithu darn newydd gyda'r feddalwedd, mae'r offeryn CAT yn mynd ati i rannu'r darn yn segmentau (gan amlaf ar lefel y frawddeg). Pan gyflwynir brawddeg newydd i'r offeryn CAT, bydd yr offeryn yn chwilio'r cof am ddeunydd

cyfatebol sydd eisoes wedi ei gyfieithu. Os nad oes cyfatebiaeth uniongyrchol yn bodoli, bydd yr offer CAT yn dychwelyd brawddegau tebyg (fuzzy matches yn Saesneg), ac yn ceisio nodi pa mor debyg yw'r brawddegau a awgrymwyd trwy aseinio ffigwr ar ffurf canran.

Yn yr enghraifft a welir yn Ffig. 2, mae meddalwedd CAT SDL Trados Studio 2009 wedi awgrymu 'The school is organised into 11 classes, four of whom are Welsh medium classes', a'i chyfieithiad 'Rhennir yr ysgol yn 11 dosbarth, pedwar ohonynt yn ddosbarthiadau cyfrwng Cymraeg,' fel brawddeg sy'n debyg i 'The school is organised into 13 classes, five of which are Welsh-medium and eight English-medium'. Mae SDL Trados Studio 2009 yn honni bod y frawddeg awgrymedig yn addas achos bod 75 y cant¹ o'r deunydd yn y frawddeg Saesneg a awgrymwyd yn debyg i'r frawddeg Saesneg newydd. Tanlinella Studio 2009 y gwahaniaethau. Gall y cyfieithydd naill ai defnyddio, neu addasu, neu anwybyddu'r cyfieithiad a awgrymir yn llwyr.



Ffigwr 2 - SDL Trados Studio 2009 ar waith

Os nad yw'r frawddeg neu frawddegau tebyg yn bodoli yn y cof bydd y cyfieithydd yn cyfieithu'r frawddeg o'r newydd. Wedi i'r cyfieithydd orffen cyfieithu'r frawddeg, mae'r offeryn CAT yn cadw'r frawddeg newydd a'i chyfieithiad fel uned gyfieithu yn y cof er mwyn i'r cyfieithydd gael ei hailddefnyddio yn y dyfodol.

Mae gweithredu yn y modd hwn yn cynnig manteision i'r cyfieithydd o ran cysondeb ac effeithlonrwydd. Yn ôl Andrews (2012) 'TMs improve consistency in translation and increase productivity, leading to the additional benefit of cost saving.'

Adeg yr ymweliad â'r CDT, Trados Translator's Workbench (TWB fel y'i gelwir o hyn ymlaen) oedd yr offeryn CAT a ddefnyddiwyd ganddynt. Mae adrannau cyfieithu'r UE wedi defnyddio'r rhaglen hon ers 1996. Yn 2009 daeth y cytundeb rhwng yr UE a Trados i'w ben. Roedd gan yr UE hawl i ddefnyddio'r feddalwedd o hyd, ond nid oedd ganddynt hawl i dderbyn diweddariadau i'r feddalwedd. Yn 2010, rhyddhawyd gwahoddiad i dendro ar gyfer cytundeb darparu offer CAT newydd. Tua diwedd y flwyddyn 2012, wedi i gyfnod tendro hirwyntog a phroblemus ddirwyn i'w ben, enillwyd y cytundeb gan SDL Trados. Disgwylir y bydd fersiwn diweddaraaf SDL Trados, sef Studio 2011, yn cael ei roi ar waith yn gynnar yn y flwyddyn 2013.

¹ Dylid nodi mai SDL Trados yn unig sy'n gwybod sut yn union y mae cyrraedd at y ffigwr hwn, mae gan bob cwmni sy'n darparu meddalwedd cof ei ddull cyfrifo tebygrwydd ei hun, ac mae'r dulliau hyn yn gyfrinachol.

Mae sefydliadau'r UE yn defnyddio llawer mwy o offer technolegol er mwyn helpu'r cyfieithwyr. Trafodir rhai ohonynt isod yn yr erthygl hon.

Y Centre de Traduction (CDT)

Sefydlwyd y Centre de Traduction (CDT) ym 1994 gan Reoliad Cyngor er mwyn darparu ar gyfer anghenion cyfieithu cynyddol yr asiantaethau Ewropeaidd a sefydlwyd eisoes (CDT, 2012a). Ers 1994, mae rhestr cleientiaid y CDT wedi tyfu i 58 o asiantaethau a sefydliadau (mae'r CDT yn darparu cyfieithu ar gyfer y sefydliadau Ewropeaidd yn ystod cynnodau brig). Pan fo asiantaethau newydd yn cael eu creu gan Reoliad Cyngor, mae'n orfodol eu bod yn defnyddio'r CDT ar gyfer eu hanghenion cyfieithu. Mae'r asiantaethau a sefydlwyd cyn 1994 yn rhydd i ddewis pa gwmni cyfieithu bynnag y maent am ei ddefnyddio, ond yn gyffredinol maent yn defnyddio'r CDT.

Ymwelwyd â'r CDT rhwng 13 a 17 Chwefror, 2012. Yn dilyn cwrs ymsefydlu byr (yr un math o gwrs ag y byddai cyflogai newydd yn ei ddilyn) gyda'r Pennaeth Seilwaith a Grŵp Diogelwch, Didier Marchesin, cafwyd cyflwyniad rhagarweiniol a throsolwg o'r CDT gan Anikó Eipl o'r Adran Gyfathrebu a Chysylltiadau Allanol.

Cynhaliwyd cyfweiliadau gyda Denis Dechandon, Pennaeth Adran Cymorth Iaith a Thechnoleg (LTS), ynghyd ag aelodau o bob ffin o fewn LTS.

Cynhaliwyd cyfweiliad â Tamara Ferlușcă, Pennaeth y Grŵp Ieithoedd Româns ac Ieithoedd Môr y Canoldir, a hefyd Nadine, cyfieithydd Ffrangeg, a Sandra, cyfieithydd Saesneg.

Ar y diwrnod olaf, cynhaliwyd cyfweiliad â Jacky Nazac, Pennaeth yr Adran Rheoli Galw (DMS) ynghyd â chyfarfod anffurfiol gydag Anikó Eipl a Thierry Fontenelle, Pennaeth Materion Cyffredinol CDT.

Yr Adran Gyfieithu

Mae cyfieithwyr CDT yn cael eu rhannu'n bedwar grŵp iaith, grwpiau sy'n seiliedig yn bennaf, ond nid yn hollol, ar deuluoedd iaith. Mae'r grwpiau'n cael eu rhannu ymhellach yn dimau iaith. Wrth benderfynu ar nifer y cyfieithwyr ym mhob ffin ystyrir faint o waith y mae'r ffin yn ei dderbyn. Mae'r rhan fwyaf o'r timau iaith yn cynnwys pedwar cyfieithydd. Fodd bynnag, ceir saith o gyfieithwyr yn y ffin Ffrangeg, chwech yn y Sbaeneg a'r Eidaleg, saith yn yr Almaeneg a saith yn y Saesneg, gydag un ohonynt yn cyfieithu ac yn prawfddarlennu Gwyddeleg yn ogystal â Saesneg.

Ni threfnir y timau yn hierarchaidd. Ceir pennaeth grŵp iaith ond nid oes pennaeth ffin yn bod.

Mae cyfieithwyr yn cyfieithu, yn brawf ddarlennu, ac mewn rhai timau'n golygu testunau ffynhonnell. Yn ogystal â hyn, mae gan gyfieithwyr dasgau cydlynau. Mae yna Gydlynnydd Terminoleg ym mhob ffin, sy'n ymdrin yn bennaf â materion terminoleg, sydd weithiau yn derbyn prosiectau terminoleg, ac sy'n darparu atebion i gwestiynau terminolegol a ofynnir gan gyfieithwyr llawrydd. Mae'r Cydlynnydd Terminoleg yn cydlynu'r gwaith hwn, ond mae pob cyfieithydd mewnol yn gwneud ei ymchwil derminoleg ei hun.

Ceir Cydlynnydd Ansawdd, sy'n gyfrifol am yr holl gwestiynau sy'n ymwneud â materion ansawdd nad ydynt yn benodol yn gysylltiedig â'r cleient. Mae'r Cydlynnydd Ansawdd hefyd yn gyfrifol am ddrafftio a diweddarau cyfarwyddiadau ar gyfer gweithwyr llawrydd er mwyn iddynt gydymffurfio â chyfarwyddiadau'r tîm iaith cyfan ac er mwyn lleihau baich cyffredinol y gwaith adolygu drwy sicrhau safon ansawdd benodol.

Ceir dau gydlynnydd CAT ym mhob grŵp iaith – cyfieithwyr sydd â sgiliau technegol uwch na'r arfer.

Mae cleientiaid yn cael eu trefnu yn grwpiau thematig. Mae Cydlynnydd Cleientiaid, sy'n cysylltu â'r cleientiaid pan fydd problemau ieithyddol yn codi â'r testun gwreiddiol, yn bod ar gyfer pob grŵp thematig. Mae'r Cydlynwyr Cleientiaid yn derbyn ymholiadau gan gyfieithwyr yn electronig trwy feddalwedd llif gwaith y CDT.

Dwy uned sy'n gweithio'n agos gyda'r adran gyfieithu ac sy'n ei chefnogi yw'r DMS a'r LTS. Rhennir LTS yn chwech o dimau, y Tîm Offer CAT, y Tîm Terminoleg, y Tîm Deunydd Cyfeirio, y Tîm Technegol, y Tîm Cydlynu a'r Tîm Llyfrgell.

Mae timau LTS yn cefnogi cyfieithwyr drwy gydol y broses gyfieithu, ond hefyd yn trefnu sesiynau hyfforddi i gryfhau sgiliau cyfieithwyr a drafftwyr.

Flwyddyn ar ôl blwyddyn, mae dros 50 y cant² o'r deunyddiau a dderbynnir i'w cyfieithu yn cael eu hanfon at gyfieithwyr allanol. Gan y rhoir cymaint o flaenoriaeth i ansawdd, mae cyfran fawr o amser y cyfieithwyr yn cael ei neilltuo ar gyfer adolygu. Serch hyn, mae'r CDT yn cyfieithu nifer sylweddol o ddogfennau'n fewnol – nid yw hi'n wir, felly, fod cymhlethdod y dasg o gyfieithu 23 o ieithoedd yn llai o gwbl na'r hyn a wynebir gan y sefydliadau Ewropeaidd eraill.

Y Broses Gyfieithu

Mae porth cleientiaid wedi ei ddatblygu fel bod modd i bob un o'r 58 o asiantaethau wneud cais am gyfieithiad.

Mae pedwar cam i'r llif gwaith, cyn-brosesu, cyfieithu, prosesu canol ac ôl-brosesu.

Cyn gynted ag y cyflwynir y cais gan y cleient drwy'r porth cleient, mae DMS a Thîm Cydlynu'r LTS yn gweld y cais tua'r un pryd yn Flosys (rhaglen llif gwaith electronig y CDT).

Mae'r DMS yn gwirio ochr weinyddol y cais.

Mae'r Tîm Cydlynu yn gwirio cyfarwyddiadau'r cleientiaid ac yn cofrestru'r dyddiad cau. Maent yn darllen y ddogfen ac yn penderfynu a oes angen iddynt farcio terminoleg yn y ddogfen ai peidio. Os felly, maent yn defnyddio macro arbennig sy'n cymharu'r ddogfen â rhestr eirfa/terminoleg ac yn marcio'r terminoleg yn y ddogfen ei hun yn awtomatig. Mae'r cydlynnydd yn sicrhau nad oes unrhyw broblemau o ran fformatio. Pan fydd problemau megis fformatio anghyson yn dod i'r amlwg, neu pan na fydd tabl cynnwys yn

² 54.01 y cant yn 2007, 59.03 y cant yn 2008, 55.7 y cant yn 2009, 54.7 y cant yn 2010 a 61 y cant yn 2011 (CDT, 2012c)

gweithio'n iawn, mae'r Tîm Technegol yn trin y dogfennau ac yn eu trwsio. Mae'n bwysig datrys y materion fformatio technegol hyn cyn i'r ddogfen gael ei chyfieithu. Fel arall, bydd yn rhaid trwsio'r broblem ym mhob dogfen iaith darged.

Mae gan sefydliadau'r UE offeryn rhyng-sefydliadol arall o'r enw Euramis (European Advanced Multilingual Information System).

Storfa enfawr o'r cofion a grëwyd wrth gyfieithu pob un o'r dogfennau trwy ddefnyddio TWB, ynghyd â'r cofion sydd wedi eu creu o'r holl ddogfennau cyfeirio sydd wedi eu halinio, yw Euramis. Ceir ynddo bron 200 miliwn o frawddegau, hynny yw tua 50 miliwn o frawddegau iaith ffynhonnell ynghyd â thua 150 miliwn o frawddegau iaith darged (DGT, 2011).

Pan fo angen cyfieithu dogfen newydd, mae modd adalw hen unedau cyfieithu drwy wneud cais at Euramis. Gall y defnyddiwr naill ai gofyn i Euramis greu ffeil TMX (Translation Memory Exchange yn Saesneg, sef fformat ffeil a grëwyd at ddiben hwyluso rhannu cofion) a'i he-bostio atynt er mwyn iddynt ei mewngludo i'r cof lleol, neu gallant wneud cais am ddogfen Word, lle mae brawddegau'r testun newydd yn cael eu disodli gan god lliw sy'n dangos lefel y gyfatebiaeth o fewn unedau neu gofion Euramis, allbwn y gall weithio 'as a visual aid for decision-makers'. Mae'n dangos 'how much text is actually new and which tools would it be best to use for a given document' (DGT, 2009b).

Yn ogystal, mae gan Euramis offeryn alinio, sy'n galluogi aelod staff i alinio dogfennau cyfeirio dwyieithog neu ddogfennau nad ydynt wedi eu cyfieithu trwy ddefnyddio TWB er mwyn iddynt greu cof cyfieithu.

Yn seiliedig ar ganlyniadau Euramis (a ddarperir gan y Tîm Cydlynu) a dogfennau cyfeirio (a ddarperir gan y Tîm Deunydd Cyfeirio), mae'r Tîm Cydlynu yn hysbysu DMS am y posibilrwydd o greu cof ar gyfer y prosiect. Mae'r Tîm Deunydd Cyfeirio yn chwilio am ddogfennau cyfeirio a allai fod o gymorth i'r cyfieithwyr ar yr un pryd (a thrwy gydol y broses nes bo'r cyfieithydd yn derbyn y gwaith yn Flosys). Hyd yn oed pan fo'r cwsmer yn anfon dogfennau cyfeirio, mae'r Tîm Cyfeirio Deunydd yn chwilio am ddogfennau ychwanegol er mwyn darparu rhagor o gymorth i'r cyfieithydd.

Yna, mae'r DMS yn delio â'r cais ac yn penderfynu p'un ai y mae am ddefnyddio cyfieithydd allanol neu ddefnyddio cyfieithwyr y CDT.

Mae'r DMS hefyd yn penderfynu a oes digon o amser i droi dogfennau PDF yn ddogfennau y mae modd eu golygu ai peidio (yn achos dogfennau ffynhonnell hir iawn), ac yn penderfynu a oes digon o amser i alinio dogfennau cyfeirio sydd wedi eu darparu gan y cleient neu'r Tîm Deunydd Cyfeirio er mwyn creu cof ai peidio. Gall cleientiaid fynnu bod cyfieithiad newydd yn cael ei seilio ar ddogfennau sydd eisoes yn bod. Yn amlwg, mae dogfennau o'r fath ar eu mwyafrif defnyddiol ar ffurf cof – bydd brawddegau yn cael eu harddangos yn awtomatig lle bo'n briodol, felly nid oes rhaid chwilio'r dogfennau cyfeirio am destun sydd wedi ei gyfieithu o'r blaen. Fodd bynnag, os penderfynir nad oes digon o amser i greu cof, mae'n rhaid i'r cyfieithydd ddarllen y dogfennau cyfeirio a chyfieithu heb gymorth cof. (D.S. Mae gan y cyfieithwyr yr opsiwn i ddefnyddio cof, beth bynnag, ond ni fyddai'r deunydd cyfeirio yn y cof).

Os penderfynir bod amser i greu cof, mae'r Tîm CAT yn paratoi'r cof ar gyfer y cyfieithydd trwy lawrlwytho deunydd o Euramis neu drwy ddefnyddio offeryn alinio Euramis.

Mae gan y CDT nifer o gofion, un sy'n cynnwys deunydd cyffredinol, rhai sy'n cael eu defnyddio at bwrpas cyfieithu deunydd gan gleiant penodol, a rhai sy'n cael eu defnyddio at bwrpas cyfieithu parth penodol. Pan fo'r deunydd cyfeirio yn cael ei alinio neu pan fo deunydd yn cael ei lawrlwytho o Euramis, mae'r ffeiliau TMX a grëir gan y broses yn cael eu mewngludo i un o'r cofion hyn, neu i gof prosiect. Yna, mae'r cyfieithwyr yn medru defnyddio'r cof yn uniongyrchol.

Mae rhai o'r cofion mewnol yn fawr iawn ac mae angen eu haildrefnu bob tri diwrnod. Mae gan y cof cyffredinol dros 300,000 o unedau cyfieithu ynddo. Yn ffodus, gan mai ond pedwar o gyfieithwyr sydd yn y rhelyw o dimau iaith, nid yw maint y cof yn arafu TWB. Fel arfer nid yw'r cyfieithwyr yn gweithio yn yr un un cof.

Os oes angen newid y ddogfen i fformat y mae modd ei olygu, mae'r Tîm Technegol yn defnyddio'r feddalwedd adnabod nodau gweledol (Optical Character Recognition yn Saesneg) sydd ar weinyddwyr y Comisiwn (yn bennaf). Yn aml, fodd bynnag, nid yw'r allbwn o ansawdd da. Yn ddibynnol ar yr amser sydd ar gael, gall DMS ddewis allanoli dogfennau PDF heb unrhyw addasu fformat neu gyn-fformatio, a gadael i'r asiantaeth gyfieithu neu'r cyfieithydd llawrydd ddelio â'r agwedd hon.

Mae'r rheolwr dogfen yn aseinio'r ddogfen i gyfieithydd drwy Flosys pan fydd y cyfnod cyn-brosesu wedi ei gwblhau, fan bellaf. Ar y pwynt hwn, mae'r gwaith yn ymddangos yn rhestr tasgau'r cyfieithydd yn Flosys ac mae e-bost yn cael ei anfon at y cyfieithydd yn awtomatig gan Flosys er mwyn ei hysbysu bod tasg newydd wedi ei gosod iddo ef neu iddi hi. Mae'n rhaid i'r cyfieithwyr aildrefnu eu gwaith yn gyson, yn unol â dyddiad cwblhau'r dogfennau yn Flosys.

Wrth i'r cyfieithydd agor y cais, mae'n medru mynd at sgrin gwaith Flosys (gweler Ffig. 3). Pan fod defnyddio TWB wedi ei adnabod yn orfodol gan DMS (yn ystod y cyn-brosesu gweinyddol), mae Flosys yn agor TWB yn awtomatig wrth i'r cyfieithydd agor y testun. Boed yn orfodol neu beidio, gall cyfieithwyr ddefnyddio TWB trwy Flosys ar unrhyw adeg. Yn gyffredinol, hyd yn oed os nad yw cof yn ofynnol gan DMS, neu os nad oes brawddegau neu unedau llawn ar gael yn y cof, bydd y cyfieithydd yn agor TWB er mwyn medru defnyddio nodwedd fynegeio'r rhaglen (Concordance yn Saesneg), sy'n galluogi'r cyfieithydd i chwilio'r cof am eiriau unigol neu ymadroddion o fewn y brawddegau a gedwir yn y cof – hynny yw, er mwyn chwilio'r cof ar lefel is na'r frawddeg.

Mae rhestr o'r holl gyfieithwyr sy'n gweithio ar y ddogfen yn y gwahanol ieithoedd ar gael trwy Flosys. Os oes gan y cyfieithydd gwestiwn ynghylch y testun ffynhonnell, gall y cyfieithydd gyfathrebu â'r sawl sy'n gweithio ar y ddogfen drwy ddefnyddio'r tab 'Collation Forum' yn Flosys. Er enghraifft, os yw cyfieithydd yn darganfod camgymeriad yn y testun gwreiddiol, gallant roi gwybod i bawb arall trwy anfon neges yn Flosys. Os oes ganddynt gwestiwn am y gwreiddiol, maent yn creu neges sy'n cynnwys y Cydlynnydd Cleientiaid, sy'n anfon neges at y cleientiaid eu hunain.

Fel arfer mae'r cyfieithwyr mewnol yn cyfieithu dogfennau byrion, dogfennau cyfrinachol a dogfennau brys. Os nad ydynt yn gyfrinachol, anfonir dogfennau hwy neu ddogfennau arbenigol iawn at gyfieithwyr allanol fel arfer. Mae pob dogfen sydd wedi ei chyfieithu'n allanol yn cael eu hadolygu yn fewnol. Mae tri math o adolygu yn bod, adolygiad trylwyr (lle darllenir y ddogfen wreiddiol a'r cyfieithiad ar yr un pryd), adolygiad syml (dim ond y

DEADLINE: 19/08/2010 12:00:00
FREELANCE MANAGEMENT SECTION TO BE INFORMED OF QUALITY PROBLEMS BY: 24/08/2010
 page(s): 40
 Priority: Urgent
 observations in case T-299/10

To Do
 Orig
 TWB Cleanup

Update

Close
 Refresh
 Help

...isation completed, returned to requester

JOB INFO	REFERENCES	COLLATION FORUM	SUPPORT	COMPLETE JOB
Purpose Working document Assigned on: 09/08/2010 11:16:44 Instructions / Comments from ▶ DMS to CdT translation staff: (...)	TWB is not required but you may use it Open TWB with GENERAL memory			
▶ Freelance translators to CdT: (...)				
▶ Client coordinators to CdT translation staff (...)				
▶ CdT to Freelance translators (Bordereau de route):				
▶ Related documents (...)				

Ffigwr 3 - Sgrin gwaith Flosys (CDT, 2012b)

cyfieithiad sy'n cael ei ddarllen, ond mae'n bosibl cyfeirio at y testun gwreiddiol os oes unrhyw amheuaeth ynglŷn ag ansawdd) a hapwiriadau (ar gyfer dogfennau llai pwysig, neu pan fo'r amser yn brin, neu os gofynnir amdanynt gan y DMS).

Yn ogystal, mae gwiriad croes yn orfodol ar gyfer rhai dogfennau sydd wedi eu cyfieithu'n fewnol. Mae adolygu gwaith mewnol yn wirfoddol, hynny yw, nid yw'r gwaith yn cael ei neilltuo i berson penodol. Mae'r cyfieithydd yn gofyn am wiriad (trwy wasgu botwm neilltuo), yna mae pob un o'i gydweithwyr yn derbyn neges e-bost. Bydd pwysu bynnag sydd ar gael yn cyflawni'r gwiriad croes.

Yn dilyn gwiriad croes neu adolygiad, mae'r ddogfen yn cael ei hanfon at y Tîm Technegol, sy'n sicrhau nad oes gwallau fformatio yn bodoli, yna fe'i hanfonir at y cleient ynghyd â ffurflen bodlonrwydd cleient er mwyn i'r cleient ddarparu adborth.

Dyma sefydliad sydd yn sicr yn elwa trwy ddefnyddio technoleg iaith a thechnoleg yn gyffredinol.

Mae tasgau a fyddai fel arfer yn cael eu cwblhau gan gyfieithwyr, megis ymdrin â fformatau na ellir eu golygu, creu cofion a chwilio am ddogfennau cyfeirio, yn cael eu trin yn bennaf cyn bod y cyfieithydd hyd yn oed yn ymwybodol bod cais am gyfieithiad wedi ei dderbyn.

Mae'r defnydd o dechnoleg hefyd yn hwyluso cyfathrebu rhwng y cyfieithwyr a'r gwahanol lwybrau cefnogaeth. Mae'r cyfieithwyr yn teimlo eu bod yn derbyn cefnogaeth

arbennig o dda cyn, ac yn ystod y broses cyfieithu. Mae'r llif gwaith a'r dechnoleg yn caniatáu i'r cyfieithwyr wneud yr hyn maent yn ei wneud yn dda – hynny yw, cyfieithu.

Wrth gwrs mae'r lefel hon o gefnogaeth yn cymryd amser. Weithiau gwneir penderfyniad i beidio â darparu cymorth technolegol penodol o ganlyniad i amserlenni tynn. Teimlai'r tîm LTS y byddai lefel uwch o awtomeiddio yn eu cynorthwyo yn hyn o beth.

Deunyddiau Cyfieithu

Gan fod y rhan fwyaf o'r deunyddiau a gyflwynwyd ar gyfer cyfieithu yn cael eu cyflwyno trwy'r porth cleient, mae'r rhan fwyaf o geisiadau cyfieithu yn cael eu derbyn yn electronig. Gall dogfennau cyfrinachol gael eu trosglwyddo drwy ddulliau amgen, fodd bynnag.

Amcangyfrifir bod 80 y cant o ddogfennau yn rhai fformat Word, a'r gweddill yn gymysgedd o html, xml, PDF, InDesign, Excel a Visio.

Mae'r Tîm Technegol yn trosi ffeiliau html i fformat TTX os yw'r ffeil yn ffeil html safonol. Os yw'r ffeil yn un ansafonol yna bydd y Tîm Offer CAT yn delio ag ef – mae ganddynt raglen sydd wedi ei datblygu'n fewnol sy'n trosi ffeiliau ansafonol i fformat TTX. Ar ôl i'r ffeil gael ei throï'n ffeil TTX, mae'r cyfieithydd yn gallu cyfieithu'r darn trwy ddefnyddio Trados TagEditor, sef rhaglen sy'n rhan o gyfres meddalwedd Trados ac sy'n cael ei defnyddio at bwrpas cyfieithu ffeiliau, megis ffeiliau html, sydd â thagiâu ynddynt, hynny yw dogfennau sy'n cynnwys cod arbennig sydd, er enghraifft, yn rhoi strwythur neu nodweddion fformat i'r testun yn y ffeil.

Mae delweddau sy'n cynnwys testun ynddynt yn cael eu derbyn weithiau; weithiau mae'n well gan gleientiaid dderbyn testun mewn tabl wedi iddo gael ei gyfieithu. Fodd bynnag, weithiau mae'r cleientiaid eisiau i'r ddelwedd ei hun gael ei golygu.

Targedau

Mae disgwyl i'r CDT ddychwelyd 99 y cant o ddogfennau erbyn y dyddiad cau. Mae hyn yn anodd weithiau, ond mae'n darged sy'n cael ei gyflawni.

Mae cyflawni'r targed yn cael ei hwyluso gan fod y CDT yn defnyddio dull graddio. Cytunodd Bwrdd Rheoli'r CDT, mewn trafodaethau rhwng cleientiaid a phenaethiaid adrannau, y gall dogfennau gael eu hystyried yn rhai 'ar frys mawr', 'ar frys', 'normal', 'wedi eu trefnu ymlaen llaw' neu'n 'araf'. Cytunwyd ar amserlenni, terfynau nifer y tudalennau, a phrisiau ar gyfer y categorïau hyn. Pan fydd cleient yn anfon cais, rhaid eu bod yn parchu'r cyfyngiadau hyn. Pan nad oes adnoddau ar gael i gwrdd â'r terfyn amser, er bod CDT yn gwneud eu gorau glas i barchu terfynau amser, gall y DMS negodi gyda'r cleient.

Mae cyflawni'r targed yn cael ei hwyluso ymhellach am fod CDT wedi creu dogfen er mwyn helpu drafftswyr wrth iddynt ddrafftio dogfennau. Yn y ddogfen, mae'r CDT yn cynghori, er enghraifft, y dylai awdur 'make sentence structure unambiguous' 'use plain words' a 'Give the translator background information' (Piehl et al., 2010)

Technoleg iaith ar waith yn y CDT

Cyfieithu Peirianyddol

Ar hyn o bryd, nid yw'r CDT yn defnyddio offer cyfieithu peirianyddol o gwbl. Mae cynlluniau ar y gweill, fodd bynnag, i gymryd rhan mewn gweithgareddau profi system gyfieithu beirianyddol erbyn diwedd 2012.

Terminoleg

Mae'r CDT yn medru defnyddio IATE, sy'n gronfa derminoleg enfawr, ryng-sefydliadol. Mae modd i'r cyhoedd gael ddefnyddio IATE trwy bori <http://iate.europa.eu>, ond mae gan gyfieithwyr yr UE ryngwyneb sy'n wahanol i'r hyn sydd ar gael gan y cyhoedd – rhyngwyneb sy'n hwyluso gweinyddu'r gronfa.

Cynhelir IATE gan nifer fawr o derminolegwyr sydd wedi eu lleoli yn y gwahanol sefydliadau. Mae'r terminolegwyr yn gyfrifol am ddod o hyd i ddiffiniadau ar gyfer termau neu am greu diffiniadau o'r newydd. Mae'r termau yn aml iawn yn ymdrin â chysyniadau sydd naill ai ar flaen y gad, neu'n dermau maes cymharol newydd. Yn aml, wrth adeiladu diffiniad, y cyd-destun yw'r man cychwyn ac mae'n rhaid i'r terminolegwyr ddarganfod yr hyn y mae'r awdur yn ei ddisgrifio.

Mae gan Trados ei feddalwedd derminoleg ei hun o'r enw Multiterm, ac mae'r feddalwedd hon yn gallu siarad â TWB, yn gallu chwilio am dermau o'r gronfa yn y frawddeg wreiddiol, ac yn galluogi cyfieithydd i fewnosod y term iaith darged yn syth yn y frawddeg. Yn anffodus, nid yw IATE yn siarad â Multiterm, felly nid oes cyfathrebu yn bod rhwng IATE a TWB. Nid yw'r cyfieithwyr, felly, yn defnyddio Multiterm. Ac eithrio'r macro y soniwyd amdano uchod, nid oes unrhyw ryngweithio uniongyrchol rhwng offer y cyfieithwyr a chronfa dermau.

Cof Cyfieithu

Mae'r rhan fwyaf o fformatau y gellir eu golygu yn cael eu cyfieithu gan ddefnyddio TWB. Nid oes modd i'r cyfieithwyr, fodd bynnag, ddefnyddio TWB gydag ambell fformat. Ni ellir trin fformat Visio, er enghraifft, gyda TWB na TagEditor.

Yn gyffredinol, y cyfieithydd sy'n penderfynu p'un ai y dylid defnyddio TWB ai peidio.

Mae'r cyfieithwyr yn gallu anfon adborth i holl dimau'r LTS. Er enghraifft, pan fydd anawsterau yn codi â'r cof, anfonir adborth at y Tîm Offer CAT – weithiau mae cyfieithwyr yn cwyno gan nad oedd modd defnyddio TWB oherwydd bod segment yn gwrthod agor, neu fod ganddynt broblemau gyda'r broses lanhau (lle, ymysg pethau eraill, mae unrhyw godau anweledig sydd wedi eu gosod yn y ddogfen gan TWB ynghyd â'r testun ffynhonnell yn cael eu glanhau o'r ddogfen er mwyn creu dogfen iaith darged). Yn gyffredinol nid yw'r cyfieithwyr yn anfon adborth pan fyddant yn fodlon ar y feddalwedd. Maent fel arfer yn anfon adborth pan fydd rhywbeth o'i le (er bod adborth negyddol wastad wedi bod yn is nag 1 y cant y mis). Rhyngweithiad rhwng Microsoft Office a TWB yw'r problem fel arfer, yn hytrach na chwynion am TWB ei hun fel y cyfryw.

Yn gyffredinol, mae agweddau tuag at gofion cyfieithu yn ymddangos yn gadarnhaol, er bod cyfyngiadau'r dechnoleg yn cael eu cydnabod. Mae defnyddioldeb cof yn dibynnu ar y deunydd sy'n cael ei gyfieithu a hefyd y deunydd sydd y tu mewn i'r cof. Mae'r adran sy'n cyfieithu i'r Saesneg ar ei cholled yn hyn o beth. Mae'r tîm iaith Saesneg yn cyfieithu nifer fawr o ddeunyddiau nad ydynt o reidrwydd yn cael eu cynorthwyo gan y broses o chwilio cof am frawddegau cyfatebol llawn, maent yn cyfieithu llawer o lythyrau a dderbynnir gan y cyhoedd, er enghraifft. Fodd bynnag, mae rhai o swyddogaethau TWB (e.e. y swyddogaeth fynegeo) yn gallu bod yn ddefnyddiol waeth beth sy'n cael ei gyfieithu. Ar y llaw arall mae rhai tîmau yn y CDT sy'n gweithio gyda TWB 90 y cant o'r amser.

Safbwynt Pennaeth y Grŵp leithoedd Románs ac leithoedd Môr y Canoldir oedd bod cofion cyfieithu yn ddefnyddiol iawn. Fel y nodwyd eisoes, mae gan y CDT 58 o gleientiaid. Mae'n rhaid iddynt sicrhau cysondeb o un ddogfen i'r llall ar gyfer pob cleient. Bellach, diolch i'r cof, gall y cyfieithwyr ddefnyddio'r un eirfa, yr un derminoleg, ac aildefnyddio cyfieithiadau cyfan. Mae nifer o'r dogfennau a dderbynnir yn fersiynau newydd o ddogfennau hŷn; felly mae rhannau pwysig yn cael eu hailadrodd.

Roedd un cyfieithydd yn teimlo bod y cof yn gysur iddi oherwydd gallai fod yn hyderus bod y derminoleg yn gywir.

Mae'r cyfieithwyr yn cyflawni llawer o waith adolygu, gwaith nad yw'n addas ar gyfer cof yn draddodiadol oni bai bod y bitext³ ar gael. Fodd bynnag, mae tuedd i gael TWB yn agored yn y cefndir beth bynnag, fel y gall y cyfieithydd ddefnyddio'r nodwedd fynegeo wrth adolygu.

Perthnasedd Hyn i Gymru

Yng Nghymru, yn gyffredinol ceir agwedd bositif at offer CAT, ar lefel sefydliadol ac ar lefel academiaidd o leiaf.

Mae ymchwil yn y maes yn fyw ac yn gryf. Yn gymharol ddiweddar, yn 2010, gorffennodd Dr Tegau Andrews ei doethuriaeth ym Mhrifysgol Bangor, hithau hefyd yn edrych ar ddefnydd CAT yng Nghymru a gweddill y byd, ond yn canolbwyntio'n benodol ar leoleiddio gwefannau. Yn ôl Dr Andrews ei hun, 'Early in 2006 a doctoral research project began at Bangor University on the main issues surrounding the localizing of websites for the Welsh-language market as well as the global market' (Andrews, 2012).

Mae Uned Technolegau Iaith Canolfan Bedwyr, ers cryn amser, bellach, wedi bod yn ymchwilio i'r maes ac wedi dwyn nifer o brosiectau perthnasol i ffrwythlondeb.⁴

Er nad ydynt yn bodoli bellach, bu Bwrdd yr Iaith Gymraeg (ac yn benodol Uned Ymchwil, Technoleg Iaith a Grantiau'r Bwrdd) yn canu clodydd y dechnoleg yn frwd ac yn

³ Testun iaith ffynhonnell sydd wedi ei gysylltu â'i gyfieithiad, ond sydd heb ei alinio, fel y cyfryw. Yn ôl Gow (2004), 'The principle difference between a database of aligned segments and a bitext is that in the latter case, the entire text remains intact'

⁴ Prosiectau sy'n rhy niferus i'w nodi yn y fan hon mewn unrhyw fanylder, ond dylai'r darlennydd gyfeirio at <http://www.bangor.ac.uk/canolfanbedwyr/index.php.cy> er mwyn cael trosolwg o waith Canolfan Bedwyr.

cyhoeddi cofion cyfieithu ar ffurf TMX er mwyn i gyfieithwyr Cymru ddefnyddio cronfa'r Bwrdd.⁵

Gallwn ragweld pwyslais cynyddol ar dechnoleg yn sgil y Prosiect Rhannu Adnoddau Cyfieithu Cymraeg, prosiect a gafodd 'ei sefydlu i ymchwilio i sut mae sefydliadau'r sector cyhoeddus yng Nghymru yn cydweithio ar hyn o bryd neu sut y gallent gydweithio i ddarparu gwasanaethau cyfieithu Cymraeg yn y dyfodol (...) Bydd y prosiect hefyd yn edrych am arbedion posibl o ran costau ac yn hybu effeithlonrwydd' (Llywodraeth Cymru, 2012a).

Mae'n ymddangos bod gan academia a'r Sefydliad ill dau ffydd yn y dechnoleg. Gwelwn wrth astudio'r CDT fod y dechnoleg yn sicr yn gweithio pan y'i ddefnyddir gyda thestunau priodol. Ond ai'r ffaith bod y dechnoleg yn gweithio ac, yn ddefnyddiol, yw'r unig reswm dros yr agwedd bositif hon yng Nghymru?

Mae'r Cymry erioed wedi magu agwedd bositif at dechnoleg. Gweler yr ymgyrchu hir a fu dros glywed yr iaith Gymraeg ar y radio (yn ôl John Davies (1992), dyma un o'r brwydrau pwysicaf dros yr iaith Gymraeg). Gweler y gweithredu a'r aberth a fu dros 30 mlynedd yn ôl wrth i Gymry mynnu cael sianel deledu Cymraeg.⁶ Gweler hefyd Cymry yn mynnu cael Facebook Cymraeg⁷ ac yna yn cyfrannu at gyfieithu Facebook, ynghyd â Llywodraeth Cymru yn nodi ei bod yn bwriadu 'Parhau i ddiweddar Strategaeth a Chynllun Gweithredu ar gyfer TGCh a'r Gymraeg, a fydd yn cynnwys pwyslais ar rôl gynyddol bwysig y cyfryngau cymdeithasol' (Llywodraeth Cymru, 2012b).

Yn sicr ceir manteision i ddefnyddio cof, o ran effeithlonrwydd a chysondeb. Ond efallai mai'r agwedd bositif a'r berthynas agos hwn rhwng y Gymraeg a thechnoleg sydd wrth wraidd, neu sy'n cyfrannu at yr agwedd bositif tuag at y dechnoleg sydd dan ystyriaeth yn yr erthygl hon.

Er bod yr agwedd bositif yn bodoli ar lefel academaidd a llywodraethol, mae'n ymddangos bod defnydd y dechnoleg ar lefel cyfieithwyr unigol yn gymharol isel. Tynna Prys et al. sylw at y pwynt hwn gan gyfeirio at grwpiau ffocws a drefnwyd fel rhan o'r prosiect 'Gwell offer technoleg cyfieithu ar gyfer y Diwydiant Cyfieithu yng Nghymru'. Yn ôl Prys et al., 'dywedodd llai na 50 y cant o'r rhai a oedd yn bresennol (yn) y grwpiau ffocws eu bod yn defnyddio meddalwedd cof cyfieithu' (Prys et al., 2009). Cyfeiria Prys et al. hefyd at arolwg Andrews, gan nodi mai dim ond 47 y cant o atebwyr ei harolwg hithau o gyfieithwyr Cymraeg oedd yn defnyddio meddalwedd cof.

Noda Prys et al. (Ibid.) fod y ffigyrau hyn yn is o lawer na ffigyrau arolwg Lagoudaki (2006), sy'n nodi bod 82.5 y cant o atebwyr ei harolwg rhyngwladol yn defnyddio meddalwedd cof.

⁵ Gweler <http://www.byig-wlb.org.uk/Cymraeg/newyddion/Pages/COFiwcheichcyfieithiadauCymraeg.aspx>

⁶ Mae'n wir bod y Cymry Cymraeg a oedd yn mynnu cael gwasanaeth radio a theledu Cymraeg yn credu mai bygythiad i'r iaith oedd y radio a'r teledu, gan fod y mwyafrif helaeth o'r darllediadau yn rhai iaith Saesneg. Ond dyma nhw'n ymateb yn bositif i'r technolegau hyn ac yn ceisio eu mabwysiadu er budd yr iaith Gymraeg.

⁷ Yn 2007 crëwyd grŵp Facebook o'r enw 'Facebook Cymraeg? Welsh Language Facebook?' gan unigolion a oedd eisiau defnyddio'r rhwydwaith cymdeithasol trwy gyfrwng y Gymraeg (Cunliffe, 2007).

Ers adroddiad Prys et al., mae'r nifer ymhlith cyfieithwyr Cymraeg sy'n defnyddio meddalwedd cof wedi cynyddu rhywfaint, gyda 54 y cant yn defnyddio'r feddalwedd yn 2010 (Watkins, 2010) a 56 y cant yn defnyddio'r feddalwedd yn 2012 (Watkins, 2012). Serch hyn, mae cryn wahaniaeth rhwng ffigyrau Cymru a ffigyrau rhyngwladol yn bodoli o hyd.

Ond sut y defnyddir y dechnoleg yng Nghymru lle y'i defnyddir? At ddiben cymharu'r cyddestun rhyngwladol a'r un lleol, ymwelwyd â Gwasanaeth Cyfieithu Llywodraeth Cymru (GCLIC) ym mis Ebrill 2011.

Ceir nifer o nodweddion tebyg rhwng y CDT a'r GCLIC. Fel CDT, mae GCLIC yn defnyddio meddalwedd CAT, ond Déjà Vu X (DVX), nid TWB, a defnyddir gan GCLIC. Fel CDT mae GCLIC yn defnyddio sawl cof, gyda chofion y GCLIC wedi eu rhannu fesul parth (e.e. ceir un cof at ddefnydd cyfieithu testunau sy'n ymwneud â ffermio, un at yr amgylchedd ayyb). Yn y gorffennol, defnyddiwyd un cof enfawr gan y GCLIC, ond, gan fod mwy o ddeunydd i'w chwilio mewn cof enfawr, roedd y feddalwedd yn dechrau arafu. Penderfynwyd, felly, mai cynnal nifer o gofion llai fyddai orau. Gan fod system ffeilio gyfrifiadurol y GCLIC wedi ei rhannu fesul parth, roedd ond yn synhwyrol i rannu'r cofion yn yr un modd.

Mae meddalwedd CAT yn caniatáu i ddefnyddwyr gyrchu sawl cof ar y tro, ac yn eu galluogi i ddefnyddio'r cofion hyn fel rhai darllen yn unig. Dyma'r dechneg y mae cyfieithwyr y GCLIC yn ei defnyddio. Mae'n bosibl bod deunydd sydd yng nghof Materion Cefn Gwlad, er enghraifft, yn ogystal â'r cof Ffermio, yn addas at gyfieithu testun parth ffermio. Mae'r cyfieithwyr yn ychwanegu eu cofion personol hefyd. Wrth gyfieithu, yn y cof personol yn unig y cedwir y cyfieithiadau newydd. Ni ddiwedderir cof y parth penodol mwyaf priodol nes diwedd y broses, hynny yw nes y crëir y cyfieithiad gorffenedig, di-wall. Trwy weithredu yn y modd hwn, ni lygrrir y prif gofion gan wallau.

Roedd agweddau tuag at gofion cyfieithu yn gymysg yn y GCLIC, yr un fath â'r adrannau cyfieithu Ewropeaidd yr ymwelwyd â nhw. Un anfantais o DVX yw bod yn rhaid i ddogfen gael ei chadw fel ffeil rtf cyn ei chyfieithu. Fel arall, weithiau nid yw swyddogaeth allgludo'r rhaglen yn gweithio. (Nid yw hyn o reidrwydd yn wir am bob gosodiad o DVX ar bob cyfrifiadur wrth gwrs. Mae'n bosibl bod rhyw raglen arall ar gyfrifiaduron GCLIC yn effeithio ar y broses.) Yn ogystal â hyn, mae'n rhaid tynnu 'Tagiau Clyfar' Microsoft Word oddi ar y ddogfen. Fel arall bydd DVX yn torri'r segment, er enghraifft, cyn ac ar ôl enwau lleoedd.

Roedd rhai o'r farn, felly, bod bwydo testunau i'r cof a dewis pa un o'r amryw gofion i'w defnyddio yn cymryd gormod o amser, yn enwedig gan nad oes sicrwydd bod y cof yn mynd i awgrymu unrhyw frawddegau (fel gydag adrannau cyfieithu'r UE, wrth gyfieithu llythyrau nid oes llawer o ddeunydd cyfatebol yn bodoli yn y cofion). Serch hyn, mae rhai o'r cyfieithwyr yn defnyddio'r cof bob tro wrth iddynt gyfieithu dogfen. Cydnabuwyd bod cofion yn well ar gyfer mathau penodol o waith.

Adeg yr ymweliad roedd y gwasanaeth yn paratoi ar gyfer rhoi system llif gwaith newydd electronig ar waith, ac yn dechrau ar y gwaith hwnnw, gan ddefnyddio pecyn rheoli llif gwaith newydd o'r enw LTC Worx. Yn y gorffennol roedd system bapur ar waith. Roedd ffin gweinyddol y gwasanaeth cyfieithu cyffredinol yn derbyn cais gan gleient, yn dilyn y wybodaeth a oedd ynghlwm wrth y cais ac yn nodi manylion y cais ar raglen olrhain ceisiadau. Cadwyd y testun newydd yn y ffolder electronig perthnasol.

Argraffwyd y ddogfen a'r ffurflen gais ac fe'u gosodwyd mewn system o golomendyllau, gyda phob blwch yn cynrychioli diwrnod o'r wythnos. Gosodwyd darnau mwy o faint ar ben y pentyrrau yn y colomendyllau unigol er mwyn iddynt gael eu trin yn gynt.

Roedd rhestr o enwau cyfieithwyr yr adran yn cael ei chadw ynghyd â chofnod o'u llwyth gwaith ar gyfer yr wythnos honno. Roedd y Rheolwr Cyflwyno Gwasanaeth yn monitro'r colomendyllau, yn monitro rhestr waith y cyfieithwyr unigol, ac yn dyrannu gwaith yn briodol.

Wrth droi at y llif gwaith newydd, rhagwelir na fydd cymaint o faich gwaith ar y gweinyddwyr, gyda LTC Worx yn rhyddhau mwy o'u hamser. Rhagwelir y gall gweinyddwyr ddelio â thasgau cyn-cyfieithu, er nad oedd manylion penodol ar gael adeg yr ymweliad.

Fodd bynnag, gall llif gwaith fel yr un a ddefnyddir gan y CDT fod o fudd i'r GCLIC. Gallai gweinyddwyr berfformio tasgau fel fformatio dogfennau neu leoli ac alinio deunyddiau cyfeirio, neu greu cofion perthnasol ar gyfer testunau newydd a chyn-cyfieithu. Gallai gweinyddwyr greu prosiectau DVX a'u cadw ar weinydd y mae gan bawb yn y GCLIC fynediad iddo. Yna bydd modd i'r cyfieithwyr agor y prosiect a dechrau cyfieithu heb ofidio am unrhyw beth arall. Yn wir, gan fod y rhan fwyaf o'r pryderon ynghylch defnyddio cof cyfieithu yn y GCLIC yn tarddu yn ôl pob golwg o'r amser a gymerir i baratoi'r ddogfen cyn hyd yn oed dechrau cyfieithu go iawn gyda DVX, gall y gwasanaeth elwa'n fawr wrth ddefnyddio system felly.

Gallai'r broblem ynghylch dewis cof penodol gael ei datrys pe bai rhaglen megis Euramis yn cael ei gweithredu i chwilio holl wahanol gofion y GCLIC a darparu adroddiad ar faint o'r ddogfen newydd sydd wedi ei chyfieithu eisoes.⁸ Hyd yn oed os na ellid creu ffeil TMX o'r holl segmentau perthnasol yn awtomatig gan y system, byddai'r cyfieithydd o leiaf yn gwybod pa gofion sy'n gweddu orau i'r dasg dan sylw. Byddai hyn nid yn unig yn arbed amser wrth benderfynu pa gofion i'w defnyddio ond byddai hefyd yn arwain at chwilio'r gronfa ddata yn gyflymach.

Pe bai'r tasgau hyn yn cael eu cyflawni gan weinyddwyr, byddai rhai o'r rhwystrau rhag defnyddio cof yn diflannu. Byddai hyn yn arwain at gofion parth penodol mwy o faint, a allai arwain at fwy o gynigion gan y cof a mwy o derminoleg parth-penodol neu eirfa drwy nodwedd fynegeo'r feddalwedd.

Os arbedir amser, yna rhyddheir cyfieithwyr i gyflawni tasgau eraill. Yn wir, yn ystod cynhadledd Technoleg Cyfieithu a'r Economi Ddigidol ym Mangor ym mis Chwefror 2011, dywedodd Alun Ffred Jones, Gweinidog Llywodraeth Cymru dros Dreftadaeth, ei fod yn rhagweld y byddai'r defnydd o dechnoleg yn rhyddhau arbenigedd cyfieithydd i gael ei ddefnyddio mewn gweithgareddau amgen.

Pan fydd y broses gyfieithu yn cael ei gwneud mor effeithlon ag y bo modd, yr unig ffordd i wella effeithlonrwydd yw ceisio dylanwadu ar y broses ddrafftio neu ar y dogfennau sy'n cael eu derbyn ar gyfer cyfieithu.

⁸ Nid dyma'r unig ffordd y gall Euramis fod o fudd i Gymru. Yn 2003, nodwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru (2003) yn y Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Cymru Ddwylieithog – *Iaith Pawb*, fod Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn gweithio ar greu cof cyfieithu cenedlaethol. Er bod y Bwrdd wedi cyhoeddi nifer o'i gofion ar ffurf TMX, nid oes yr un cof cenedlaethol wedi ei greu hyd yn hyn, ac nid oes yr un sôn amdano yn *Iaith Fyw: Iaith Byw*. Serch hyn, os yw cof cyfieithu cenedlaethol yn dal i fod ar yr agenda neu'n mynd i fodoli ryw ddydd, yna dylai'r rhai sy'n mynd i'w weithredu astudio Euramis mewn mwy o fanylder fel man cychwyn.

Ar adeg yr ymweliad â'r DGT, roedd cynllun ar raddfa fach o'r enw 'Cynllun Cyfieithydd Arweiniol' (Lead Translator Scheme yn Saesneg) ar waith. Gyda'r cynllun hwn, roedd cyfieithydd yn rhan o'r broses ddrafftio. Byddai'r cyfieithydd yn dechrau myfyrio ar y materion cyfieithu ar yr adeg honno, ac o bosibl yn dechrau effeithio ar y broses ddrafftio. Gallent awgrymu, er enghraifft, fod modd drafftio brawddeg mewn ffordd arbennig er mwyn ei gwneud yn haws i'w chyfieithu i ieithoedd eraill. Roedd y DGs, y Directorate Generals, yn eithaf hoff o'r syniad, ac yn awyddus i'w weithredu, ond nid oedd yn glir a fyddai'r cynllun yn llwyddiant. Roedd yn ymddangos bod y rhai oedd yn drafftio dogfennau fel arfer am gael cyfieithydd a oedd yn siarad Saesneg fel mamiaith. Ond yr unedau iaith eraill fyddai, yn y pen draw, yn cyfieithu'r dogfennau am fod dogfennau yn bennaf yn cael eu drafftio yn y Saesneg. Oherwydd hyn, credai rhai y byddai'r cynllun yn aflwyddiannus. Nid yw hynny'n golygu y byddai cynllun tebyg yn aflwyddiannus yng Nghymru, gyda'i model iaith symlach.

I ryw raddau mae system o'r fath eisoes yn bodoli, o leiaf yn y llif gwaith deddfwriaethol. Ar ôl derbyn drafft cychwynnol, gall y cyfieithydd ailrafod geiriad y Saesneg er mwyn helpu'r broses o baratoi'r testun Cymraeg. Nid yw hyn, fodd bynnag, yn rhywbeth sy'n cael ei wneud fel mater o drefn, gan fod y cyfyngiadau amser a osodir gan amserlenni tynn yn rhwystro.

Heblaw am y gost weithredu, nid oes unrhyw reswm pam na all meddalwedd cof Awduro⁹ (Authoring Memory yn Saesneg) gael ei hychwanegu at gynllun sy'n debyg i'r Cynllun Cyfieithydd Arweiniol. Yna, gellid ecsbloetio profiad cyfieithu'r cyfieithydd a phrofiad y cyfieithwyr o ddefnyddio technoleg neu eu dealltwriaeth o gofion ill dau yn ystod y broses ddrafftio. Dylid nodi, fodd bynnag, bod system sy'n gwneud rhywbeth tebyg i feddalwedd cof awduro wedi ei hystyried yn fyr eisoes ar gyfer drafftio testunau cyfreithiol, ond ni chafodd ei gweithredu.

Gallai cyfeirio at ganllaw ysgrifennu gan awduron arwain at destunau llai amwys. Gallai testunau sy'n gliriach fod o gymorth i'r cyfieithwyr. Unwaith eto, mae'r Uned Gyfieithu Ddeddfwriaethol yn ymddangos fel pe bai un cam ar y blaen yn hyn o beth; mae canllawiau drafftio dwyieithog deddfwriaethol helaeth wedi cael eu cynhyrchu gan Swyddfa Cwnsleriaid Ddeddfwriaethol Cymru ar y cyd â'r Uned Gyfieithu Ddeddfwriaethol. Ar hyn o bryd nid yw'r rhain ar gael i'r cyhoedd, fodd bynnag. Y bwriad yw cyhoeddi canllawiau ar y rhyngwrwyd yn y dyfodol agos.

Hyd yn oed pe bai Cynllun Cyfieithydd Arweiniol yn amhriodol yng nghyd-destun Cymru, gellid defnyddio arbenigedd cyfieithwyr wrth lunio canllawiau ar gyfer drafftio dogfennau

⁹ Rhaglen sy'n gweithio fel cof cyfieithu ond sy'n cael ei defnyddio wrth greu deunydd newydd yn yr iaith wreiddiol yw cof awduro yn ei hanfod. Wrth i awdur deipio testun newydd mae'r rhaglen yn chwilio'r cof am frawddegau sydd wedi eu teipio eisoes ac yn cynnig y rhain i'r awdur er mwyn galluogi'r awdur osgoi gorfod aildeipio'r frawddeg yn ei chyfanrwydd. Mae'n gweithio fel tecstio rhagfynegol neu decstio darogan (predictive texting yn Saesneg), i ryw raddau, ond bod modd i'r rhaglen awgrymu brawddegau ac ymadroddion cyfan yn ogystal â geiriau unigol. Mae'n rhaid bod deunydd yn y cof cyn bod y cof awduro yn ddefnyddiol, yr un fath â chof cyfieithu. Mae'n bosibl defnyddio'r deunydd a grëwyd wrth gyfieithu a chof cyfieithu er mwyn bwydo'r cof awduro, wrth wneud hyn mae modd sicrhau cysondeb ac effeithlonrwydd nid yn unig wrth awduro ond wrth gyfieithu'r ddogfen newydd – mae'r awdur yn gwybod bod y deunydd eisoes wedi ei gyfieithu. Mae SDL Trados Global Authoring Management System a Logos Authoring Memory ill dau yn enghreifftiau o raglenni o'r fath.

mwy cyffredin. Gan mai'r cyfieithwyr yw'r rhai sydd â phrofiad o gyfieithu byddent yn allweddol wrth benderfynu'r canllawiau priodol. Yn anffodus, nid yw cadarnhau p'un ai yw cynllun o'r fath yn bodoli ai peidio wedi bod yn bosibl.

Geirfa

Term	Acronym/ talfyriad	Diffiniad
Adran Cymorth Iaith a Thechnoleg	LTS	Adran o fewn y CDT sy'n darparu cefnogaeth i'r cyfieithwyr. Rhennir LTS yn chwech o dimau, y Tîm Offer CAT, y Tîm Terminoleg, y Tîm Deunydd Cyfeirio, y Tîm Technegol, y Tîm Cydlynu a'r Tîm Llyfrgell.
Adran Rheoli Galw	DMS	Adran o fewn y CDT sy'n darparu cefnogaeth i'r cyfieithwyr. Mae'r DMS yn ymwneud ag ochr weinyddol ceisiadau gan gleientiaid ac yn dyrannu gwaith yn ôl llwyth gwaith y CDT.
Aelod-wladwriaethau		Gwladwriaeth sy'n aelod o'r UE.
Bitext		Testun iaith ffynhonnell sydd wedi ei gysylltu â'i gyfieithiad.
Centre de Traduction	CDT	Corff sy'n darparu gwasanaethau cyfieithu i gyrff yr UE.
Cof Awduro		Rhaglen sy'n gweithio fel cof cyfieithu ond sy'n cael ei defnyddio wrth greu deunydd newydd yn yr iaith wreiddiol yw cof awduro yn ei hanfod. Wrth i awdur deipio testun newydd mae'r rhaglen yn chwilio'r cof am frawddegau sydd wedi eu teipio eisoes ac yn cynnig y rhain i'r awdur er mwyn galluogi'r awdur osgoi gorfod aildeipio'r frawddeg yn ei chyfarwydd. Mae'n bosibl ystyried cof awduro yn ffurf soffistigedig tu hwnt ar decstio darogan a ddefnyddir gan ffôn symudol.
cof cyfieithu/cof		Math o raglen CAT sy'n 'cofio' hen gyfieithiadau trwy eu cadw ar ffurf unedau cyfieithu mewn cronfa data ac yn eu hawgrymu i gyfieithwyr pan fo'n briodol. Gall y term gyfeirio at gronfa unedau cyfieithu hefyd.
Concordance		Swyddogaeth o fewn cofion cyfieithu sy'n galluogi i'r cyfieithydd chwilio'r cof am eiriau neu ymadroddion unigol.
Cyfieithu A Thechnoleg	CAT	Rhaglen gyfrifiadurol sy'n ddefnyddiol at bwrpas cyfieithu.
Déjà Vu X	DVX	Offeryn CAT a ddefnyddir gan wasanaeth cyfieithu Llywodraeth Cymru.

Direction Générale de la Traduction	DGT	Rhennir y Comisiwn Ewropeaidd yn nifer o gyfarwyddiaethau. Mae'r DGT yn un ohonynt – adran gyfieithu fewnol y Comisiwn Ewropeaidd ydyw.
Euramis		Storfa enfawr o'r cofion a grëwyd wrth gyfieithu pob un o'r dogfennau trwy ddefnyddio TWB, ynghyd â'r holl ddogfennau cyfeirio sydd wedi eu halinio.
Flosys		Meddalwedd rheoli llif gwaith y CDT.
fuzzy matches		Awgrymiadau gan y cof nad ydynt yn cyfateb yn union neu'n 100 y cant i'r frawddeg ffynhonnell newydd, ond sydd â chanran o elfennau sy'n debyg i'r frawddeg ffynhonnell newydd ynddyn nhw.
Gwasanaeth Cyfieithu Llywodraeth Cymru	GCLIC	Adran o fewn Llywodraeth Cymru sy'n darparu gwasanaethau cyfieithu testun, cyfieithu deddfwriaethol, gwirio testun, golygu, prawfddarllen a chyfieithu ar y pryd i adrannau'r Llywodraeth.
Ffeil TTX		Math o ffeil ddwyieithog – un y mae modd ei hagor neu sy'n cael ei chreu wrth ddefnyddio Trados TagEditor.
InterActive Terminology for Europe	IATE	Cronfa dermau amlieithog yr UE.
LTC Worx		Meddalwedd rheoli llif gwaith cyfieithu.
macro		Set o gyfarwyddiadau cyfrifiadurol o fewn MS Office sy'n caniatáu i ddefnyddwyr awtomeiddio tasgau ailadroddus trwy wasgu allwedd frys neu eicon.
Meddalwedd adnabod nodau gweledol	OCR	Meddalwedd sy'n 'darllen' ffeil nad yw mewn ffurf y mae modd ei golygu ac sydd yna yn ceisio creu testun y mae modd ei olygu ac sy'n ystyrlon.
Multiterm		Rhaglen rheoli termau SDL Trados.
offeryn alinio		Rhaglen sy'n caniatáu i ddefnyddwyr alinio testunau iaith ffynhonnell a thestunau iaith darged er mwyn creu cof o ddogfen neu ddogfennau sydd wedi eu cyfieithu heb gof. Noder bod yn rhaid i'r dogfennau fod yn rhai ar ffurf electronig y mae modd eu golygu er mwyn eu halinio.
segment		Un o'r darnau o destun y mae'r cof cyfieithu yn rhannu'r prif destun sydd i'w gyfieithu iddo. Gan amlaf rhennir y testun yn segmentau ar lefel y frawddeg – mae'r cof yn dechrau segment newydd wedi iddo daro ar draws atalnod llawn, felly, ond mae modd i'r cyfieithydd newid ac ychwanegu at reolau'r cof a gofyn iddo rannu'r testun ar ôl, dywed, colon neu hanner colon.

Swyddfa Cwnsleriaid Deddfwriaethol		Swyddfa sy'n drafftio cyfreithiau Cymru.
TagEditor		Rhaglen a oedd yn rhan o gyfres meddalwedd Trados hyd at 2009. Defnyddir TagEditor at bwrpas cyfieithu ffeiliau, megis ffeiliau html, sydd â thagiau ynddynt.
Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu	TGCh	Maes eithaf eang sy'n cynnwys technoleg gyfrifiadurol a chyfathrebu, meddalwedd, caledwedd, data a defnyddwyr y dechnoleg.
Trados		Cwmni sydd wedi bod wrthi'n cynhyrchu meddalwedd CAT ers 1988 (ac wedi bod yn darparu gwasanaethau cyfieithu ers 1984). Yn 2005, prynwyd Trados gan gwmni arall o'r enw SDL. Bellach, felly, gelwir y cwmni yn SDL Trados.
Trados Translator's Workbench	TWB	Meddalwedd cof cyfieithu a gynhyrchwyd gan Trados hyd at 2007.
Translation Memory eXchange	TMX	Fformat ffeil a grëwyd at bwrpas hwyluso rhannu cofion cyfieithu.
Undeb Ewropeaidd	UE	Esbyliad o'r EEC yw'r UE. Wrth sôn am yr EEC, dywed yr UE ei hun: 'What began as a purely economic union has evolved into an organisation spanning policy areas, from development aid to environment. A name change from the EEC to the European Union (EU) in 1993 reflected this.' (Undeb Ewropeaidd, 2013).
Uned Gyfieithu		Brawddeg iaith ffynhonnell ynghyd â brawddeg iaith darged a gedwir ynghlwm yn y cof cyfieithu.
Y Comisiwn Ewropeaidd		Sefydliad, yw'r Comisiwn Ewropeaidd, sy'n cynnig deddfwriaeth newydd i Senedd Ewrop ac i Gyngor yr Undeb Ewropeaidd. Yn ogystal, mae'r Comisiwn Ewropeaidd yn sicrhau bod Aelod Wladwriaethau'r UE yn rhoi cyfraith Ewrop ar waith.
Y Gymuned Economaidd Ewropeaidd	EEC	Dyma sefydliad a grëwyd yn sgil y rhyfel byd cyntaf a'r ail ryfel byd, ei nod oedd '(c)reu marchnad gyffredin lle gellid symud nwyddau, gwasanaethau, cyfalaf a llafur yn rhydd' (Llywodraeth Cymru, 2006), hwn at bwrpas osgoi gwrthdaro rhwng aelodau (Undeb Ewropeaidd, 2013).

Llyfryddiaeth

Andrews, Tegau (2012), 'Approaches to Website Localization: An Overview from a Welsh Perspective', *Contemporary Wales*, 25 (1), tt. 204-27

Bwrdd yr Iaith Gymraeg (2009), 'COFiwch eich cyfieithiadau Cymraeg'

<http://www.byig-wlb.org.uk/Cymraeg/newyddion/Pages/COFiwcheichcyfieithiadauCymraeg.aspx> (Cyrchwyd 16 Mai 2011).

CDT (2012a), 'Presentation', <http://cdt.europa.eu/EN/whoweare/Pages/Presentation.aspx> (Cyrchwyd 23 Mawrth 2012).

CDT (2012b), 'Translation', <http://cdt.europa.eu/EN/whatwedo/Pages/Translation.aspx> (Cyrchwyd 23 Mawrth 2012).

CDT (2012c), 'Activity Report of the Translation Centre 2011': http://cdt.europa.eu/CDT%20Documents/Activity%20report%202011%20%28analyse%20et%20appr%C3%A9ciation%20du%20CA%29/CT-CA_002%202012_01_RA2011_et%20analyse_EN.pdf

Y Comisiwn Ewropeaidd (2002), 'Consolidated Version Of The Treaty Establishing The European Community', http://www.frontex.europa.eu/assets/Legal_basis/12002E_EN.pdf (Cyrchwyd 15 Ebrill 2012).

Y Comisiwn Ewropeaidd (2006), *Translation in the Commission Responding to the Challenges in 2007 and Beyond* (Brwsel: Y Comisiwn Ewropeaidd).

Y Comisiwn Ewropeaidd (2012), 'European Commission - Official EU languages', http://ec.europa.eu/languages/languages-of-europe/eu-languages_en.htm (Cyrchwyd 15 Ebrill 2012).

Cunliffe (2007), 'Wyneblyfr', <http://datblogu.blogs.glam.ac.uk/2007/08/20/wyneblyfr/> (Cyrchwyd 15 Awst 2011).

Davies, John (1992), *Hanes Cymru* (Llundain: Penguin Books).

DGT (2009a), *Translating for a Multilingual Community* (Gwlad Belg: DGT)

DGT (2009b), *Translation Tools and Workflow* (Gwlad Belg: DGT).

DGT (2011), 'EUROPEAN ADVANCED MULTILINGUAL INFORMATION SYSTEM', http://ec.europa.eu/dgs/translation/workwithus/calls/open/cattools/documents/011a_annex_9_list_of_links_euramis_en.pdf (Cyrchwyd 11 Rhagfyr 2012).

Gow, Francie, (2003), 'Metrics for Evaluating Translation Memory Software' http://www.chandos.ca/Metrics_for_Evaluating_Translation_Memory_Software.pdf (Cyrchwyd 19 Mehefin 2010)

Jones, Rhys et al. (2008), 'Project Closure Report for SALT Cymru (HE 06 KEP 1002)', http://www.saltcymru.org/english/SALT%20Cymru%20_HE%2006%20KEP%201002_%20Project%20Closure%20Report.pdf (Cyrchwyd 15 Rhagfyr 2012).

Lagoudaki, Elina (2006), 'Translation Memories Survey 2006: Users' Perceptions around TM Use', yn *Translating and the Computer*, 28 (Llundain: ASLIB).

Llywodraeth Cymru (2006), 'Beth yw'r Undeb Ewropeaidd?' <http://wales.gov.uk/topics/international/europeanaffairs/whatiseuropeanunion/?lang=cy> (Cyrchwyd 14 Mawrth 2013)

Llywodraeth Cymru (2012a), 'Iaith fyw: iaith byw Strategaeth y Gymraeg 2012–17', <http://wales.gov.uk/docs/dcells/publications/122902wls201217cy.pdf> t 52 (Cyrchwyd 15 Rhagfyr 2012).

Llywodraeth Cymru (2012b), 'Yr Iaith Gymraeg: Adroddiad blynyddol 2011–12', <http://assemblywales.org/cy/bus-home/bus-business-fourth-assembly-laid-docs/gen-id9012-e.pdf?langoption=3&ttl=GEN-LD9012%20-%20Yr%20Iaith%20Gymraeg%3A%20Adroddiad%20Blynyddol%202011-12> (Cyrchwyd 15 Rhagfyr 2012).

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2003), 'Iaith Pawb - Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Cymru Ddwylleithog', <http://wales.gov.uk/depc/publications/welshlanguage/iaithpawb/iaithpawbw.pdf?lang=cy> (Cyrchwyd 21 Hydref 2009).

Piehl, Aino et al. (2010), *Writing for Translation* (Lwcsembwrg: CDT).

Prys, Delyth et al. (2009), 'Gwell offer technoleg cyfieithu ar gyfer y Diwydiant Cyfieithu yng Nghymru: Arolwg dadansoddol' <http://www.catcymru.org/wordpress/wp-content/uploads/PDFGwell%20offer%20technoleg%20cyfieithu%20ar%20gyfer%20y%20Diwydiant%20Cyfieithu%20yng%20Nghymru.pdf> (Cyrchwyd 15 Rhagfyr 2012).

Pym, Anthony (2011), *Translation research terms – a tentative glossary for moments of perplexity and dispute* (Tarragona: Intercultural Studies Group)

Undeb Ewropeaidd (2012), 'EUROPA - The history of the European Union – 1958', http://europa.eu/about-eu/eu-history/1945-1959/1958/index_en.htm (Cyrchwyd 15 Ebrill 2012).

Undeb Ewropeaidd (2013), 'How the EU works' http://europa.eu/about-eu/index_en.htm (Cyrchwyd 14 Mawrth 2013)

Verleysen, Piet (2010), 'Introduction and welcome speech', http://ec.europa.eu/dgs/translation/publications/presentations/speeches/20100920_lisa_en.pdf (Cyrchwyd 23 Mawrth 2012).

Watkins, Gareth (2010), 'Crynodeb o Ganlyniadau Holiadur Technoleg Iaith' http://gareth-watkins.co.uk/cymraeg/canlyniadau_arolwg_cyfieithwyr.html (Cyrchwyd 1 Medi 2010).

Watkins, Gareth (2012), 'Crynodeb o Ganlyniadau'r Ail Holiadur Technoleg Iaith' http://gareth-watkins.co.uk/cymraeg/canlyniadau_arolwg_cyfieithwyr.html (Cyrchwyd 2 Awst 2012).

Cyfranwyr

Aled Gruffydd Jones

Penodwyd Aled Gruffydd Jones yn Llyfrgellydd Cenedlaethol Cymru yn 2013. Cyn hynny, bu'n ddarlithydd Hanes ym Mhrifysgol Aberystwyth oddi ar 1980, ac yn ddeilydd cadair Syr John Williams mewn Hanes Cymru oddi ar 1995. Mae ei ddiddordebau hanesyddol yn ymestyn o ddiwylliant printiedig y bedwaredd ganrif ar bymtheg hyd at hanes y Cymry mewn gwahanol gyd-destunau rhyngwladol, gan gynnwys India a'r dwyrain pell. Bu'n Ddirprwy Is-Ganghellor yn Aberystwyth oddi ar 2005, ac yn aelod o baneli asesu ymchwil Hanes yn RAE08 a REF14. Bu hefyd yn aelod o Fwrdd Cyfarwyddwyr y Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

Craig Owen Jones

Mae Craig Owen Jones yn frodor o Lanelwy. Graddiodd o'r Ysgol Gerdd, Prifysgol Bangor gyda doethuriaeth yn 2006. Mae'n arbenigo mewn cerddoriaeth boblogaidd, yn enwedig cerddoriaeth bop iaith Gymraeg, y Manic Street Preachers, cerddoriaeth boblogaidd mewn ieithoedd lleiafrifol, a roc pync. Mae'n gweithio fel darlithydd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn yr Ysgol Gerdd, Prifysgol Bangor.

Gareth Watkins

Mae Gareth Watkins yn fyfyrwr doethuriaeth yn ei flwyddyn olaf ym Mhrifysgol Abertawe. Prif ddiddordeb ymchwil Gareth yw Technoleg Iaith a sut y'i defnyddir yng nghyd-destun cyfieithu Saesneg-Cymraeg-Saesneg yng Nghymru. Mae Gareth wedi cynnal dau arolwg llwyddiannus a gynlluniwyd er mwyn ymchwilio i'r defnydd o dechnoleg iaith yng Nghymru, a'r agweddau tuag ati. Mae Gareth wedi cyflwyno papurau yn seiliedig ar ei waith mewn cynadleddau yn Abertawe, Bangor ac i gynulleidfa ryngwladol ym Marselona. Mae Gareth hefyd yn rhan o'r rhwydwaith ymchwil 'Cyfieithu Mewn Diwylliannau Di-Wladwriaeth: Safbwyntiau Beirniadol Newydd o Gymru'. Ar hyn o bryd mae'n gweithio ar lunio metrig gyda'r bwriad o helpu cyfieithwyr wrth iddynt gloriannu systemau Cof Cyfieithu.

Gwerddon

CYFNODOLYN ACADEMAIDD CYMRAEG

ISSN 1741-4261



9 771741 426008